

Cyllido Ysgolion yng Nghymru

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyllido Ysgolion yng Nghymru

Gorffennaf 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Cadeirydd y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru
Torfaen

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymini



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Janet Finch-Saunders AC
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Siân Gwenllïan AC
Plaid Cymru
Arfon

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Michelle Brown AC
Annibynnol
Gogledd Cymru



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Argymhellion.....	9
Geirfa.....	13
1. Cefndir yr ymchwiliad	15
Y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor	16
2. Y broses Cyllido Ysgolion: Sut mae'n gweithio.....	18
Sut mae'r arian yn dod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth Cymru.....	18
Sut mae'r arian yn dod o Lywodraeth Cymru i'r ysgolion.....	20
Y Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB).....	21
Sut caiff ysgolion eu hariannu yng Nghymru?	22
3. Lefelau cyllido ysgolion.....	23
Gwariant gros a gyllidebwyd.....	23
Gwariant dirprwyedig.....	24
4. Digonolrwydd y cwantwm cyffredinol a'r flaenoriaeth a roddir i addysg	27
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	27
Safbwynt Llywodraeth Cymru	32
Ein barn ni.....	34
5. Dyranriad Llywodraeth Cymru ar yr adnoddau sydd ar gael rhwng yr awdurdodau lleol.....	38
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	39
Safbwynt Llywodraeth Cymru.....	42
Ein barn ni.....	45
6. Blaenoriaethau'r awdurdodau lleol o ran cyllid i'r ysgolion.....	47
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	49
Safbwynt Llywodraeth Cymru.....	51
Ein barn ni.....	53

7. Sut mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu'r cyllid y maent yn ei ddarparu i'r ysgolion, rhwng yr ysgolion	56
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	57
Safbwynt Llywodraeth Cymru	60
Ein barn ni.....	61
8. Cyllid heb ei neilltuo a chyllid wedi'i dargedu	64
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	65
Safbwynt Llywodraeth Cymru	68
Ein barn ni.....	69
9. Cronfeydd wrth gefn a diffygion yng nghyllidebau'r ysgolion	71
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	72
Safbwynt Llywodraeth Cymru	73
Ein barn ni.....	75
10. Cyllidebau tair blynedd i'r ysgolion.....	78
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	78
Safbwynt Llywodraeth Cymru	79
Ein barn ni.....	80
11. Rôl yr "haen ganol"	82
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	83
Safbwynt Llywodraeth Cymru	85
Ein barn ni.....	86
12. Gwariant ar "wella ysgolion"	88
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	88
Safbwynt Llywodraeth Cymru	89
Ein barn ni.....	90
13. Dirprwyo: cyfran y cyllid addysg sy'n cyrraedd y talcen.....	92
Tystiolaeth y rhanddeiliaid	93
Safbwynt Llywodraeth Cymru	98
Ein barn ni.....	99

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	101
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	102
Atodiad C: Dadansoddiad o'r Aseiad wedi'i seilio ar Ddangosyddion (IBA) i'r awdurdodau lleol, dyraniadau'r gyllideb addysg, gwariant fesul disgybl a safonau ysgol.....	104
Atodiad D: Data ar gronfeydd wrth gefn yr ysgolion	115
Atodiad E: Crynodeb o ymchwiliadau ac adolygiadau blaenorol...	118

Rhagair y Cadeirydd

Mae mynediad at addysg o ansawdd uchel yn hawl sylfaenol i bob un o'n plant a phobl ifanc. Ni ddylai ddibynnu ar ble rydych yn byw, ar eich cefndir cymdeithasol nac ar ba iaith yr ydych chi'n dysgu ynddi. Addysg dda yw un o'r conglfeini pwysicaf y gallai plentyn eu cael.

Mae'n hanfodol bod digon o gyllid ar gael i sicrhau y gellir darparu'r addysg y mae ein plant a'n pobl ifanc yn ei haeddu, a hynny mewn modd effeithiol a chyson. Testun pryder mawr, felly, oedd clywed tystiolaeth gan bob rhan o'r sector, ac o bob rhan o'r wlad, am y problemau a wynebir wrth geisio gweithredu o fewn cyllidebau ysgolion presennol.

Roedd y dystiolaeth honno'n llethol. Yn syml iawn, nid oes digon o arian yn mynd i'r system addysg yng Nghymru ac nid oes digon yn cyrraedd yr ysgolion. Casgliad syml, ond er hynny, nid oes ateb syml. Mae'r system ar gyfer cyllido ysgolion yn hynod gymhleth ac yn aml-haenog, ac mae'n dibynnu ar lawer o ffactorau. Byddai wedi bod yn hawdd i ni fel Pwyllgor argymell, yn syml, y dylid pennu cyllid ychwanegol ar gyfer addysg ac ysgolion, ond rydym yn credu'n llwyr nad cynyddu lefel y cyllid yn unig yw'r ateb. Rhaid i'r arian hefyd gael ei ddefnyddio yn effeithiol.

I ddeall graddfa'r problemau, rhaid inni yn gyntaf amgyffred y bwlch cyllido sy'n wynebu'r system addysg yng Nghymru, yn enwedig ar adeg o ddiwygio sylweddol. I'r perwyl hwnnw, mae angen i ni ddeall faint mae'n ei gostio i redeg ysgol ac i addysgu plentyn, sef y lleiafswm sylfaenol, cyn ystyried ffactorau angenrheidiol megis amddifadedd a theneurwydd poblogaeth. Credwn gan hynny fod yn rhaid cynnal ar frys yr adolygiad yr ydym yn galw amdano yn ein prif argymhelliad.

Ond, fel y nodir yn ein hadroddiad, mae a wnelo nid yn unig â lefel y cyllid i ysgolion, ond hefyd â'r ffordd y mae'r arian yn cyrraedd rheng flaen yr ysgolion a sut y caiff ei ddefnyddio. Mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys sut mae adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn cael eu rhannu, a yw awdurdodau lleol yn blaenoriaethu ysgolion yn eu proses pennu cyllidebau eu hunain, i ba raddau y maent yn dirprwyo cyllid i'r ysgolion, a sut maent yn rhannu'r cyllid hwnnw rhwng eu hysgolion. O ganlyniad, mae ein hargymhellion hefyd yn canolbwyntio ar sut y gellir gwella'r prosesau hyn.

Roedd ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar ddata cyllido ysgolion hyd at 2018-19, sef y data diweddaraf a oedd ar gael i ni ar y pryd - cytunwyd ar yr adroddiad hwn ar 26 Mehefin 2019. Mae data a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2019 yn dangos bod gwariant ar ysgolion yn 2019-20 wedi codi mewn amseroedd real am y tro cyntaf

ers 2010-11. Yn amlwg, mae hyn i'w groesawu ond dylid nodi bod hyn yn dal i gynrychioli gostyngiad o 7.3 y cant mewn termau real dros y cyfnod ers 2010-11.

Mae maint y deisen a'r ffordd y caiff ei rhannu yn bwysig, ond ar adeg pan fo diwygiadau addysgol sylweddol ar y gorwel, dylid sicrhau bod digon o gyllid ar gael i alluogi i'r diwygiadau hynny lwyddo i'r graddau yr ydym am weld.

Os ydym am osgoi argyfwng cyllido yn y system addysg, ac yn ein hysgolion, mae'n hanfodol bod pob rhan o'r sector, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn cydweithio i gyflawni ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc, a hynny ar fyrder. Rhaid inni sicrhau bod cyllid ysgolion yn ddigonol, a'i fod hefyd yn gyson ac yn cael ei reoli'n effeithiol.

Lynne Neagle
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad ar fyrder o faint o gyllid y mae ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru, yn enwedig o gofio lefel y diwygiadau sydd ar y gweill. Dylai'r adolygiad hwn:

- ystyried, fel ei sail, beth yw cost sylfaenol rhedeg ysgol ac addysgu plentyn yng Nghymru, cyn i'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer ffactorau eraill fel amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac amgylchiadau lleol, gael eu dyrannu; a
- darparu amcangyfrif o'r bwch cyllid presennol rhwng y swm sy'n cael ei wario ar ysgolion ar hyn o bryd a'r swm y mae ei angen i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol - gan gynnwys yr agenda ddiwygio sylweddol.....Tudalen 36

Argymhelliad 2. Y dylai dyraniad y gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru gael ei gydbwyso tuag at wariant ataliol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i gyllid llywodraeth leol ac o fewn hynny, yr arian sydd ar gael i'r ysgolion, a hynny yn ei phroses o bennu cyllidebau blynyddol ac wrth ailddyrrannu adnoddau yn ystod y flwyddyn.

.....Tudalen 37

Argymhelliad 3. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu costau/cyfraddau taliadau ar draws lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, a'r elfen gofal plant o dan Dechrau'n Deg. Dylai sylw arbennig gael ei roi i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu am addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant a dylai'r cynllun peilot sydd wedi'i sefydlu yn Sir y Fflint fwydo'r ymagwedd hon..... Tudalen 37

Argymhelliad 4. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall y dyraniad adnoddau i'r awdurdodau lleol gael ei bennu trwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion, yn hytrach na dull sy'n seiliedig ar fethodoleg hanesyddol. Dylai dull o'r fath sydd wedi'i seilio ar anghenion, wrth ystyried yr elfen addysgol yng nghyllid cyffredinol llywodraeth leol, ddechrau drwy ystyried faint mae'n ei gostio i addysgu plentyn (gweler argymhelliad 1) a defnyddio dangosyddion sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol megis amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ar ben y gost ofynnol honno..... Tudalen 46

Argymhelliad 5. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agosach lefel y flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i addysg yn y ffordd y maent yn gosod eu cyllidebau, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw a chadarn a'i sicrhau ei hun fod digon o gyllid yn cael ei ddarparu i alluogi'r ysgolion i wella ac i gyflawni ei hagenda ddiwygio.....Tudalen 54

Argymhelliad 6. Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro union bwrpas yr Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs), gan gynnwys a ydynt yn ganllaw i faint y mae angen i awdurdod lleol ei wario ar addysg er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau ysgol.....Tudalen 55

Argymhelliad 7. Y dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y mae'n cyhoeddi gwariant yr awdurdodau lleol ar addysg yn uniongyrchol ochr yn ochr â'r Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) yn ei datganiad ystadegol blynyddol, os nad yw IBAs i'w trin fel targedau gwario.....Tudalen 55

Argymhelliad 8. Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol i gydbwyso sut y gall yr egwyddorion ynglŷn â gwneud penderfyniadau'n lleol ac atebolrwydd democrataidd gael eu cynnal gan sicrhau ar yr un pryd fwy o dryloywder, cysondeb a thegwch yn y ffordd y mae ysgolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn cael eu cyllido.....Tudalen 62

Argymhelliad 9. Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae datganiadau cyllideb Adran 52 yn gweithio, er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir gan yr awdurdodau lleol yn debyg ac yn gyson. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod datganiadau cyllideb Adran 52 yn fwy hygyrch.....Tudalen 63

Argymhelliad 10. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r cydbwysedd y mae'n ei wynebu rhwng darparu cyllid neilltuedig ar gyfer amcanion penodol, a'r cyllid y mae'n ei ddarparu i lywodraeth leol i gyllido cyllidebau craidd yr ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rheolaidd hefyd i asesu'r gwerth am arian sy'n dod yn sgil dyrannu cyllid o'r fath.....Tudalen 70

Argymhelliad 11. Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod arian grant yn cael ei roi i'r ysgolion cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol. Os na all y cyllid hwn gael ei roi yn gynharach yn y flwyddyn ariannol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys mwy o hyblygrwydd yn yr amodau grant perthnasol ynghylch sut a/neu pryd y caiff yr ysgolion ei wario.....Tudalen 70

Argymhelliad 12. Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda'r awdurdodau lleol i ymchwilio i'r rhesymau dros y lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, ac a yw'r rheiny wedi'u profi'n ddigonol ai peidio, a chyhoeddi unrhyw ganfyddiadau o'i ymchwiliadau. Yn benodol, dylai'r diweddariad amlygu unrhyw waith a wnaed mewn perthynas â'r 501 o ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol, gan gynnwys unrhyw ymyrraeth posibl gan yr awdurdodau lleol.....Tudalen 76

Argymhelliad 13. Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 er mwyn canfod a ydyn nhw'n addas at eu diben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n benodol i ystyried a yw'r pwerau'n rhoi digon o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol ailddyrrannu unrhyw arian y maent yn ei adennill mewn modd effeithiol. Dylai unrhyw adolygiad a wneir hefyd ystyried a ddylai trothwyon cronfeydd wrth gefn fod yn ganran gymharol o gyllideb yr ysgol yn hytrach na ffigur absoliwt, i ymdrin ag ysgolion o feintiau gwahanol.....Tudalen 77

Argymhelliad 14. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag achosion lle mae gan ysgolion gyllidebau diffygiol, yn enwedig lle nad oes cynllun adfer ar waith.....Tudalen 77

Argymhelliad 15. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall fwrw ymlaen â'r nod sy'n bodoli ers tro byd o ddarparu cyllidebau tair blynedd i'r ysgolion, yng nghyd-destun setliadau cyllido tair blynedd i'r awdurdodau lleol, er mwyn galluogi'r ysgolion i gynllunio'n fwy effeithiol at y tymor hir. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfaddawd rhwng manteision rhagamcanion hirdymor a chywirdeb a sicrwydd y dyraniadau cyllideb hirdymor hynny.
.....Tudalen
80

Argymhelliad 16. Y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith i gyfathrebu ac egluro'n glir rolau priodol yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau addysg, ac yn benodol gwasanaethau i ysgolion. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn o fewn gwaith grŵp yr haen ganol o dan arweiniad yr Athro Dylan Jones.
.....Tudalen 87

Argymhelliad 17. Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r hyn y caiff yr £11 miliwn a gyllidebwyd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gwella ysgolion ei wario arno, o'i gymharu â'r £11 miliwn y mae'r awdurdodau lleol yn ei dalu i'r consortia rhanbarthol am eu gwasanaethau gwella ysgolion..... Tudalen 91

Argymhelliad 18. Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r consortia i sicrhau nad oes dyblygu na defnydd aneffeithlon ar adnoddau pan ddyrennir cyllid ar gyfer gwella ysgolion..... Tudalen 91

Argymhelliad 19. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro i ba raddau mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion. Wrth wneud hyn, dylid cydnabod bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ganolog..... Tudalen 99

Argymhelliad 20. Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i effaith y broses lle mae ysgolion yn prynu gwasanaethau yn ôl oddi wrth yr awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau dirprwyo sy'n cael eu cyhoeddi yn adlewyrchu'n gywir lefel yr arian sy'n cael ei ddirprwyo mewn gwirionedd ar gyfer gweithgareddau craidd yr ysgolion..... Tudalen 100

Argymhelliad 21. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro cyfraddau dirprwyo yn ofalus ar gyfer ei grantiau addysg neilltuedig ei hun er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen, a hynny at y dibenion a fwriadwyd..... Tudalen 100

Geirfa

Amddifadedd – dyma ffactor cyllido gorfodol yn y fformiwla cyllido bloc ar gyfer ysgolion cynradd prif-ffrwd cyn-16 yr awdurdodau lleol, sef ffactor sy'n cyfeirio cyllid at y disgyblion mwyaf difreintiedig. Mae hefyd yn cael ei ystyried pan fydd Llywodraeth Cymru'n dosbarthu adnoddau rhwng yr awdurdodau lleol.

Ardrethi annomestig – treth ar eiddo a delir ar eiddo annomestig. Yn aml cyfeirir atynt fel “ardrethi busnes”, ac maen nhw'n cael eu casglu gan yr awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru sy'n eu hailddosbarthu wedyn i'r awdurdodau lleol fel rhan o'u Cyllid Allanol Agregedig.

Asesiad o Wariant Safonol (SSA) – y ffigur tybiannol ar gyfer swm yr arian y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo ei fod yn angenrheidiol er mwyn darparu lefel gwasanaeth safonol mewn sector, er enghraifft Gwasanaethau Ysgolion. Defnyddir SSAs i ddangos sut mae dyraniadau adnoddau wedi'u cyfrifo, ac nid oes bwriad eu defnyddio fel targedau gwario.

Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) – Yn yr Asesiadau o Wariant Safonol a ddefnyddir yn setliad llywodraeth leol, mae cyfansymiau'r sectorau, er enghraifft Gwasanaethau Ysgolion, yn cael eu rhannu'n IBAs, sef ffigur tybiannol ar gyfer swm yr arian y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo ei fod yn angenrheidiol er mwyn darparu lefel gwasanaeth safonol.

Cyfraddau Dirprwyo – y gyfran o'r gwariant gros yng nghyllidebau'r ysgolion a roddir i'r ysgolion eu hunain, yn hytrach na chael ei gwario ar yr ysgolion gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol.

Cyllid Allanol Cyfun (AEF) – y cymorth ariannol a ddarperir i'r awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru at wariant refeniw ar wasanaethau sy'n effeithio ar y dreth gyngor. Mae'r AEF yn cynnwys y grant cynnal refeniw a'r ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) wedi'u hailddosbarthu.

Cyllid heb ei neilltuo – cyllid y caniateir i'r sawl sy'n ei dderbyn benderfynu sut i'w ddefnyddio. Er enghraifft, nid yw'r Grant Cynnal Refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol wedi'i neilltuo, sy'n golygu mai mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut maent yn ei wario, yn unol â'u hamgylchiadau a'u blaenoriaethau eu hunain.

Cyllid neilltuedig – cyllid y mae'n rhaid ei ddefnyddio at ddiben penodol, er enghraifft grantiau penodol, o'i gyferbynnu â chyllid a roddir i'r awdurdodau lleol i benderfynu sut i'w ddefnyddio.

Cwantum – term a ddefnyddir i olygu cyfanswm.

Fformiwla Cyllido Llywodraeth Leol - y fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cyllid refeniw rhwng yr awdurdodau lleol. Mae'n cael ei goruchwyllo a'i hadolygu'n flynyddol gan yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG), sef gweithgor technegol sy'n eistedd o dan aden Cyngor Partneriaeth Cymru. Nodir y fformiwla yn flynyddol yn y Llyfr Gwyrdd.

Fforwm ysgolion – dyma gorff sy'n cynnwys cynrychiolwyr ysgolion a gynhelir, a darparwyr blynyddoedd cynnar yn ardal awdurdod lleol, ynghyd â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol eraill. Prif ddiben y fforwm yw rhoi cyfle i randdeiliaid pwysig gynnig cyngor a chynnig barn i'r awdurdod lleol ar gyllidebau ysgolion ym mhob blwyddyn ariannol.

Grant Cynnal Refeniw (RSG) – y grant blynyddol, sydd heb ei neilltuo, a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol i gyllido'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu i'w preswylwyr. Yr RSG yw'r rhan fwyaf o'r AEF yn setliad blynyddol llywodraeth leol.

Y Llyfr Gwyrdd – cydymaith ystadegol i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'n rhoi gwybodaeth gefndir ar gyfer cyfrifo asesiadau gwariant safonol (SSAs) ar gyfer setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol.

StatsCymru – storfa ar-lein ddi-dâl Llywodraeth Cymru ar gyfer data ystadegol manwl am Gymru.

Teneurwydd poblogaeth – ffactor cyllido dewisol yn fformiwla cyllido bloc yr awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion cynradd prif-ffrwd cyn-16. Rhaid i ysgolion sy'n gymwys i gael arian teneurwydd poblogaeth fod yn ysgolion bach, a bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle byddai'n rhaid i'r disgyblion deithio cryn bellter i ysgol arall, pe bai'r ysgol yn cau. Mae hefyd yn cael ei ystyried pan fydd Llywodraeth Cymru'n dosbarthu adnoddau rhwng yr awdurdodau lleol.

Unedau Disgyblion wedi'u Pwysoli yn ôl Oedran (AWPUs) – dyma'r gyfradd y mae'r awdurdodau lleol yn ei phennu i ddyrannu cyllid hawliau sylfaenol ar gyfer disgyblion cyn-16 yn ysgolion y brif ffrwd. Mae'r hawl sylfaenol yn ffactor gorfodol y mae'n rhaid ei ddefnyddio yn y fformiwla gyllido.

Ysgol a gynhelir – ysgol sy'n cael ei chyllido gan yr awdurdod lleol.

1. Cefndir yr ymchwiliad

- 1.** Mae cwestiwn y pwysau ar gyllidebau ysgolion a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu addysg wedi'i godi'n aml yn ystod nifer o ymchwiliadau ac mewn gwaith craffu arall, mwy cyffredinol, a wnaed gan ein Pwyllgor ni yn ystod y Cynulliad hwn.
- 2.** Mae'r rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau athrawon ac awdurdodau lleol wedi mynegi pryder gwirioneddol y gallai darpariaeth annigonol ar gyfer cyllidebau ysgolion amharu ar gyflawni agenda diwygio addysg Llywodraeth Cymru ac amcanion allweddol y cynllun gweithredu Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl,¹ gan gynnwys gwella ysgolion, y cwricwlwm newydd, dysgu proffesiynol athrawon a llesiant disglbion (gan gynnwys yr ymagwedd ysgolgyfan at iechyd emosiynol a meddyliol). Mae gweithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd yn faes polisi allweddol arall y mae rhai rhanddeiliaid yn credu ei fod mewn perygl oherwydd cyllid annigonol.
- 3.** Cyflogau staff yw'r rhan fwyaf o gyllideb unrhyw ysgol, a thynnwyd sylw at ostyngiadau mewn termau real mewn cyllid fel achos sy'n peri bod rhaid i ysgolion wneud toriadau staff er mwyn ateb yr her o redeg ysgol yn effeithiol o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.
- 4.** Mynegwyd pryderon hefyd am lefel y tryloywder a'r amrywio yn nosbarthiad y cyllid i ysgolion, a chafwyd trafod hefyd ar y cydbwysedd rhwng cyllid heb ei neilltuo i lywodraeth leol a'r cyllid sydd wedi'i dargedu'n fwy penodol ar flaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru.
- 5.** Mae'n glir felly bod yna bryderon nid yn unig ynghylch lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgolion ond hefyd ynghylch y modd y mae'r cwantwm arian yn cael ei ddsbarthu o dan y system bresennol, a'r effaith y mae hyn yn ei chael.
- 6.** Yng ngoleuni hyn, ym mis Hydref 2018, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gyllid ysgolion yng Nghymru, i edrych ar y canlynol:
 - digonolrwydd cyllid ysgolion yng Nghymru; a
 - sut roedd cyllidebau ysgolion yn cael eu pennu a'u dyrannu.
- 7.** O fewn y penawdau eang hyn roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

¹ Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Cynllun gweithredu 2017-21

- digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion, yng nghydestun cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r adnoddau sydd ar gael;
- i ba raddau y mae lefel y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn ategu neu'n rhwystro'r gwaith o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru;
- y berthynas, y cydbwysedd a'r tryloywder rhwng ffynonellau cyllid amrywiol yr ysgolion, gan gynnwys cyllidebau craidd a chyllid neilltuedig;
- fformiwla cyllido llywodraeth leol a'r pwysoliad a roddir i gyllidebau addysg a chyllidebau ysgolion yn benodol yn Setliad Llywodraeth Leol;
- goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru dros sut mae'r awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ysgolion unigol, gan gynnwys, er enghraifft, y pwysoliad a roddir i ffactorau megis proffil oedran y disgyblion, amddifadedd, iaith y ddarpariaeth, nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a darpariaeth cyn oedran gorfodol;
- y cynnydd a'r datblygiadau ers adolygiadau blaenorol pwyllgorau'r Cynulliad (er enghraifft, rhai'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn y Trydydd Cynulliad); ac
- argaeledd cymariaethau rhwng cyllid addysg a chyllidebau ysgolion yng Nghymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig a'r defnydd ohonynt.

8. Ni cheisiodd yr ymchwiliad ganfod faint o arian y mae ei angen er mwyn i ysgol weithredu, gan y byddai hynny'n golygu bod angen darn llawr mwy arwyddocaol o waith.

Y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor

9. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar rhwng mis Hydref 2018 a mis Ebrill 2019, a darperir rhestrau llawn o'r rhain yn Atodiadau A a B i'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd digwyddiad i'r rhanddeiliaid gan ganolbwyntio ar faterion mwyaf technegol y broses cyllido ysgolion er mwyn sicrhau dealltwriaeth o sut mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu adnoddau i addysg (ac yn benodol i ysgolion).²

² [Nodyn cryno o'r Digwyddiad i'r Rhanddeiliaid: 16 Ionawr 2019](#)

10. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â thair ysgol, gan ddefnyddio pob un fel astudiaeth achos, i ganfod y broses o pa bryd mae cyllideb ysgol yn cael ei dyrannu a sut, i sut mae'n cael ei gwario. Yn ystod pob astudiaeth achos, cawsom gyfarfodydd i glywed gan ystod eang o bobl a oedd yn rhan o'r broses, gan gynnwys arweinwyr ysgolion, athrawon a disgyblion, llywodraethwyr ysgolion, rhieni, swyddogion o'r awdurdodau lleol ac o'r consortia rhanbarthol.

11. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

2. Y broses Cyllido Ysgolion: Sut mae'n gweithio

Mae'r modd y caiff ysgolion unigol eu cyllido yn gymhleth. Mae'r broses gyllido honno - o'r lefel uchaf - wedi'i seilio ar nifer o fformiwlâu gwahanol. Nod yr adran hon yw amlinellu sut mae cyllid yn llifo o lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ysgolion unigol, a'r hyn sy'n digwydd yn ystod y daith.

12. Mewn tystiolaeth lafar, tynnodd Rob Williams, Cyfarwyddwr Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru, sylw at gymhlethdodau'r broses cyllido ysgolion, gan nodi:

“Because of the complexities, you've got a formula at Welsh Government level, you've got 22 separate local authority formulas, you've got different arrangements feeding in and out of regional consortia, so if you followed a £1's journey from Westminster to Welsh Government and through the system before it came to schools, it's a wonder we don't owe them money, frankly.”³

13. Mae esboniad byr o bob elfen o'r broses gyllido honno wedi'i nodi yn yr adran hon, ac mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad manylach o elfennau penodol o'r broses yn yr adrannau perthnasol. Mae esboniad manylach o'r broses cyllido ysgolion wedi'i gynnwys yng nghyhoeddiad Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, Cyllido Ysgolion yng Nghymru.⁴

Sut mae'r arian yn dod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth Cymru

14. Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru yn llifo o Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ffurf grant Bloc Cymru. Mae'r grant bloc yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir gan Drysorlys y Deyrnas Unedig i addasu faint o arian a ddyrennir i Gymru. Mae'r fformiwla yn ystyried y tri ffactor a ganlyn wrth gyfrifo newidiadau yng ngrant bloc Cymru.

³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 77\]. 21 Chwefror 2019](#)

⁴ Cyhoeddiad Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad: [Cyllido ysgolion yng Nghymru - Awst 2018](#)



15. Mae fformiwla Barnett yn defnyddio system gynyddrannol, sef bod dyraniad un flwyddyn wedi'i seilio ar ddyraniad y flwyddyn cynt. Enw'r dyraniad a gyfrifir drwy'r fformiwla yw cyllid canlyniadol Barnett.

16. Yn sgil cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae ffactor sy'n seiliedig ar anghenion wedi'i gynnwys er mwyn cyfrifo grant Bloc Cymru, sef ffactor a fydd yn cael ei osod ar 115%. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyllid y pen yng Nghymru yn dal yn 115% o'r cyllid cyfatebol yn Lloegr. O gofio bod y cyllid y pen yng Nghymru yn fwy na 115% ar hyn o bryd o'r cyllid cyfatebol yn Lloegr, mae'r cytundeb ynglŷn â'r fframwaith ariannol hefyd yn cynnwys cyfnod trosiannol sydd ar hyn o bryd yn cymhwyso 105% arall at godiadau ym Mloc Cymru hyd nes y cyrhaeddir 115%.⁵

Tabl 1: Newidiadau ym Mloc Cymru ers 2010-11 mewn termau arian parod ac mewn termau real

	£ miliynau		£ miliynau yn ôl prisiau 2019-20	
	Cyllideb Cymru *1	Pe bai'n tyfu yn unol â GDP *2	Cyllideb Cymru *1	Pe bai'n tyfu yn unol â GDP *2
	Arian parod		Termau real	
2010-11	15,366	15,366	17,703	17,703
2011-12	14,860	15,784	16,898	17,948
2012-13	14,857	16,361	16,561	18,237
2013-14	14,955	17,037	16,370	18,649
2014-15	15,156	17,742	16,379	19,174
2015-16	15,096	18,291	16,185	19,611
2016-17	15,418	19,025	16,169	19,952
2017-18	15,911	19,666	16,406	20,278
2018-19	16,309	20,238	16,565	20,556
2019-20	16,866	20,820	16,866	20,820

*1 Cyllideb Cymru ac eithrio trafodiadau ariannol ad-daladwy

*2 Wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio'r datchwyddwyr GDP ym mis Mehefin 2018

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (adeg Cyllideb Ddrafft 2019-20) gyda dadansoddiad gan y Gwasanaeth Ymchwil

⁵ Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2016

17. Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau ym Mloc Cymru ers 2010-11 mewn termau arian parod ac mewn termau real.

18. Pan fo Bloc Cymru wedi'i ddyrannu, mae Llywodraeth Cymru yn pennu ei chyllideb, drwy'r Broses Gyllideb Flynyddol a sefydlwyd yn y Cynulliad.⁶ Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi sut y dylid gwario Bloc Cymru.

Sut mae'r arian yn dod o Lywodraeth Cymru i'r ysgolion

19. Mae tri phrif gam yn y broses o bennu cyllidebau ysgolion:

- Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r swm priodol o Grant Cynnal Refeniw (RSG) i bob awdurdod lleol. Ynghyd â'i ddyraniad o'r ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, mae hyn yn ffurfio Cyllid Allanol Cyfun (AEF)⁷ yr awdurdod lleol o fewn setliad blynyddol llywodraeth leol. Nid yw'r cyllid yn setliad llywodraeth leol yn cael ei neilltuo, sy'n golygu mai'r awdurdodau lleol eu hunain sy'n penderfynu sut i'w wario.⁸ Bydd pob awdurdod lleol yn defnyddio hyn, ynghyd â'r arian y mae'n ei godi o'r dreth gyngor ac o ffioedd, i gyllido'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir ganddo, gan gynnwys addysg.
- Yn ail, ar ôl i'r awdurdodau lleol benderfynu faint o gyllid i'w ddyrannu i addysg, maent yn gosod tair haen o gyllideb addysg. Un o'r rhain (y Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB)) yw'r arian a roddir yn uniongyrchol (a ddirprwyir) i'r ysgolion.
- Yn drydydd, mae'r awdurdod lleol yn pennu'r gyllideb unigol i bob ysgol a gynhelir ganddo. Mae pob awdurdod lleol yn gwneud hyn yn unol â'i fformiwla ei hun o fewn y paramedrau a bennir gan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

20. Yn ychwanegol at y gyllideb a roddir i bob ysgol gan eu hawdurdod lleol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o ffrydiau cyllido o'i chyllideb addysg ganolog i helpu i roi polisiau a blaenoriaethau penodol ar waith neu i dargedu

⁶ Mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar **protocol cyllideb** ar gyfer yr egwyddorion sy'n sail i'r broses gyllideb hon.

⁷ Mae refeniw ardrethi annomestig yn cael ei godi'n lleol, ei gyfuno'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, ac wedyn ei ailddosbarthu i'r awdurdodau lleol. Ar y cyd â'r RSG, mae'n ffurfio Cyllid Allanol Cyfun (AEF) yr awdurdod lleol.


⁸ Mae **Setliad Llywodraeth Leol** yn cynnwys Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs) ac Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) sy'n modelu amcangyfrif o faint y mae'n ei gostio i bob awdurdod lleol ddarparu lefel gwasanaeth safonol mewn gwahanol sectorau. Maent yn dangos yn dybiannol sut y cyrhaeddwyd AEF yr awdurdod lleol. Er hynny, nid targedau gwario mohony'n nhw.

cyllid ychwanegol. Mae'r rhain yn aml ar ffurf grantiau penodol, fel y Grant Gwella Addysg a'r Grant Datblygu Disgyblion.

Y Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB)

- 21.** Rhaid i'r ISB gael ei dyrannu ymysg yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfrannau o'r gyllideb, drwy ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i 70% o'r cyllid gael ei ddsbarthu ar sail nifer y disgyblion. Yn eu fformiwlâu, mae'r awdurdodau lleol yn cael pwysoli nifer y disgyblion yn ôl nifer o ffactorau gwahanol. Mae hyn yn arwain at 22 o fformiwlâu cyllido gwahanol ar draws Cymru.
- 22.** Mae gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddsbarthu'r 30% arall o'r gyllideb ar sail amryw o ffactorau yn y rheoliadau, e.e. maint a chyflwr adeiladau a thir, ardrethi, costau cyfleustodau, glanhau a chyflogau etc.

Sut caiff ysgolion eu hariannu yng Nghymru?



3. Lefelau cyllido ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystadegau blynyddol ar faint o arian sy'n cael ei ddyrannu gan yr awdurdodau lleol i'w wario ar ysgolion. Cafodd y rhifyn diweddaraf a oedd ar gael yn ystod yr ymchwiliad hwn, Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion 2018-19, ei ryddhau ar 5 Gorffennaf 2018.⁹ Mae'r adran hon yn manylu ar y lefelau cyllido hynny.

23. Mae'r ystadegau hyn ar gael fel cyfansymiau, yn ogystal â ffigurau fesul disgybl. Mae'r ystadegau hefyd yn cynnwys manylion "y gyfradd ddirprwyo", sef y gyfran o'r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion y bydd yr awdurdodau lleol yn ei roi'n uniongyrchol i'r ysgolion eu hunain.

Gwariant gros a gyllidebwyd

24. Mae Tabl 2 yn dangos faint mae'r awdurdodau lleol wedi'i ddyrannu i'w wario ar ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.

- Ym mlwyddyn ariannol 2018-19, cafodd swm gros o £2.566 biliwn ei gyllidebu gan yr awdurdodau lleol i'w wario ar ysgolion.
- Roedd lefel 2018-19 0.9% yn uwch nag yn 2017-18.
- Costyngodd y gwariant gros a gyllidebwyd yn 2015-16 cyn codi eto, gan fynd heibio i lefel 2014-15 yn 2017-18 a chodi eto yn 2018-19.
- Rhwng 2010-11 a 2018-19, cododd y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion 4.4% (£108 miliwn) (termau arian parod). Dyna ostyngiad o 8.4% mewn termau real (yn ôl prisiau 2018-19, gan ddefnyddio datchwyddwyr GDP Trysorlys Ei Mawrhydi, Mawrth 2019).¹⁰

25. Fel y nodwyd yn adran 2, mae yna dair haen o gyllideb y mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu gwariant addysg iddyn nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn

⁹ Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion 2018-19 (roedd data 2019-20 i fod i gael ei gyhoeddi ar 4 Gorffennaf 2019)

¹⁰ Datchwyddwyr GDP Trysorlys EM, Mawrth 2019

cyhoeddi data ar StatsCymru,¹¹ lle rhoddir y dadansoddiad canlynol ar gyfer 2018-19:

- Cyllideb Addysg yr Awdurdodau Lleol (yr elfennau sy'n ymwneud ag ysgolion): £248 miliwn [sylwch fod £59 miliwn wedi'i gyllidebu hefyd ar gyfer gwariant heblaw gwariant ysgolion, megis addysg bellach a hyfforddiant, a gwasanaethau ieuenctid.]
- Y Cyllideb Ysgolion (minws yr ISB): £158 miliwn
- Cyllidebau dirprwyedig i ysgolion: £2.160 biliwn. Mae hyn yn cynnwys £1.941 biliwn o Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB), sef cyllid craidd yr ysgolion, a £219 miliwn o gyllid heblaw'r ISB sydd wedi'i ddirprwyo i'r ysgolion, sy'n cynnwys amryw o grantiau gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion.

26. Mae Tabl 2 yn dangos faint mae'r awdurdodau lleol wedi'i ddyrannu i'w wario ar ysgolion fesul disgybl.

- Yn 2018-19, cafodd £5,675 ei gyllidebu i bob disgybl.
- Roedd lefel 2018-19 0.8% yn uwch na 2017-18.
- Mae'r swm a ddyrannwyd gan yr awdurdodau lleol fesul disgybl yn 2018-19 £266 (4.9%) yn uwch na 2010-11 (termau arian parod). Mewn termau real, roedd hyn yn ostyngiad o 8.0% (yn ôl prisiau 2018-19, gan ddefnyddio datchwyddwyr GDP Trysorlys Ei Mawrhydi, Mawrth 2019).¹²

Gwariant dirprwyedig

27. Y gyfradd ddirprwyo yw'r gyfran o'r gwariant gros a gyllidebwyd sy'n ffurfio cyllidebau dirprwyedig yr ysgolion, sef yr arian a roddir i'r ysgolion eu hunain, yn hytrach na chael ei gadw'n ganolog gan yr awdurdod lleol.

28. Yn 2018-19, ar gyfartaledd ledled Cymru, cafodd 84.2% o'r gwariant gros a gyllidebwyd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion ei ddirprwyo i'r ysgolion eu hunain. Nid yw hyn wedi newid o 84.2% yn 2015-16 ac mae'n gynnydd o 75.0% yn 2010-11.

29. Yn 2012, ymrwymodd llywodraeth leol i darged a osodwyd iddi gan Lywodraeth Cymru, sef dirprwyo 85% o'r holl gyllid ysgolion yn uniongyrchol i'r

¹¹ StatsCymru, [Gwariant referniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth a Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig yn ôl sector](#) - Awst 2018

¹² [Datchwyddwyr GDP Trysorlys EM, Mawrth 2019](#)

ysgolion erbyn 2014-15. Mae Tabl 2 yn dangos y cynnydd yn y cyfraddau dirprwyo dros y blynyddoedd diwethaf.

Tabl 2: Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion

	Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion £ biliynau	Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion, £ fesul disgybl	Y gyfradd ddirprwyo
2018-19	2.566	5,675	84.2%
2017-18	2.543	5,628	84.2%
2016-17	2.519	5,570	84.3%
2015-16	2.496	5,526	83.8%
2014-15	2.528	5,607	82.9%
2013-14	2.519	5,594	82.3%
2012-13	2.495	5,520	81.0%
2011-12	2.470	5,451	76.2%
2010-11	2.458	5,409	75.0%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion](#) (sawl rhifyn blynyddol)

Nodiadau:

i) Yn cwmpasu pob elfen o wariant yr awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys y Gyllideb Ysgolion Unigol) ynghyd â'r elfennau o gyllideb addysg yr awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad i addysg; cludiant ysgol; rheolaeth strategol ysgolion; a gwariant arall. Mae'r ffigurau'n cynnwys cost addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir.

ii) Mae'r ffigurau ar sail "gros", h.y. yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell, gan gynnwys felly gyllid craidd a chyllid grant, megis y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg.

iii) Cyfrifir y gyfradd ddirprwyo drwy rannu'r symiau a ddirprwir i'r ysgolion â'r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion. Bydd y cyfraddau dirprwyo yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan yr awdurdodau lleol. Mae bwletin ystadegol Llywodraeth Cymru'n nodi cyfradd ddirprwyo pob awdurdod lleol.

iv) Cafodd data 2010-11, 2011-12 a 2013-14 ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru yn natganiad ystadegol y flwyddyn ganlynol. Y ffigurau yn y tabl hwn yw'r data diweddaraf, diwygiedig.

v) Nid yw ffigur 2015-16 a'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol yn gwbl gymaradwy am fod gwariant Dechrau'n Deg wedi'i symud o Addysg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2015-16. Er enghraifft, roedd y newid canrannol rhwng 2014-15 a 2015-16 yn ostyngiad o 1.3% ond yn ostyngiad o 1.0% ar ôl addasu swm 2014-15 i dynnu gwariant Dechrau'n Deg.

vi) Disgwylir i ddata 2019-20 gael ei gyhoeddi ar 4 Gorffennaf 2019.

30. Er ei bod wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf fel cyfran o'r cyfanswm gwariant ar ysgolion, mae swm sylweddol o gyllid ysgolion yn dal i gael ei gadw a'i wario'n ganolog gan yr awdurdodau lleol; £407 miliwn yn 2018-19 (15.8% o'r £2.566 biliwn a gyllidebwyd). Mae'r awdurdodau lleol yn penderfynu ei bod yn well

darparu rhai gwasanaethau, er enghraifft cludiant o'r cartref i'r ysgol a rhywfaint o'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ganolog eu hunain er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, arbedion maint neu am eu bod yn wasanaethau arbenigol neu'n wasanaethau canolog yn eu hanfod. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Dadansoddiad o'r gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn 2018-19

Gwariant a gyllidebwyd 2018-19		Dadansoddiad	£ miloedd
Cyllideb Addysg yr Awdurdodau Lleol (a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol)	248,082	Anghenion Dysgu Ychwanegol	20,677
		Gwella ysgolion	22,437
		Mynediad i addysg	36,881
		Cludiant o'r cartref i'r ysgol	112,710
		Rheolaeth strategol - ysgolion	54,498
		Cyllidebau Addysg eraill yr Awdurdodau Lleol - ysgolion	879
		Cyllideb ysgolion (a gedwir yn ganolog gan yr awdurdodau lleol)	158,439
		Adennill Rhwng Awdurdodau Staff	10,522
		Gwariant arall ysgolion	3,157
		Gwariant cyfalaf a godir ar y cyfrif referniw	68,258
			5,072
Cyllidebau dirprwyedig ysgolion	2,159,929	Y Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB)	1,940,630
		Cyllidebau heblaw'r ISB a ddatganolwyd i'r ysgolion	219,294
Cyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion	2,566,450		

Ffynhonnell: wedi'i godi o Llywodraeth Cymru, StatsCymru, [Gwariant referniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth a Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig yn ôl sector](#)

4. Digionolrwydd y cwantwm cyffredinol a'r flaenoriaeth a roddir i addysg

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae maint cwantwm cyffredinol y cyllid sydd ar gael ar gyfer addysg i raddau helaeth yn pennu faint a all gael ei ddyrannu i'r ysgolion. Yn ymarferol, mae'r swyddogaeth hon yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol – gan mai'r awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint o arian sy'n mynd i'r ysgolion ar sail faint o arian y maen nhw'n ei gael drwy setliad llywodraeth leol, a thrwy refeniw a godir yn lleol fel y Dreth Gyngor. Mae'r adran hon yn ystyried a yw maint y gronfa gyllid gyffredinol yn ddigon mawr ac a oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i addysg.

31. Fel y nodwyd yn adran 3 o'r adroddiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data blynyddol ar wariant pob awdurdod lleol ar ysgolion. Yr elfennau pwysicaf yn y data hwn o ran lefelau cyffredinol cyllid yr ysgolion yw:

- Bod cyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion wedi codi 4.4% (£108 miliwn) rhwng 2010-11 a 2018-19. Er hynny, roedd hyn yn ostyngiad o 8.4% (£237 miliwn) mewn termau real.
- Bod y gwariant gros a gyllidebwyd fesul disgybl wedi codi o £5,409 yn 2010-2011 i £5,675 yn 2018-19. Dyna gynnydd o 4.9% yn nhermau arian parod ond gostyngiad o 8.08% (£493) mewn termau real).^{13 14}

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

32. Cafwyd consensws aruthrol yn y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn nad oes digon o adnoddau ar gael i'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn teimlo mai'r prif broblem yw maint y gronfa'n gyffredinol, ac nid sut mae'n cael ei rhannu. Er hynny, mae nifer o'r rhanddeiliaid wedi mynegi

¹³ Rhoddir cyfrifiadau termau real yn ôl prisiau 2018-19, gan ddefnyddio [Datchwyddwyr Trysorlys EM, Mawrth 2019](#).

¹⁴ Disgwylir i ddata 2019-20 gael ei ryddhau ar 4 Gorffennaf 2019.

pryderon hefyd ynglŷn â sut mae'r cwantwm cyffredinol yn cael ei ddsbarthu, ac ymdrinnir â'r rhain mewn adrannau penodol yn yr adroddiad.

33. Yr argraff gyffredinol yn y sector addysg yw nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gyllid i'r ysgolion i'r un graddau â chyllid i'r GIG, ac mae yna bryderon bod ysgolion yn ei chael yn anodd cystadlu â gofal cymdeithasol yng nghyllidebau'r awdurdodau lleol.

34. Mae'r rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau penaethiaid ysgolion, yn sôn am doriadau o'r naill flwyddyn i'r llall,¹⁵ pwysau heb eu hail,¹⁶ ysgolion ar dorri,¹⁷ "rhaid ystyried y sefyllfa'n argyfwng",¹⁸ a phwysau penodol ar ysgolion uwchradd, y mae llawer ohonynt yn rhedeg cyllidebau diffygiol. Dywedodd cynrychiolydd yr NASUWT wrthon ni mai hon oedd y "flwyddyn waethaf" o ran cyllidebau ysgolion yn ei brofiad ef, a oedd yn ymestyn yn ôl i 1995.¹⁹ Crynhodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) y sefyllfa sy'n wynebu ysgolion fel a ganlyn:

"It's depressing, if we're utterly honest. We reckon that, currently, in excess of 50 per cent of secondary schools are in deficit. We expect that figure to rise probably to somewhere between 75 per cent and 80 per cent on 1 April."²⁰

35. Dywedodd yr awdurdodau lleol eu bod wedi ceisio amddiffyn cyllidebau'r ysgolion gymaint ag y gallent ond eu bod mewn sefyllfa bellach lle nad yw hyn yn debygol o barhau'n bosibl. Tynnodd CLILC sylw at faint y pwysau a oedd yn wynebu cyllidebau ysgolion, gan gyfeirio i ddechrau at "fwlch yn y gyllideb" o £109 miliwn yn 2019-20 a oedd yn cyfateb i ryw 4.8%. Rhagwelai CLILC y byddai'r "bwlch yn y gyllideb" yn codi ymhellach i £319 miliwn yn 2022-23 gan rybuddio am doriadau sylweddol mewn termau real a diswyddiadau gorfodol.^{21 22}

36. Amlygodd yr NASUWT hefyd effaith cyllidebau ysgol is ar swyddi athrawon, gan gyfeirio at ffigurau a gynhwyswyd yn Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion 2018 StatsCymru, gan nodi:

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF01 - Unigolyn](#) ac [SF24 - Cyngor Bro Morgannwg](#)

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF34 - NEU Cymru](#)

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig. [NEU Cymru i'r Pwyllgor Cyllid ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2019-20](#)

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig. [UCAC i'r Pwyllgor Cyllid ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2019-20](#)

¹⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 186\]](#), 21 Chwefror 2019

²⁰ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 4\]](#), 21 Chwefror 2019

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 36 - CLILC ac ADEW](#)

²² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[Paragraff 4\]](#), 20 Mawrth 2019

“The shortfall in school budgets in Wales is exemplified by the statistics on teachers in post in Wales. Since 2010 the number of pupils in school in Wales has decreased by only 29 pupils from 467,141 to 467,112 in January 2018. Over the same period the number of full-time equivalent teachers has fallen by 1,416 from 25,286.6 to 23,870.6.”²³

37. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Tim Cox, Swyddog Polisi a Gwaith Achosion Cymru i'r NASUWT, wrthon ni:

“I think this is the worst year I've ever seen for school budgets in Wales. We've been in action, industrial action, over redundancies just about every year, and that's been increasing year on year, the number of redundancies, but we're anticipating this year to be, by far and away, the worst that we've ever seen.”²⁴

38. Mewn gwybodaeth ddilydol a ddarparwyd gan CLILC, rhagwelid y byddai'r “bwlch cyllid” yn 2019-20 wedi lleihau i £63 miliwn, a hynny yn sgil cyllid yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig i dalu dyfarniad cyflog yr athrawon a'r cynnydd perthynol yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwyr.²⁵

39. Mae'r rhanddeiliaid wedi rhybuddio bod cyllid annigonol yn fgythyad i'r broses o gyflawni blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, ac i'r broses o weithredu diwygiadau sylweddol yn llwyddiannus, gan gynnwys y cwricwlwm newydd a'r system ADY newydd. Dywedodd CLILC:

“...it's a bit like trying to run a marathon with a lead weight tied around your neck. The funding is always the elephant in the room. So, there is that enthusiasm to make these reforms work, to invest in them, but obviously it's difficult in the context of the current funding situation.”²⁶

40. Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wrthon ni:

“These are unprecedented times. (...) These are huge concerns that are impacting not only upon our members in the schools, but are impacting upon pupils and the way in which education is being

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig. [FI 37 - NASUWT](#)

²⁴ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 186\], 21 Chwefror 2018](#)

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF FI 04 - CLILC](#)

²⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 14\], 20 Mawrth 2019](#)

provided, and whether or not we can actually deliver the national mission.”²⁷

41. Galwodd yr NAHT am ryw fath o archwiliad neu adolygiad cenedlaethol i ganfod faint mae’n ei gostio i redeg ysgol yn effeithiol, h.y. yr hyn y mae ar ysgol ei angen fel ei harian sylfaenol.²⁸ Dadleuai’r NAHT fod y cwestiwn hwn yn hollbwysig cyn i unrhyw newidiadau yn y fformiwlâu ar gyfer cyllido ysgolion gael eu hystyried.

42. Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) yn cytuno:

“I think what we need to look at in Wales is the overall quantum for education. We need to look at what is the cost of educating a child in Wales, stripping away deprivation, stripping away sparsity, because they can be overlaid afterwards. What is the fundamental basic cost of educating a child in Wales? And it needs to be built up from that base.”²⁹

43. Cododd y Mudiad Meithrin, sy’n darparu addysg a gofal cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol, fater penodol “cyllido teg” yn y Cyfnod Sylfaen yn y sector nad yw’n cael ei gynnal. Tynnodd y Mudiad sylw at y “gagendor” rhwng y gyfradd cyllido ar gyfer gofal plant ac addysg i blant tair oed. Oherwydd hyn, dywedodd y Mudiad fod yna gynnydd yn nifer y Cylchoedd Meithrin sy’n ystyried tynnu’n ôl o ddarparu addysg i blant tair oed am resymau ariannol.³⁰

44. Roedd hwn yn fater a gododd y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru).³¹ Fel rhan o’i dystiolaeth bryd hynny, dywedodd Cwlwm³² wrth y Pwyllgor mai £4.24 (yng Nghaerdydd) oedd y gyfradd gyfartalog uchaf fesul awr a oedd yn cael ei thalu gan awdurdod lleol i ddarparwyr nad ydyn nhw’n cael eu cynnal, ac mai £1.49 (yng Ngwynedd) oedd yr isaf³³. Roedd hyn yn cymharu â’r cyfraddau fesul awr ar gyfer gofal plant, sef £4.50. Pan ofynnwyd i CLILC ddarparu’r data a oedd ganddi hi, dywedodd fod y gyfradd fesul awr a oedd

²⁷ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 184], 21 Chwefror 2019

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF 31 - NAHT

²⁹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 50], 20 Mawrth 2019

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF 30 - Mudiad Meithrin

³¹ Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

³² Mae Cwlwm yn sefydliad ymbarél o ddarparwyr gofal plant ac mae'n cynnwys pum sefydliad: Clybiau Plant Cymru, y Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru), PACEY Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg(5)-20-18 - Papur i'w nodi 3

yn cael ei thalu am addysg y blynyddoedd cynnar yn amrywio rhwng £3.00 a £3.50.³⁴

45. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru):

“Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gost/cyfraddau tâl ar draws lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg y blynyddoedd cynnar ac elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Dylid rhoi sylw penodol i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd a delir fesul awr ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant.”³⁵

46. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn y dylai gynnal adolygiad penodol o'r fath ond dywedodd y byddai'n adolygu'r sefyllfa'n fwy cyffredinol.³⁶ Wedyn, ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi cynllun peilot gyda Chyngor Sir y Fflint i alinio'r ddwy ffrwd cyllido hyn.³⁷ Cyfeiriodd y datganiad at werthusiad o'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018, ac a oedd yn cydnabod bod “y gyfradd dâl ar gyfer rhai darparwyr sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn is na'r gyfradd i ddarparu gofal plant a ariennir gan y Cynnig”.

47. Dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog hefyd fod hyn yn ategu canfyddiadau Arolwg Blynyddol y Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol a nododd “Darparu Cynnig cynaliadwy yn y Cyfnod Sylfaen” fel un pryder sylweddol i'r sector. Aeth eu datganiad ymlaen i ddweud:

“Felly, mae'n fwriad gennym i gynnal prosiect peilot, mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, er mwyn profi effaith cyfradd ariannu gyson ar gyfer addysg gynnar a gofal plant. Bydd y cynllun peilot yn cael ei redeg ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i blant 3 oed yn nhymor y gwanwyn a thymor yr haf 2019. Bydd gwerthusiad yn cael ei wneud tra bo'r prosiect

³⁴ Wrth graffu ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru), eglurodd CLILC nad yw'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn talu darparwyr addysg blynyddoedd cynnar nas cynhelir ar sail cyfraddau fesul awr. Pan fo cyfraddau fesul awr yn cael eu talu, dywedodd CLILC fod y rhain yn amrywio rhwng £3 a £3.50. [FFI CCF.05 - CLILC](#)

³⁵ [Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\) - Argymhelliad 22](#)

³⁶ [Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\)](#)

³⁷ [Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog - Ionawr 2019](#)

peilot yn mynd rhagddo, ac rydym yn disgwyl adroddiad ar y casgliadau yn ystod tymor y gaeaf 2019.³⁸

Safbwynt Llywodraeth Cymru

48. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu cyd-destun cyni a gostyngiadau yn ei chyllid ei hun oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AC, yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn ar Gyllideb Derfynol 2019-20:

“Mae gan Gymru £850 miliwn yn llai i'w wario, mewn termau real, ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20 nag yn 2010-11 (...) Petai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu ar yr un raddfa â thwf cynnyrch domestig ers 2010-11, fe fyddai gennym ni £4 biliwn yn fwy yn 2019-20—mae hynny 20% yn uwch nag ein cyllideb bresennol.”³⁹

49. Dywedodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC wrthon ni:

“Undoubtedly, there are significant financial pressures in our education system and I wouldn't for one moment want to make light of that. Headteachers are having to make some difficult decisions. I'm clear that my job is to continue around the Cabinet table to press the case for education spending. (...)”

And we can have a conversation about whether the entirety of the cake is big enough, and there are difficult decisions for all political parties, because if you want to spend more on education, that money has to come from somewhere and those aren't easy decisions.”⁴⁰

50. Pan ofynnwyd pa drafodaethau sy'n digwydd yn y Cabinet ynghylch blaenoriaethau gwleidyddol ac a yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu adnoddau, dywedodd y Gweinidog Addysg “those discussions happen all the time – they're constant”.⁴¹

51. Yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 5 Ebrill 2019, dywedodd Mark Drakeford AC:

³⁸ Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog - Ionawr 2019

³⁹ Dadl ar Gyllideb 2019-20. Cofnod y Trafodion [Para 330], 15 Ionawr 2019 (gweler paragraff 17)

⁴⁰ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 3 Ebrill 2019

⁴¹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 3 Ebrill 2019

“The position the Welsh Government faces, and so does the National Assembly for Wales, is that any decision to spend more money on one thing can only be made by taking money away from some other cash-strapped part of Government. There is nowhere to go where money is just standing idle and not doing something that is vitally important in the lives of some of our fellow citizens. So, that is the huge dilemma that the Government face.”⁴²

52. Mewn llythyr at Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad, cyfeiriodd y Gweinidog Addysg at gyllid ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon, yr arian grant wedi'i dargedu a ddarperir drwy'r consortia rhanbarthol a'r £100 miliwn ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion fel tystiolaeth o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn addysg.⁴³ Gan bwysleisio rôl sylfaenol yr awdurdodau lleol wrth gyllido ysgolion, amlygodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC, y £3.5 miliwn yn Setliad Llywodraeth Leol 2019-20 i sicrhau na fyddai'r un awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.3% yn eu cyllid refeniw heb ei neilltuo oddi wrth Lywodraeth Cymru.⁴⁴

53. Pan holodd y Pwyllgor am hyn, dywedodd y Gweinidog Addysg y byddai adroddiad am addysg yn cyfateb i'r adroddiad yn 2014 a gomisiynodd Llywodraeth Cymru oddi wrth Ymddiriedolaeth Nuffield⁴⁵ i amcangyfrif faint o gyllid ychwanegol yr oedd ei angen ar GIG Cymru, yn ddarn diddorol o waith i'w wneud⁴⁶.

54. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Sibieta Economics of Education, amcangyfrifwyd y byddai angen i Lywodraeth Cymru wario £120 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol erbyn 2020-21, o'i gymharu â'r lefelau presennol, er mwyn cynnal gwariant ar ysgolion ar yr un lefel mewn termau real â 2016-17.⁴⁷ Er hynny, mae hyn wedi'i seilio ar barhau â'r status quo ac nid yw'n ystyried yr adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i weithredu'r diwygiadau nad ydynt eto wedi cyrraedd eu cyfnod gweithredu, gan gynnwys y cwricwlwm newydd i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

⁴² y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 69\], 5 Ebrill 2019](#)

⁴³ Llythyr gan y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Deisebau: 27 Chwefror 2019

⁴⁴ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 95\], 3 Ebrill 2019](#)

⁴⁵ Adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield: “A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26”

⁴⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 35 a 36\], 3 Ebrill 2019](#)

⁴⁷ Adroddiad Sibieta Economics of Education: School Spending in Wales - Ebrill 2019

 Ein barn ni

55. Darlun llwm iawn a geir yn y dystiolaeth a gyflwynwyd inni o ran cwantwm cyffredinol y cyllid sydd ar gael ar gyfer addysg. Mae'n gwbl glir bod ysgolion ledled y wlad yn wynebu cyfnod o bryderon ariannol ac anawsterau yn eu cyllidebau sydd heb eu gweld o'r blaen. Yn syml, rydym yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd bod y cwantwm cyllid cyffredinol yn annigonol. Does dim digon o arian ar gael ar hyn o bryd i sicrhau bod ysgolion yn cyflawni popeth sy'n ofynnol, a'u bod yn darparu addysg i'n disgyblion ar y lefel y maent yn ei haeddu.

56. Nodwn fod cynnydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf mewn cyllidebau addysg. Er hynny, mae lefel y cynnydd mewn arian parod wedi golygu bod gostyngiadau cyson wedi bod yn y dyraniadau cyffredinol yn y cyllidebau mewn termau real. Mae hyn yn wir ar bob lefel gan gynnwys:

- gostyngiad o 1.5% mewn termau real yn yr arian refeniw i lywodraeth leol rhwng 2017-18 a 2018-19,⁴⁸
- gostyngiad o 8.4% mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion rhwng 2010-11 a 2018-19 (gweler paragraff 24); a
- gostyngiad o 8.0% mewn termau real mewn gwariant fesul disgybl rhwng 2010-2011 a 2018-19.

57. Mae'r toriadau hyn mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn yn cael effaith andwyol ar ddyraniad cyllidebau ysgolion ac, os bydd y patrwm hwn yn parhau, rydym yn credu y bydd ysgolion mewn argyfwng. Nodwn y dystiolaeth gan yr awdurdodau lleol fod cyllidebau ysgolion wedi'u hamddiffyn lle bo modd. Rydym yn pryderu felly y gallai'r toriadau hyn mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn olygu na fydd yr awdurdodau lleol yn gallu amddiffyn cyllidebau addysg mwyach, gan beri bod gwaith yr ysgolion wrth gynllunio cyllidebau yn fwy anodd byth.

58. Er hynny, mae'n rhaid i'r toriadau yn y gyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall gael eu hystyried hefyd yn erbyn y gostyngiad mewn termau real yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ei hun, y nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei fod wedi arwain at £850 miliwn yn llai mewn termau real i Lywodraeth Cymru ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20 nag yn 2010-11. Mae Paragraff 17 o'r

⁴⁸ [Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2018 i 2019 - mae'r cyfrifiad termau real ar brisiau 2017-18 gan ddefnyddio Datchwyddwyr GDP Trysorlys Ei Mawrhydi, Mawrth 2019](#)

adroddiad hwn yn manylu ar y gyllideb a roddwyd i Lywodraeth Cymru ers 2010-11.

59. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon, yr arian grant wedi'i dargedu a ddarperir drwy'r consortia rhanbarthol a'r £100 miliwn ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion. Er hynny, yr amcangyfrif a geir yn adroddiad Sibieta Economics of Education yw y byddai angen i Lywodraeth Cymru wario £120 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol erbyn 2020-21, er mwyn cynnal gwariant ar ysgolion ar yr un lefel mewn termau real â 2016-17.⁴⁹ Mae hyn yn frawychus iawn, a hyd yn oed yn fwy felly pan nad yw'r cyllid ychwanegol angenrheidiol a ragwelir ond yn cadw'r status quo, ac nad yw'n cymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol y mae eu hangen er mwyn rhoi'r diwygiadau addysgol sylweddol sydd ar y gorwel ar waith. Rhaid i'r heriau enfawr wrth gyflawni'r newidiadau y mae eu hangen yn sgil Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018, y cwricwlwm newydd a'r ymagwedd ysgol-gyfan at iechyd emosiynol a meddyliol gael eu cynnwys yn yr ystyriaethau ar y gyllideb yn y dyfodol.

60. Mae darparu cyllid digonol i'r ysgolion yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod addysg yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus i'n disgyblion. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â darparu addysg gydweithio i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol enfawr sy'n wynebu'n hysgolion. Er mwyn asesu a yw lefelau'r cyllid yn ddigonol, mae angen bod yn fwy eglur yn gyntaf faint mae'n ei gostio i redeg ysgol yn effeithiol.

61. Wrth wneud hyn, rhaid inni gadw mewn cof y data sy'n awgrymu nad yw lefelau cyllido uwch o reidrwydd yn mynd law yn llaw â lefelau perfformiad uwch mewn ysgolion. Mae Atodiad C yn rhoi data ar wariant yr awdurdodau lleol ar ysgolion a'u perfformiad addysgol.

62. O ran cam i'w gymryd ar unwaith, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad brys o faint o arian y mae ei angen i gyllido ysgolion Cymru'n ddigonol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio lefel y diwygio sy'n digwydd ar hyn o bryd. Wrth fwrw ymlaen ag adolygiad o'r fath, rydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw cost sylfaenol rhedeg ysgol ac addysgu plentyn yng Nghymru. Wedyn, gallai'r gost sylfaenol hon gael ei chymhwyso ar draws pob ysgol, gyda chyllid ychwanegol a phenodol (at amddifadedd a theneurwydd poblogaeth, a ffactorau lleol eraill) yn cael ei atodi wedyn.

63. Rydym yn credu hefyd y dylai'r adolygiad gael ei ddefnyddio i ddarparu amcangyfrif o'r bwch cyllido presennol rhwng y swm sy'n cael ei wario ar ysgolion

⁴⁹ [Adroddiad Sibieta Economics of Education: School Spending in Wales - Ebrill 2019](#)

ar hyn o bryd a'r swm y mae ei angen er mwyn cyflawni popeth sy'n ofynnol - gan gynnwys yr agenda diwygio sylweddol sydd ar y gorwel. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gynnal gydag amcan tebyg i adolygiad Nuffield ar GIG Cymru.

Argymhelliad 1. Y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad ar fyrder o faint o gyllid y mae ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru, yn enwedig o gofio lefel y diwygiadau sydd ar y gweill. Dylai'r adolygiad hwn:

- ystyried, fel ei sail, beth yw cost sylfaenol rhedeg ysgol ac addysgu plentyn yng Nghymru, cyn i'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer ffactorau eraill fel amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac amgylchiadau lleol, gael eu dyrannu; a
- darparu amcangyfrif o'r bwch cyllid presennol rhwng y swm sy'n cael ei wario ar ysgolion ar hyn o bryd a'r swm y mae ei angen i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol - gan gynnwys yr agenda ddiwygio sylweddol.

64. Rydym yn cydnabod yn llawn yr anawsterau y mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddarparu adnoddau ychwanegol i'r ysgolion, ac yn cydnabod y byddai darparu cyllid ychwanegol yn gofyn am ostyngiad yn y cyllid mewn mannau eraill. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd darparu arian ychwanegol i'r awdurdodau lleol ynddo'i hun yn gwarantu cyllid ychwanegol i'r ysgolion am fod cyllid llywodraeth leol yn gyllid sydd heb gael ei neilltuo.

65. Wrth edrych ar fater ehangach gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, rydym yn credu, fodd bynnag, y dylai hon gael ei chydbwysu'n fwy tuag at wariant ataliol. O gofio'r swm sylweddol o waith atal sy'n cael ei wneud mewn ysgolion ledled Cymru, byddai'r newid hwn yn y dull gweithredu yn debygol o arwain at gyfran fwy o gyllid i addysg.

66. Mae tystiolaeth o waith atal o'r fath, neu ymyrraeth cynnar, wedi'i gweld mewn sawl maes yr ydym wedi'u hystyried - yn fwyaf diweddar, yn ein hymchwiliad i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Yn ein hargymhelliad allweddol yn yr adroddiad Cadernid Meddwl, roeddem yn glir bod yr her frys yn gorwedd ym mhen blaen y llwybr gofal - lles emosiynol, gwydnwch ac ymyrraeth cynnar. Mae heriau o'r fath yn codi ar draws pob elfen o'r ddarpariaeth addysg, a dylai'r cyllid gydnabod hynny.

67. Gan hynny, rydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i gyllid llywodraeth leol ac o fewn hynny, y cyllid sydd ar gael i'r ysgolion, a hynny yn ei phroses o bennu cyllidebau blynyddol ac wrth ailddyrrannu adnoddau yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod mwy o

gydbwysedd tuag at wariant ataliol. Mae hyn, yn ein barn ni, yn gofyn am drafodaeth aeddfed a realistig ynghylch y ffordd orau o flaenoriaethu'r arian cyfyngedig sydd ar gael.

Argymhelliad 2. Y dylai dyraniad y gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru gael ei gydbwysu tuag at wariant ataliol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i gyllid llywodraeth leol ac o fewn hynny, yr arian sydd ar gael i'r ysgolion, a hynny yn ei phroses o bennu cyllidebau blynyddol ac wrth ailddyrannu adnoddau yn ystod y flwyddyn.

68. O ran mater penodol cyllid y blynyddoedd cynnar, er nad yw hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â chyllid ysgolion, mae'r Pwyllgor yn credu bod y cysylltiad rhwng y Cynnig Gofal Plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn faes sy'n haeddu rhagor o sylw. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun peilot yn Sir y Fflint i brofi effaith cyfradd gyson am addysg gynnar a gofal plant.

Argymhelliad 3. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu costau/cyfraddau taliadau ar draws lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, a'r elfen gofal plant o dan Dechrau'n Deg. Dylai sylw arbennig gael ei roi i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu am addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant a dylai'r cynllun peilot sydd wedi'i sefydlu yn Sir y Fflint fwydo'r ymagwedd hon.

5. Dyranriad Llywodraeth Cymru ar yr adnoddau sydd ar gael rhwng yr awdurdodau lleol

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid i ysgolion o'r cyllid heb ei neilltuo a gaiff yr awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru yn setliad llywodraeth leol, ynghyd â'r incwm y maent yn ei gynhyrchu o'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau. Mae Adran 4 o'r adroddiad yn edrych ar faint cyffredinol y gronfa sydd ar gael, ac yn yr adran hon rydym yn ystyried effeithiolrwydd y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid rhwng yr awdurdodau lleol.

69. Mae'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF), sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw (RSG) a'r ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, yn cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru o dan fformiwla – o'r enw fformiwla setliad llywodraeth leol – a nodir yn "Llyfr Gwyrdd" blynyddol y Llywodraeth. Mae'r fformiwla hon yn cynnwys llawer o ddangosyddion ac mae'n cael ei chytuno a'i goruchwyllo gan yr Is-grŵp Dosbarthu,⁵⁰ sef gweithgor technegol sy'n eistedd o dan aden Cyngor Partneriaeth Cymru⁵¹ ac sy'n cynghori ar faint o arian refeniw y mae pob awdurdod lleol yn ei gael. Mae aelodaeth y Is-grŵp yn cynnwys swyddogion sy'n cynrychioli CLILC, swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau annibynnol.

70. Mae fformiwla setliad llywodraeth leol wedi'i seilio ar Asesiadau Gwariant Safonol (SSAs), sy'n modelu amcangyfrif o faint y mae angen i bob awdurdod ei wario ar draws gwahanol sectorau i ddarparu lefel gwasanaeth safonol. Mae Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) yn rhoi dadansoddiad o sut y cyrhaeddwyd yr SSAs. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi pwysleisio nad yw SSAs ac IBAs yn dargedau gwario; yn hytrach, maent yn gyfrifiadau tybiannol i ddangos sut y penderfynwyd ar setliad pob awdurdod.

⁵⁰ [Gwefan yr Is-grŵp Dosbarthu](#)

⁵¹ Bwriad [Cyngor Partneriaeth Cymru](#) yw hybu cydweithio a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

71. Mae'r ddau IBA ar gyfer Addysg – “Gwasanaethau Ysgol” ac “Addysg Arall” – yn cael eu cyfrifo'n bennaf yn unol â niferoedd disgyblion. Er hynny, maent hefyd yn ystyried amrywiol anghenion yr awdurdodau i wario, ar sail amddifadedd a theneurwydd poblogaeth.

72. Y canlyniad yw bod cyfanswm yr IBA Addysg ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio yn 2018-19 o £4,432 y disgybl (Bro Morgannwg) i £5,755 y disgybl (Powys). Mae Atodiad C i'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r cyfrifiadau IBA tybiannol, gwir wariant yr awdurdodau lleol a'r lefelau gwariant dilynol fesul disgybl. Mae Adran 6 o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i addysg, gan gyfeirio at yr IBAs a'r dadansoddiad a geir yn Atodiad C.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

73. Mynegwyd cryn bryder gan yr undebau athrawon am yr argraff bod yna ddiffyg tryloywder yn y ffordd y caiff ysgolion eu cyllido. Cyfeiriodd yr NEU at “funding fog”,⁵² a soniodd yr NAHT am anghysondebau enfawr⁵³. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig nhw i'r ymchwiliad, dywedodd yr ASCL:

“There is real inequality between the levels of funding apportioned to schools by different local authorities. It is no exaggeration to say that two schools five miles apart, but in different authorities, may see their funding differ by as much as a thousand pounds per pupils per year. This is not fair nor equitable.”⁵⁴

Mae tri phrif ffactor a allai esbonio gwahaniaeth o'r fath.

- Yn gyntaf, lefel gyffredinol y cyllid y mae'r awdurdod lleol yn ei gael gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar fformiwla cyllido llywodraeth leol a'r IBA Addysg tybiannol (a drafodir yn yr adran hon).
- Yn ail, gan nad yw'r arian wedi'i neilltuo, faint y mae'r awdurdod lleol wedyn yn penderfynu ei wario ar addysg o'r dyraniad cyffredinol - gall hyn gael ei ddylanwadu gan yr IBA Addysg yn setliad llywodraeth leol (a drafodir yn adran 6).

⁵² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 231\], 21 Chwefror 2019](#)

⁵³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 9\], 21 Chwefror 2019](#)

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 26 - ASCL](#)

- Efallai mai lefel y dirprwyo yw'r trydydd ffactor, h.y. i ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn cadw rhywfaint o'r cyllid er mwyn cyllido darpariaeth rhai gwasanaethau i ysgolion yn ganolog (a drafodir yn adran 13).

74. Dros nifer o flynyddoedd, mae awdurdodau lleol unigol wedi mynegi pryder am fformiwla cyllido llywodraeth leol. Er hynny, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn yn awgrymu'n glir nad oes llawer o archwaeth ymysg llywodraeth leol yn gyffredinol am newidiadau sylweddol i'r fformiwla gyllido ar hyn o bryd. Pan holwyd yn benodol am hyn, dywedodd CLILC:

“... you could go around in circles on this when, really, the problem that's facing us—both Welsh Government and local government—is the size of the pie, not who gets what slice of it—”⁵⁵

75. Neges glir CLILC ac ADEW oedd hyn: er bod y trefniadau presennol yn amherffaith, nhw oedd y dull gorau a oedd ar gael o hyd.⁵⁶ Awgrymodd y ddau y bydd yna enillwyr a cholwyr yn sgil y fformiwla bob amser ac y byddai'n anodd iawn goresgyn hynny. Tynnwyd sylw at anawsterau newid y fformiwla yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan awdurdodau unigol, a oedd yn dangos gwahaniaeth barn o ran ai teneurwydd poblogaeth ynteu amddifadedd a ddylai fod yn fwyaf dylanwadol fel penderfynydd o ran sut y rhennir y gronfa gyllido gyffredinol.

76. Yn eu hadroddiad diweddar nhw, dangosodd Sibieta Economics of Education fod teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd yn gwrthbwysu ei gilydd yn fras yn y setliad.⁵⁷ Esboniodd Luke Sibieta rywfaint o'r rhesymeg y tu ôl i ganfyddiadau'r adroddiad yn ystod sesiwn briffio breifat i'r Pwyllgor, gan ddarparu enghraifft bod cyfran y disgyblion eFSM bron ddwywaith yn fwy ym Mlaenau Gwent nag yng Ngheredigion, er bod effeithiau teneurwydd poblogaeth yn golygu bod ganddynt lefelau tebyg o gyllid fesul disgybl.⁵⁸

77. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch pa mor gyfredol oedd rhywfaint o'r data sy'n cael ei ddefnyddio yn fformiwla setliad llywodraeth leol. Er enghraifft, nododd yr NAHT mai data o gyfrifiad 1991 sy'n cael ei ddefnyddio i sbarduno dosbarthiad arian teneurwydd poblogaeth, a bod y data hwn wedi dyddio.

⁵⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 46\]. 20 Mawrth 2019](#)

⁵⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 47\]. 20 Mawrth 2019](#)

⁵⁷ [Adroddiad Sibieta Economics of Education: School Spending in Wales - Ebrill 2019](#)

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.32 - Sibieta Economics of Education](#)

78. Cydnabu CLILC fod data'r cyfrifiad a ddefnyddiwyd yn y fformiwla ar gyfer teneurwydd poblogaeth yn dyddio'n ôl i 1991 ond dywedodd y gymdeithas fod y mater yn fwy cymhleth na disodli data'r cyfrifiad:

“The problem is that the way sparsity is measured is quite a complex and sophisticated calculation. It's not just about population densities and things that are based on geographic information systems and digital maps. The problem's been one of a technical nature that you can't just update the census indicator that's in there, the old 1991 census data; you have to recalibrate the whole construct. And when you start recalibrating the whole construct and turning the dials and the weights of the different indicators, whether it's pupils, the sparsity or the deprivation, then you start throwing lots of money around, and this enormous amount of financial turbulence.”⁵⁹

79. Yn dilyn adroddiad Pwyllgor Ariannu Ysgolion y Cynulliad yn 2006,⁶⁰ comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad i edrych ar ddyrannu adnoddau. Argymhellodd Adolygiad Bramley (2007) fethodoleg gymharol gymhleth a soffistigedig, wedi'i seilio ar anghenion y presennol a'r dyfodol yn hytrach na chostau hanesyddol, gyda mwy o bwyslais ar amddifadedd a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad. Er hynny, nid aeth Llywodraeth Cymru ymlaen â hyn gan ddweud y byddai wedi golygu cynnwrf mawr.⁶¹

80. Dywedodd CLILC, a oedd yn feirniadol o adroddiad Bramley ar y pryd, fod yr adroddiad wedi'i adael, a hynny “because the consequences of getting it wrong are disastrous”.⁶²

Mae Atodiad E o'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ymchwiliadau ac adolygiadau blaenorol ynghylch cyllid ysgolion, gan gynnwys Adolygiad Bramley.

81. Dywedodd CLILC wrthon ni fod yr Is-grŵp Dosbarthu yn gwneud gwaith i edrych ar elfennau o'r fformiwla ond y cymerai amser hir⁶³ i gael ateb. Mewn gwybodaeth a ddarparwyd yn dilyn eu tystiolaeth lafar, eglurodd CLILC y sefyllfa o

⁵⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 54\]](#), 20 Mawrth 2019

⁶⁰ [Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion: Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru](#)

⁶¹ [Papur gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu, Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu](#)

⁶² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 60\]](#), 20 Mawrth 2019

⁶³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 58\]](#), 20 Mawrth 2019

ran newidiadau posibl yn y ffordd y mae adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn cael eu dyrannu fel a ganlyn:

“The funding formula has remained largely unchanged since the time of the original review [gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics ym 1999]. There have been attempts to update the underlying analyses and the data used but these proposals have been rejected at a political level. The reasons for this have mostly been because of the resultant financial turbulence and the difficulties associated with the sparsity measures.”⁶⁴

Safbwynt Llywodraeth Cymru

82. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn agored i ystyried newidiadau yn fformiwla setliad llywodraeth leol os gall yr awdurdodau lleol gyrraedd consensws. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ionawr 2019:

“...Fe ddywedaf hefyd ein bod wedi dweud yn glir yn y cyfarfod hwnnw fod Julie James [y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol] a minnau yn agored iawn i syniadau eraill. Os yw awdurdodau lleol yn teimlo, ar y cyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nad yw'r fformiwla hon yn gweithio iddynt hwy a'u bod yn awyddus i gynnig syniadau eraill ynglŷn â sut y gellid gwella pethau, yna yn sicr, byddem yn awyddus i archwilio unrhyw syniadau sydd ganddynt i'w cynnig i ni.”⁶⁵

83. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wrthon ni:

“... if somebody wants to come forward with a suggestion for change to that arrangement, then we have a very robust system for testing through how that will work, because, obviously, in any change to the distribution formula, there will be winners and losers.”⁶⁶

84. Er hynny, fel y dywedodd y Gweinidog Addysg:

“... there's no consensus, and the evidence that you've already received is that the WLGA say, 'We don't really want to go there. We don't really

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.FI.04 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁶⁴ Cofnod y Trafodion. Cyfarfod Llawn 30 Ionawr 2019

⁶⁶ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 82]. 3 Ebrill 2019

want to change the data. We're not particularly fussed on changing the funding formula."⁶⁷

85. Ychwanegodd y Gweinidog Addysg hefyd fod newid y fformiwla yn ystod cyfnod o gyni yn anos gan nad oes digon o gyllid ar gael i ddigolledu'r "collwyr" nac i ddarparu trefniadau trosiannol:

"... there's no consensus about how this system should be changed, because in any funding formula change there will be winners, there will be losers, and in an age of austerity, how you will usually manage that situation is that you would put in a floor and you would have differential increases somewhere else, but that's really, really challenging to do in an age of austerity."⁶⁸

86. O ran y gwaith ar raddfa gymharol fach sydd ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar agweddau ar y fformiwla, dywedodd y Gweinidog Addysg yn y Cyfarfod Llawn:

"rwy'n ymwybodol fod yr is-grŵp dosbarthu llywodraeth leol yn ystyried ar hyn o bryd ac wedi dechrau ffrwd waith newydd i edrych ar sut y caiff lefelau'r asesiad wedi'i seilio ar ddangosyddion addysg eu cyflawni wrth bennu lefelau'r grant cynnal referniw."⁶⁹

87. Ymhelaethodd ar hyn yn y Pwyllgor:

"...the distribution sub-group are already undertaking some work around the building blocks of the education element of that funding formula. That work is already happening.. (...)

We continue to test the amount of resource that is needed. One of the real challenges is, in a way, a slightly more complex picture, perhaps, in terms of identifying unit cost. Unit cost really is a challenge to identify. But in the local government distribution sub-group, there has been an agreement to start to look at whether you could do a unit cost or a bottom-up approach to the indicative budget allocation, to be able to get a better understanding of reflecting that in the formula. That work is starting. We're supporting that work in the local government department and in the education department, which potentially might

⁶⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 89\], 3 Ebrill 2019](#)

⁶⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 89\], 3 Ebrill 2019](#)

⁶⁹ [Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn 13 Mawrth 2019](#)

influence IBA and might influence changes to the revenue support grant.”⁷⁰

88. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Addysg ar ddechrau’r ymchwiliad hwn i ofyn am wybodaeth ar Adolygiad Bramley a pha newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny (os oes newidiadau wedi digwydd o gwbl). Nid aeth ymateb y Gweinidog Addysg i’r afael â hyn yn uniongyrchol.⁷¹ Er hynny, yn 2009, dywedodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Cydol Oes a Sgiliau ar y pryd:

“Mae adroddiad Bramley wedi bod yn sail werthfawr ar gyfer bwrw ymlaen â’r gwaith meddwl a’r camau ar gyfer newid fformiwla’r setliad refeniw i ddarparu elfen o ariannu yn seiliedig ar ganlyniadau.

Nid yw’n fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad i roi’r sefyllfaoedd ariannu a nodwyd yn Adroddiad Bramley ar waith. Byddai gwneud hynny yn creu trafferthion mawr o ran y dyraniadau ariannu a byddai hynny yn ei dro yn ansefydlogi’r broses o ariannu llywodraeth leol ac ysgolion. Yn ei dro, byddai hynny’n taseilio’r ymgais i wella cyflawniad y dysgwyr. Wedi dweud hynny, mae Adroddiad Bramley wedi tanlinellu pwysigrwydd canolbwyntio ar wella canlyniadau ac wedi pennu’r ffactorau allweddol ar gyfer sicrhau hynny. Mae’r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol iawn i’n helpu i ddeall sut i ddatblygu’r gwaith o ddsbarthu’r Grant Cynnal Refeniw er mwyn adlewyrchu’n agenda canlyniadau strategol yn fwy effeithiol. Felly, ers cyhoeddi’r Adroddiad, mae swyddogion wedi ystyried sut i wneud newidiadau a fydd yn sicrhau bod ariannu yn canolbwyntio’n fwy ar ganlyniadau a hynny mewn ffordd na fydd yn ansefydlogi’r broses o ariannu’r awdurdodau lleol.”⁷²

89. O ran pa mor gyfredol yw’r data yn y fformiwla, pwysleisiodd y swyddog a oedd yn bresennol gyda’r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn y Pwyllgor fod y dangosydd pwysicaf – niferoedd disgyblion – yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn, ar sail y cyfrifiad ysgolion diweddaraf.⁷³ Eglurodd hefyd fod yr Is-grŵp Dosbarthu wedi trafod sut i ddefnyddio data mwy diweddar ond wedi penderfynu parhau i ddefnyddio data teneurwydd 1991 gan y byddai defnyddio

⁷⁰ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 32\]](#), 3 Ebrill 2019

⁷¹ [Llythyr gan y Gweinidog Addysg: 18 Rhagfyr 2018](#)

⁷² [Papur gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Cydol Oes a Sgiliau ar y pryd i’r Pwyllgor Menter a Dysgu](#)

⁷³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 70\]](#), 3 Ebrill 2019

data mwy diweddar yn achosi “gormod o newid”, sy’n gyson â’r safbwynt a amlinellwyd yn nhystiolaeth lafar CLILC.⁷⁴

Ein barn ni

90. Mae’r fethodoleg bresennol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid i’r awdurdodau lleol yn hynod gymhleth. Fel y tanlinellodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cydnabyddir bod yna enillwyr a chollwyr o dan y fformiwla gyllido bresennol – gyda rhai awdurdodau lleol yn cael cyfran gyfrannol uwch o gyllid nag eraill, gan ddibynnu ar y dangosyddion a ddefnyddir a’r pwysoliad a roddir ar y rhain. Does dim modd gorbwysleisio cymaint o her yw sefydlu fformiwla gyllido newydd sy’n decach – ac yn ein barn ni, gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae enillwyr a chollwyr gwahanol yn cael eu creu.

91. Nodwn farn CLILC fod y trefniadau yn amherffaith, ond mai’r fformiwla gyllido gyfredol yw’r dull gorau sydd ar gael. Nodwn felly nad oes archwaeth glir ymysg yr awdurdodau lleol i gynnal adolygiad llwyr o fformiwla cyllido llywodraeth leol ar hyn o bryd.

92. Rydym yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn agored i adolygiad o’r fformiwla gyllido, ond rydym yn cydnabod bod angen consensws ar draws yr holl awdurdodau lleol cyn bod modd gweithredu yn hyn o beth. Rydym hefyd yn cytuno â’r farn a fynegwyd gan y Gweinidog Addysg y byddai angen bod cyllid ar gael i wneud iawn dros dro i unrhyw awdurdod lleol a fyddai ar eu colled yn sgil sefydlu fformiwla gyllido newydd. Fel y mae’r adroddiad hwn yn amlygu, does dim digon o gyllid ar gael i’r ysgolion eisoes – felly, rydym yn credu y byddai’n anodd ar hyn o bryd i ymgymryd â’r adolygiad llwyr hwnnw o fformiwla cyllido llywodraeth leol.

93. Wrth dderbyn na fydd adolygiad ehangach yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ystyried sut y gellir pennu dyraniad yr adnoddau i’r awdurdodau lleol i raddau helaethach trwy ddull sydd wedi’i seilio ar anghenion wrth ystyried yr elfen addysgol yng nghyllid cyffredinol llywodraeth leol, yn hytrach na dull sydd wedi’i seilio’n bennaf ar fethodoleg hanesyddol.

94. Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud yn y gorffennol gan Bwyllgor Ariannu Ysgolion y Cynulliad (2006) ac ar ffurf Adolygiad Bramley ei hun (2007) ar sefydlu dull dyrannu adnoddau sydd wedi’i seilio ar anghenion a deilliannau. Yng ngoleuni hyn, er mwyn symud pethau ymlaen, hoffem annog Llywodraeth Cymru

⁷⁴ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 105]. 3 Ebrill 2019

felly i sefydlu atebion ymarferol yn hytrach nag ailadrodd safbwynt lle nad oes modd bwrw ymlaen ag argymhellion oherwydd y cymhlethdodau dan sylw neu'r diffyg cytundeb o du'r awdurdodau lleol.

Argymhelliad 4. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall y dyraniad adnoddau i'r awdurdodau lleol gael ei bennu trwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion, yn hytrach na dull sy'n seiliedig ar fethodoleg hanesyddol. Dylai dull o'r fath sydd wedi'i seilio ar anghenion, wrth ystyried yr elfen addysgol yng nghyllid cyffredinol llywodraeth leol, ddechrau drwy ystyried faint mae'n ei gostio i addysgu plentyn (gweler argymhelliad 1) a defnyddio dangosyddion sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol megis amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ar ben y gost ofynnol honno.

95. Ochr yn ochr â'r gwaith yr ydym yn argymhell ei wneud i benderfynu ar ddull sy'n seiliedig ar anghenion, rydym yn credu bod yna elfennau eraill yn y fformiwla gyllido a allai gael eu gwella heb gynnal adolygiad llwyr. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Is-grŵp Dosbarthu yn hyn o beth. Yn benodol, rydym yn nodi eu gwaith ar adolygu'r SSA a'r IBAs, sy'n pennu sut mae'r cwantwm adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol yn cael ei rannu rhwng yr awdurdodau lleol. Rydym yn credu y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn drylwyr ac yn gyflym. Er hynny, fel yr amlinellwyd yn argymhelliad 1, rydym yn credu bod angen adolygiad mwy sylfaenol o gyllid digonol ar gyfer ysgolion, hyd yn oed os nad yw hynny'n adolygiad o fformiwla cyllido llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd.

96. Nodwn y pryderon a godwyd ynghylch pa mor gyfredol yw'r data a ddefnyddir yn y fformiwla gyllido, a'r defnydd posibl ar ddata sydd wedi dyddio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran defnyddio data cyfrifiad 1991 wrth ystyried teneurwydd poblogaeth ar yr un pryd â defnyddio data mwy cyfoes ar niferoedd disgyblion. Rydym yn croesawu'r cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod y data ar niferoedd disgyblion, sef y dangosydd mwyaf arwyddocaol a ddefnyddir, yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn ar sail y cyfrifiad ysgolion diweddaraf (gweler paragraffau 68 i 71 o'r adran hon).

97. O ran defnyddio data cyfrifiad 1991 ar gyfer teneurwydd poblogaeth, nodwn y dystiolaeth a ddarparwyd gan CLILC a chan Lywodraeth Cymru y byddai diweddarau data'r cyfrifiad hefyd yn gofyn am newidiadau i'r fformiwla gyllido gyfan. Fel yr ydym eisoes wedi nodi yn yr adran hon, rydym yn credu y byddai'n anodd ar hyn o bryd cynnal adolygiad ehangach o'r fformiwla gyllido.

6. Blaenoriaethau'r awdurdodau lleol o ran cyllid i'r ysgolion

Fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad, mae'r awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau. O'r cyllid hwnnw, yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n penderfynu faint i'w wario ar addysg, ac yn benodol ar ysgolion. Mae'r adran hon yn ystyried sut mae'r awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cyllid i ysgolion o fewn eu dyraniadau cyllideb cyffredinol. Ceir ystyriaeth fwy penodol ar ddyrannu cyllid rhwng ysgolion yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

98. Ar ôl cael eu dyraniad o'r setliad gan Lywodraeth Cymru, mae'r awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Addysg yw un o'r gwasanaethau hynny ac mae'n cael ei chyllido yn ôl yr anghenion a'r blaenoriaethau lleol. Yr awdurdodau lleol eu hunain sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros gyllido addysg, gan gynnwys ysgolion, ac wrth wneud hynny rhaid iddynt flaenoriaethu a chydbwysu'r cyllid ar draws yr ystod o feysydd gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdanynt.

99. Wrth ddyrannu setliad llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo'r IBA Addysg i bob awdurdod lleol. Nid targed gwario mo hwn, ac fe gaiff yr awdurdodau lleol wario uwchlaw neu islaw hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi IBA Addysg pob awdurdod lleol yn yr wybodaeth ynglŷn â setliad llywodraeth leol,⁷⁵ yn ogystal â'r datganiad ystadegol blynyddol ar wariant yr awdurdodau lleol ar ysgolion⁷⁶.

100. Mae Atodiad C yn darparu rhywfaint o ddadansoddiad ar y cyfrifiadau IBA tybiannol, gwir wariant yr awdurdodau lleol a'r lefelau gwariant dilynol fesul disgybl. Mae hyn yn dangos, ers 2016-17, fod cyfanswm gwariant refeniw net Cymru gyfan ar y gyllideb addysg wedi bod yn uwch na'r IBA. Cyn 2016-17, roedd y gwariant yn hanesyddol yn is na lefel yr IBA. Wrth ystyried y data sydd wedi'i gyhoeddi, y darlun cyffredinol yw bod yr un awdurdodau yn tueddu i ddyrannu mwy i addysg na'u IBA bob blwyddyn – er nad yw'r data hwn yn cynnwys

⁷⁵ [Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2019 i 2020](#)

⁷⁶ [Statistical Bulletin 41/2018: Local Authority Budgeted Expenditure on Schools: 2018-19 \(Saesneg yn unig\)](#)

manylion penodol am faint yn union o gyllid sy'n mynd i'r ysgolion. Yn yr un modd, mae'r un awdurdodau lleol yn tueddu i ddyrannu llai i addysg na'u IBA o'r naill flwyddyn i'r llall.

101. Mae'r data'n dangos bod wyth awdurdod lleol wedi gwario llai na'u IBA Addysg yn 2018-19. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn gwario llai fesul disgybl na chyfartaledd Cymru. Y rheswm am hyn yw nad yw'r IBAs eu hunain yn cyfateb i'r un lefel fesul disgybl h.y. mae'r fethodoleg ar gyfer dyrannu adnoddau yn rhagdybio ei bod yn ddrutach addysgu disgybl mewn un awdurdod lleol nag un arall etc.

102. Ar gyfer 2018-19, mae'r dadansoddiad yn Atodiad C yn dangos:

- Bod swm yr arian a gyfrifir yn dybiannol er mwyn i'r awdurdodau lleol ddarparu addysg (yr IBA) yn amrywio o £4,432 y disgybl i £5,755 y disgybl (sylwch fod hyn yn cynnwys tybiaethau ynghylch faint y gall yr awdurdod ei godi o'r dreth gyngor) (Tabl A1).
- Pa awdurdodau lleol (Tabl A1 a Thabl A3):
 - a wariodd fwy na'u IBA ac (o ganlyniad i hynny neu fel arall) a oedd â gwariant uwch na'r cyfartaledd;
 - a wariodd fwy na'u IBA ond a oedd â gwariant is na'r cyfartaledd fesul disgybl o hyd;
 - a wariodd lai na'u IBA ond a lwyddodd i gael gwariant uwch na'r cyfartaledd fesul disgybl;
 - a wariodd lai na'u IBA ac (o ganlyniad i hynny neu fel arall) a oedd â gwariant fesul disgybl llai na'r cyfartaledd.
- Bod swm yr arian a wariodd yr awdurdodau lleol ar ysgolion, gan gynnwys grantiau neilltuedig fel y Grant Datblygu Disgyblion, yn amrywio o £5,107 y disgybl i £6,456 y disgybl (Tabl A2).

103. Mae dadansoddi'r data hefyd yn awgrymu nad oes cydberthyniad rhwng lefelau uwch o gyllid fesul disgybl a pherfformiad addysgol uwch (fel y'i mesurir yn ôl cyfran yr ysgolion sydd yn y categorïau Gwyrdd neu Felyn). Mae Tablau A5 ac A6 o Atodiad C yn cynnwys data ar hyn, gan ddangos:

- Bod gan bob un o'r chwe awdurdod sydd â'r gwariant isaf fesul disgybl berfformiad addysgol sy'n uwch na'r cyfartaledd.

- bod gan y tri awdurdod sydd â'r gwariant uchaf fesul disgybl berfformiad addysgol sy'n is na'r cyfartaledd.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

104. Yn eu tystiolaeth i'r ymchwiliad, mae'r awdurdodau lleol wedi nodi eu bod wedi ceisio amddiffyn cyllidebau ysgolion cyn belled ag y gallant o fewn eu dyraniadau cyllideb cyffredinol, ond eu bod bellach mewn sefyllfa lle mae hyn yn annhebygol o barhau i fod yn bosibl. Mae Adran 4 o'r adroddiad hwn yn trafod hyn yn fanylach mewn perthynas â'r cwantwm cyffredinol a'r flaenoriaeth a roddir i addysg.

105. Dywedodd Llefarydd Cyllid CLILC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrthon ni:

“In the current context of declining resources in real terms, it's incredibly difficult. Schools are our largest single budget area, and whilst we're doing our best to try and protect school spending—for example, in my own authority, we put an extra £0.75 million into schools this year—in a situation where we've got declining resources, it's very difficult. (...)”

If you add schools and social care together, that's getting on for 70 per cent of our spend as an authority. So, when the quantum of your money as a whole is going down, even if you work very hard to relatively protect spending on schools, it's difficult and schools are going to face challenges to put budgets together.”⁷⁷

106. Dywedodd cyn Brif Weithredwr CLILC, Steve Thomas, wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Hydref 2018:

“We've constantly, over the last eight years, looked to protect as much as we can in education and social care. They've been the two big areas in terms of going forward. For a period of time within the Welsh Government, there was a level of increased protection for schools. That has now gone.”⁷⁸

107. Yr amddiffyniad i ysgolion yr oedd Mr Thomas yn cyfeirio ato oedd yr amddiffyniad o un pwynt canran (uwchlaw'r newid ym mloc Cymru) a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Rhoddodd

⁷⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 8\], 20 Mawrth 2019](#)

⁷⁸ [Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cydraddoldebau, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 25 Hydref 2018](#)

Llywodraeth Cymru esboniad o'r dull hwn yn naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16 (Atodiad E).⁷⁹

108. Cynyddodd grant bloc Cymru o San Steffan 0.02% rhwng 2010-11 a 2015-16. Nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn darparu £72 miliwn yn setliad llywodraeth leol a £34 miliwn trwy grantiau addysg i ganiatáu cynnydd o 1.02% yn y cyllid i ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol, drwy gyfrwng eu ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru, roi tystiolaeth bod eu gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion (heb gynnwys grantiau penodol a chan ganiatáu ar gyfer addasiadau yn niferoedd y disgyblion) wedi cynyddu yn unol â'r elfen Llywodraeth Leol yn yr ymrwymiad o un pwynt canran.⁸⁰

109. Yn nhymor y Cynulliad hwn, nid yw'r amddiffyniad un pwynt canran yn cael ei ddarparu, ond mae Llywodraeth Cymru wedi sianelu cwantwm gweddol debyg o gyllid ychwanegol (£100 miliwn), drwy gyfrwng grantiau wedi'u targedu ac wedi'u neilltuo, gan anelu at godi safonau ysgolion (gweler adran 8 i gael manylion pellach ar ddefnyddio grantiau neilltuedig).

110. Yn eu tystiolaeth, galwodd saw un o'r rhanddeiliaid am elfen o neilltuo'r gwariant ar addysg sy'n cael ei warantu ar gyfer ysgolion, er eu bod yn cydnabod y byddai hyn yn effeithio ar benderfyniadau lleol y cynghorau. Dywedodd yr NASUWT y byddai o blaid adfer yr amddiffyniad un pwynt canran ar gyfer cyllidebau ysgolion a neilltuo cyllid craidd i ysgolion o fewn y cyllid a roddir i lywodraeth leol.⁸¹

111. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd yr ASCL:

“it is a real weakness of the current system that school funding is not hypothecated: This allows councils to take decisions that are patently not in the interests of education, but in the interest of local governance.”⁸²

112. Amheuai'r NAHT sut y gall Llywodraeth Cymru fod yn ymrwymedig i gyllido teg i ysgolion pan fo'r cyllidebau sy'n cael eu gosod i'r ysgolion yn dibynnu ar 22 o wahanol awdurdodau sy'n rhoi blaenoriaeth wahanol i addysg. Aeth yr NAHT

⁷⁹ [Naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16 \(Atodiad E\)](#)

⁸⁰ [Naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16 \(Atodiad E\)](#)

⁸¹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 204\], 21 Chwefror 2019](#)

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 26 - ASCL \(Cymru\)](#)

ymlaen i ddweud nad oes cysondeb ledled Cymru a bod y system gyllido bresennol i'r ysgolion yn creu canlyniadau sy'n anghyfartal a heb fod yn dryloyw.⁸³

113. Cyfeiriodd yr NAHT hefyd at yr awdurdodau lleol sy'n gwario llai ar addysg na'u IBAs tybiannol, gan ddadlau nad yw'n ymddangos bod llawer o gymhelliant i'r awdurdodau lleol gyrraedd y rhain am nad ydyn nhw'n cael eu gosod fel targedau. Dywedodd yr NAHT nad oedd diben creu IBAs os yw'r awdurdodau lleol yn dewis peidio â'u cyrraedd o leiaf.⁸⁴

114. O ran IBAs, roedd CLILC ac ADEW ill dau yn glir iawn nad oedd ganddyn nhw fawr ddim effaith ar faint y dylai awdurdod lleol ei wario ar addysg, gan ddweud:

“... y cyfan ydy'r IBAs yn y Llyfr Gwyrdd ydy *construct* mathemategol ar gyfer dyrannu adnoddau. Os oes yna unrhyw un yng Nghymru'n meddwl bod yr IBA yn cynrychioli beth ddylech chi ei wario ar bwnc penodol, mae o'n hollol anghywir, ac mae'n rhaid inni fod yn glir am hynna. (...)

... Ond mae o'n bwysig ofnadwy ein bod ni'n dallt nad ydy IBA ddim yn ddatganiad o faint ddylai rhywun fod yn gwario ar rywbeth achos, mewn ffordd, y cyfan ydy IBA ydy lein fathemategol, a bydd pob awdurdod yn gwario'n uwch neu'n is na'r lein yna.”⁸⁵

Safbwynt Llywodraeth Cymru

115. Safbwynt clir Llywodraeth Cymru yw mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw penderfynu faint o flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i addysg a faint o arian y maent yn ei roi i'r ysgolion. Dywedodd llythyr y Gweinidog Addysg ar ddechrau'r ymchwiliad:

“... mae awdurdodau lleol yn penderfynu sut y byddant yn gwario [cyllid yn setliad llywodraeth leol] ynghyd ag incwm arall o grantiau penodol, y dreth gyngor ac incwm arall o werthiannau, ffioedd a thaliadau. Awdurdodau lleol sy'n gwbl gyfrifol am benderfynu faint o arian a ddyrennir i bob ysgol unigol, ac yn unol â'u swyddogaeth statudol i gynnig darpariaeth addysg briodol i bob dysgwr yng Nghymru.”⁸⁶

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.31.NAHT](#).

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.31.NAHT](#).

⁸⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 8\], 20 Mawrth 2019](#).

⁸⁶ [Llythyr gan y Gweinidog Addysg: 18 Rhagfyr 2018](#).

116. Pan ofynnwyd sut mae Llywodraeth Cymru yn ei bodloni ei hun fod yr awdurdodau lleol yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r ysgolion yn eu cyllidebau, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol:

“Well, we don’t, really. We take the view that local authorities are locally elected and that they, inside the revenue support grant, have unhypothecated powers to come to their own conclusion about what the school funding should be in their area.”⁸⁷

117. Ychwanegodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mai unig ddiben IBAs yw dangos i'r awdurdod sut mae'r fformiwla wedi gweithio i'r awdurdod lleol hwnnw ac nad ydynt i gael eu hystyried fel isafswm i'w wario nac fel targed.⁸⁸ Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn trafod lefelau gwariant gydag awdurdodau penodol sy'n gwario llai na'u IBA yn gyson, dywedodd y Gweinidog Addysg:

“Again, this comes back to the principle that the legal responsibility lies with those local authorities. Local authorities then are democratically accountable to the people that elect them for the decisions that they make.”⁸⁹

118. Ar yr un pryd, cydnabu Kirsty Williams hefyd:

“But we’re all democratically elected as well, aren’t we? And we all stand on manifesto commitments. (...)”

Governments are also democratically elected to deliver on their commitments and their promises that they’ve made.”⁹⁰

119. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru, Steve Davies, fod Llywodraeth Cymru yn monitro pa mor ddigonol yw'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgolion drwy'r grantiau sydd wedi'u targedu ac wedi'u neilltuo. Er hynny, nododd y byddai gwneud gwaith mewn perthynas â darpariaeth yr awdurdodau lleol ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion yn gofyn am waith ar raddfa cwbl wahanol:

“We test the resources that we put through grants in terms of sufficiency, because we test them against the—we set the ambition and expectations of the regions and the local authorities who own and run

⁸⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 82\]](#), 3 Ebrill 2019

⁸⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 85\]](#), 3 Ebrill 2019

⁸⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 113\]](#), 3 Ebrill 2019

⁹⁰ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 88\]](#), 3 Ebrill 2019

them in terms of what they need to do to enable schools to deliver on those initiatives. (...)

What we're not in a position to do is to look across the 22 local authorities, which have their own models to define how they spend their money, against which criteria they spend their money, to actually make an overall judgment that that is sufficient at that time. (...) So, we haven't done it across the 22 councils. We've done it in terms of the investment of the £100 million (...)."⁹¹

120. Pan ofynnwyd yn benodol ai capasiti oedd yr unig reswm nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith monitro ehangach o'r fath, dywedodd Mr Davies:

"No, it's about complexity. If you want to look at how much it costs to have a proper education for every child in Wales, it's a complex question to ask and benchmark against. (...)

I think it's something that it would be good to be able to do, but I think it isn't just about capacity, although it's a significant piece of work; it is about complexity. So, how much does it take to have a good education for a seven-year-old in Ceredigion against a seven-year-old in Blaenau Gwent. (...)

The complexity of the task that you outlined is very, very large."⁹²

Ein barn ni

121. Mae swm y cyllid sy'n mynd i addysg, ac yn benodol ysgolion, a'r amrywiadau mewn cyllid ar draws y 22 o awdurdodau lleol, yn faes sy'n peri pryder. Mae gwahaniaethau amlwg yn lefel y flaenoriaeth a roddir i gyllidebau ysgolion gan yr awdurdodau lleol ledled Cymru. Er ein bod yn derbyn bod angen elfen o benderfynu lleol, mae'n amlwg o'r data sydd wedi'i gyhoeddi fod cyllid yn anghyson ledled Cymru, ac y gallai arwain at sefyllfa nad yw'n deg.

122. Mae angen i benderfyniadau a wneir gan yr awdurdodau lleol ar lefelau'r cyllid at addysg ac ysgolion fod yn dryloyw, yn gadarn ac yn hawdd eu deall. Rydym yn pryderu bod yna argraff, fel y'i mynegwyd gan yr ASCL, y gallai rhai cynghorau fod yn gwneud penderfyniadau cyllido sy'n niweidiol i addysg ac ysgolion, ac i'r staff a'r disgyblion yn arbennig. Mae'r ffaith bod yr amheuan

⁹¹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 3 Ebrill 2019

⁹² Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 3 Ebrill 2019

hynny'n bodoli yn awgrymu bod diffyg eglurder a dealltwriaeth dros y broses benderfynu honno.

123. Rydym hefyd yn bryderus iawn o glywed gan Lywodraeth Cymru nad yw'n monitro lefel y flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i ysgolion pan fo'n dosbarthu cyllid. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn drwy gydol yr ymchwiliad hwn mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau i addysg, a'u bod yn atebol yn ddemocrataidd am hyn. Er ein bod yn derbyn mai dyma'r sefyllfa gyfreithiol, rydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru allu ei bodloni ei hun, drwy gyfrwng eu dyraniadau cyllid, fod yr awdurdodau lleol yn rhoi digon o flaenoriaeth i addysg. Fel y cydnabu'r Gweinidog Addysg ei hun, er bod yr awdurdodau lleol yn atebol yn ddemocrataidd, felly hefyd Llywodraeth Cymru, ar y lefel genedlaethol, am yr addysg a gaiff plant ledled Cymru.

124. Rydym yn cydnabod y cymhlethdod a fyddai'n gysylltiedig â monitro hyn ar draws y 22 o awdurdodau lleol, a'r materion o ran adnoddau a chapasiti y gallai hyn eu creu i Lywodraeth Cymru. Er hynny, fe fyddai manteision gwirioneddol o ran sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdodau lleol ar wariant addysg yn dryloyw, yn gadarn ac yn cael eu deall yn glir. Rydym yn credu felly y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agosach y ffordd y mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu eu cyllidebau.

125. Er nad yw dyrannu adnoddau ychwanegol i ysgolion yn gwarantu llwyddiant, mae angen monitro ymhellach a yw'r awdurdodau lleol yn blaenoriaethu addysg er mwyn i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon y bydd ei huchelgais o godi safonau ysgolion yn cael ei wireddu ac y bydd ei rhaglen ddiwygio yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

Argymhelliad 5. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agosach lefel y flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i addysg yn y ffordd y maent yn gosod eu cyllidebau, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw a chadarn a'i sicrhau ei hun fod digon o gyllid yn cael ei ddarparu i alluogi'r ysgolion i wella ac i gyflawni ei hagenda ddiwygio.

126. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd nad yw diben yr IBAs yn glir, ac mai dylanwad cyfyngedig yn unig sydd ganddynt ar flaenoriaethu gwariant addysg. Y teimlad cryf a fynegwyd yn y dystiolaeth ar lafar ac mewn ysgrifen yw ei bod yn ymddangos nad oes fawr o bwynt pennu IBAs os yw'r awdurdodau lleol yn dewis peidio ag o leiaf gyrraedd y rheiny. Mae'n bryder arwyddocaol bod CLILC ac ADEW ill dau yn glir iawn nad oes gan yr IBAs fawr ddim effaith ar faint y dylai awdurdod lleol ei wario ar addysg. Rydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch diben yr IBAs.

127. Rhywbeth sy'n ychwanegu at y dryswch ynghylch diben yr IBAs yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwariant yr awdurdodau lleol ar addysg yn uniongyrchol ochr yn ochr â ffigurau'r IBAs yn ei datganiad ystadegol blynyddol. Er mwyn egluro sut mae dyraniad AEF yr awdurdod wedi'i bennu, rydym yn deall bod yr IBAs yn cael eu cyhoeddi o fewn gwybodaeth Setliad Llywodraeth Leol. Er hynny, nid yw'n glir pam y cyhoeddir yr IBAs yn yr wybodaeth am wariant gwirioneddol yr awdurdodau lleol. Er ein bod yn cydnabod bod manteision i hyn o ran tryloywder, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'n gwneud hyn, yn enwedig gan ei bod yn datgan yn ddiamwys na ddylid ystyried IBAs yn dargedau gwario.

Argymhelliad 6. Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro union bwrpas yr Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs), gan gynnwys a ydynt yn ganllaw i faint y mae angen i awdurdod lleol ei wario ar addysg er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau ysgol.

Argymhelliad 7. Y dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y mae'n cyhoeddi gwariant yr awdurdodau lleol ar addysg yn uniongyrchol ochr yn ochr â'r Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) yn ei datganiad ystadegol blynyddol, os nad yw IBAs i'w trin fel targedau gwario.

128. Rydym yn croesawu tystiolaeth yr awdurdodau lleol eu bod wedi ceisio amddiffyn cyllidebau ysgolion lle bo modd. Er hynny, rydym yn pryderu bod yr awdurdodau lleol mewn sefyllfa lle nad ydynt bellach yn gallu amddiffyn gwariant ar ysgolion o fewn y dyraniadau cyllideb cyffredinol. Mae'n amlwg bod yr amddiffyniad un pwynt canran ar gyfer cyllid ysgolion a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd blaenorol wedi cael effaith fuddiol ar wariant yr awdurdodau lleol ar addysg.

129. Rydym yn cydnabod nad yw'r amddiffyniad un pwynt canran bellach wedi'i ymgorffori yn y dyraniad i lywodraeth leol, a bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu swm cyfatebol yn fwy diweddar drwy grantiau sydd wedi'u targedu ac wedi'u neilltuo. Nodwn fod cefnogaeth gan rai rhanddeiliaid i adfer yr amddiffyniad un pwynt canran ar gyfer cyllidebau ysgolion. Er hynny, byddai hyn naill ai'n gofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer addysg, a drafodir yn adran 4 o'r adroddiad hwn, neu am ddefnyddio'r £100 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer codi safonau ysgolion mewn ffordd amgen, tuag at gyllid llywodraeth leol sydd heb ei neilltuo i gyllido cyllidebau ysgolion. Er hynny, mae yna wahaniaethau barn am ddefnyddio cyllid neilltuedig o'i gyferbynnu â chyllid heb ei neilltuo. Ystyrir y mater hwn ymhellach yn adran 8 o'r adroddiad hwn.

7. Sut mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu'r cyllid y maent yn ei ddarparu i'r ysgolion, rhwng yr ysgolion

Un o themâu cyson yr ymchwiliad hwn oedd bod y cwantwm cyffredinol o gyllid sydd ar gael i'r ysgolion yn annigonol. Er hynny, mae ein hymchwiliad hefyd wedi ystyried y ffordd y caiff y cwantwm hwn ei ddsbarthu, h.y. nid yn unig maint y deisen ond sut mae'r deisen yn cael ei rhannu.

130. Fel y nodwyd yn adran 2, mae sawl cam i'r broses o ddyrannu cyllid i'r ysgolion. Ymdrinnir â phob un o'r camau hyn ar wahân yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer llywodraeth leol drwy setliad llywodraeth leol (ymdrinnir â hyn yn adran 5);
- Yn ail, faint o'r adnodd hwn y mae'r awdurdodau lleol yn ei ddyrannu i addysg (ymdrinnir â hyn yn adran 6);
- Yn drydydd, i ba raddau y mae'r awdurdodau lleol yn dirprwyo cyllid ysgolion yn uniongyrchol i'r ysgolion (ymdrinnir â hyn yn adran 13); a
- Yn olaf, sut mae pob awdurdod lleol yn dyrannu'r cyllid yn ei Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB) rhwng ei ysgolion (yr adran hon).

131. Mae pob awdurdod lleol yn dyfeisio'i fformiwla ei hun ar gyfer dyrannu'r ISB, er bod hynny'n cael ei wneud o fewn y finiau a bennir gan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.⁹³ Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn bod o leiaf 70% o'r ISB yn cael ei ddyrannu yn ôl nifer y disgyblion sydd gan yr ysgol. Er hynny, fe all yr awdurdodau lleol benderfynu sut i bwysoli'r niferoedd hyn o ddisgyblion yn ôl nifer o ffactorau. Y ffactor mwyaf arwyddocaol yw Unedau Disgyblion wedi'u Pwysoli yn ôl Oedran (AWPUs). Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyfrwng iaith.

⁹³ Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010

132. Wrth ddyrannu gweddill yr ISB (a all fod mor uchel â 30%), caiff yr awdurdodau lleol ystyried ffactorau a restrir yn y rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys maint a chyflwr adeiladau a thiroedd yr ysgolion, costau cyfleustodau a chyflogau staff. Mae'r rheoliadau hefyd yn gofyn bod y fformiwlâu a ddefnyddir gan yr awdurdodau lleol yn cymryd i ystyriaeth nifer yr achosion o amddifadedd cymdeithasol a geir ymhlith y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol.

133. Mae Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003⁹⁴ yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael fforwm ysgolion lleol (sydd hefyd yn cael ei alw'n fforwm cyllideb ysgolion). Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu Cynllun Cyllido Ysgolion sy'n nodi'r berthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn ei ardal. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ymgynghori â'u fforwm ysgolion yn flynyddol ar faterion sy'n ymwneud â'u ISB a newidiadau i'w Cynllun Cyllido Ysgolion.

134. O dan Adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol baratoi datganiad cyllideb bob blwyddyn ariannol. Mae fformat y datganiad cyllideb wedi'i nodi yn Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002. Rhaid paratoi pob Datganiad Cyllideb mewn tair rhan fel a ganlyn:

- Rhan 1 yn cynnwys manylion y gwariant arfaethedig i ysgolion unigol;
- Rhan 2 yn cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg at benderfynu ar gyfrannau cyllideb ysgolion;
- Rhan 3 yn cynnwys gwybodaeth am y gyfran o'r gyllideb a gaiff pob un o ysgolion yr awdurdod.

135. Rhaid rhoi copi o'r datganiad cyllideb i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir yn yr awdurdod lleol a threfnu ei fod ar gael hefyd i rieni a phobl eraill gyfeirio ato ar bob adeg resymol a heb dâl.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

136. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad wedi awgrymu bod cael 22 o fformiwlâu cyllido ar wahân ledled Cymru yn arwain at anghysondeb a diffyg tryloywder. Dywedodd yr NAHT, er enghraifft, nad oes cysondeb ledled Cymru a bod y system bresennol yn creu darlun sy'n anghyfartal a heb fod yn dryloyw.⁹⁵ Maent yn cyfeirio at wybodaeth a gawsant drwy gyfrwng ceisiadau Rhyddid

⁹⁴ Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.31.- NAHT.

Gwybodaeth, gan nodi gwahaniaethau sylweddol yn y gwerthoedd AWPU a ddefnyddir gan yr awdurdodau lleol. Dywedodd yr NAHT:

“It’s not consistent. We did a FOI request asking about the age-weighted pupil unit and the criteria used in those, and they vary across the whole of the local authorities. So, you end up with certain local authorities that add elements in that other local authorities don’t. Some local authorities were unable to explain their criteria to us. Sometimes, they’re so historical that, actually, the person who originally must’ve put it there is no longer there, I don’t think, and no-one seems—but they just stuck to it. So, those differences are massively different, and our members and schools, and I would argue parents of children, need to know that their child is having their fair amount of money, irrespective of where they are in Wales.”⁹⁶

137. Cyfeiriodd yr ASCL at amrywiad yn y cyllid fesul disgybl i ysgolion a oedd â nodweddion tebyg mewn gwahanol awdurdodau lleol o gymaint â mil o bunnoedd y flwyddyn.⁹⁷ Er hynny, nid yw’n glir i ba raddau y mae’r amrywiad hwn yn deillio o’r fformiwla a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol, yn hytrach nag o’r symiau gwahanol y maent yn eu cael yn setliad llywodraeth leol (fel y dangosir yn eu cyfrifiad IBA Addysg dybiannol) neu’r flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i gyllidebau ysgolion.

138. Pan ofynnwyd yn benodol am yr amrywiad yng nghyllidebau ysgolion ar draws awdurdodau lleol, dywedodd ADEW wrthon ni:

“... it’s inevitable, to a certain extent, that there will be disparity in the budgets of schools across Wales, because local authorities receive different amounts of funding, so they’ve got different amounts of funding to pass on to schools in the first instance. The formulae that local authorities use for allocating their budgets to schools are very similar, actually, across Wales, and they are shared between finance officers, but there are local differences that are taken into account.”⁹⁸

139. Roedd rhai ymatebwyr yn amau effeithiolrwydd datganiadau cyllideb Adran 52 yn eu ffurf bresennol. Awgrymodd ADEW a CLILC nad oes modd i’r wybodaeth y mae Lywodraeth Cymru’n gofyn amdani gael ei chodi o’r ffurflenni blynyddol hyn. Aethant ymlaen i ddweud bod angen edrych ar gynnwys, cysondeb a

⁹⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 150\], 21 Chwefror 2018](#)

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 26 - ASCL \(Cymru\)](#)

⁹⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 111\], 20 Mawrth 2019](#)

chymaroldeb y ffurflenni blynyddol cyfredol er mwyn gweld a ellid datblygu ffordd well o gasglu data.⁹⁹ Cytunodd Cyngor Bro Morgannwg y byddai'r broses Adran 52 yn well pe bai'n cael ei hadolygu, yn enwedig cymaroldeb a chysondeb y data a gyflwynir gan yr awdurdodau.¹⁰⁰

140. Ar ddechrau'r ymchwiliad, ysgrifennodd y Pwyllgor at bob awdurdod lleol yn gofyn am fanylion y fformiwla y maent yn ei defnyddio i ddyrannu eu ISB. Yn anffodus, dim ond saith o'r 22 o awdurdodau a ddarparodd yr wybodaeth hon, ac felly nid oedd yn bosibl inni wneud dadansoddiad cadarn o'r gwahanol fformiwlâu.

141. Wrth edrych ar y dystiolaeth a ddaeth i law, un o'r themâu mwyaf cyson a ddaeth i'r amlwg oedd sut y gallai'r egwyddorion ynglŷn â gwneud penderfyniadau yn lleol a sicrhau atebolrwydd democrataidd gael eu cynnal, gan sicrhau mwy o gysondeb a thegwch ar yr un pryd rhwng y prosesau lleol hynny. Byddai'r trafod ynglŷn â hyn yn dychwelyd drosodd a throsodd at rinweddau sefydlu fformiwla gyllido genedlaethol i'r ysgolion.

142. Safbwyntiau cymysg a ddaeth i law yn y dystiolaeth ysgrifenedig am fanteision cael fformiwla gyllido genedlaethol yn hytrach na bod pob awdurdod lleol yn defnyddio'i fformiwla ei hun i bennu cyllidebau'r ysgolion. Mewn ymatebion a gydlynwyd, dywedodd pum pennaeth unigol "It surely can't be efficient for a country the size of Wales to have 22 different funding formulae".¹⁰¹ Ar y llaw arall, dywedodd Cyngor Abertawe y byddai fformiwla genedlaethol yn arwain yn anochel at ennill a cholli ac y byddai'n niweidiol i ysgolion mewn awdurdodau lleol trefol.¹⁰²

143. Cafodd cwestiwn fformiwla gyllido genedlaethol i ysgolion ei godi gan lawer o gynrychiolwyr yn y digwyddiad i'r Rhanddeiliaid.¹⁰³ Roedd y mwyafrif a gymerodd ran yn y sesiwn i'r rhanddeiliaid yn credu y byddai'n anodd iawn, neu'n amhosibl, symud tuag at fformiwla gyllido genedlaethol. Er hynny, awgrymwyd y gallai fod yn ymarferol mynd hanner ffordd a chael lefel gyllido i bob disgybl a gâi ei defnyddio'n genedlaethol yng Nghymru, gyda chyllid ychwanegol wedi'i seilio ar feini prawf penodol.

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.36](#) - [CLILC](#) ac [ADEW](#)

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig. [Cyngor Bro Morgannwg](#)

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.04](#), [SF.14](#), [SF.15](#), [SF.16](#) ac [SF.21](#) - Unigolion

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.10](#) - [Cyngor Abertawe](#)

¹⁰³ [Nodyn cryno o'r Digwyddiad i'r Rhanddeiliaid: 16 Ionawr 2019](#)

144. Nid oedd consensws rhwng yr undebau a ddylai'r ysgolion gael eu cyllido'n uniongyrchol o dan fformiwla gyllido genedlaethol. Galwodd yr ASCL am fformiwla genedlaethol ar gyfer cyllido ysgolion, lle byddai'r ysgolion naill ai'n cael eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu y byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ddyrannu swm rhagnodedig i bob ysgol.¹⁰⁴

145. Nid aeth yr undebau athrawon eraill mor bell â galw am gyllid uniongyrchol o dan fformiwla genedlaethol ond fe fuon nhw'n dadlau bod angen mynd i'r afael ag annhegwch yng nghyllidebau ysgolion mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Nododd yr NASUWT yr heriau canlynol yn sgil sefydlu fformiwla genedlaethol:

“Every school is different and in a different situation, so trying to write a formula that encapsulates all the issues for all schools and different sectors as well—primary, secondary, special—is almost impossible, and I think the flaws that we've seen coming through the system in England exemplified that. So, there does need to be local involvement in any formula. That, in itself, will bring about variations, because every local authority is different in some way. So, you need to know the situation of each individual school to be able to create a formula that works correctly. There clearly are base elements of a formula—pupils, special needs, teacher salaries—that would have to be applied, but then there will also be local issues around the nature of school buildings, the nature of sites, sparsity, deprivation and other matters that would have to be left to local determination.”¹⁰⁵

Safbwynt Llywodraeth Cymru

146. Yn ein llythyr ar ddechrau'r ymchwiliad, gofynnwyd i'r Gweinidog Addysg ddarparu gwybodaeth am ba oruchwyliaeth sydd gan Lywodraeth Cymru o ran y fformiwla'u a ddefnyddir gan y 22 o awdurdodau lleol.¹⁰⁶ Esboniodd ymateb y Gweinidog y sefyllfa ddeddfwriaethol a dywedodd nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw llygad ar y sefyllfa hon, gan bwysleisio ei barn mai cyfrifoldebau y mae'n well eu harddel yn lleol yw'r rhain.¹⁰⁷

147. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Lywodraeth Cymru roi crynodeb o'r fformiwla'u a ddefnyddid gan bob awdurdod lleol. Cyfeiriodd ymateb y Gweinidog yn syml at

¹⁰⁴ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 63]. 21 Chwefror 2019

¹⁰⁵ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 254]. 21 Chwefror 2019

¹⁰⁶ Llythyr y Pwyllgor at y Gweinidog Addysg: 23 Hydref 2018

¹⁰⁷ Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg: 18 Rhagfyr 2018

gyfrifoldebau'r awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth o'r fath. Er hynny, dywedodd ymateb y Gweinidog Addysg hefyd:

“Disgwylir i ddull Awdurdodau Lleol o ariannu ysgolion amrywio rywfaint oherwydd yr amrywiadau a geir o ran eu hystadau ysgolion a'u hanghenion demograffig yn ogystal â'r cyfrifoldebau y mae ALLau yn eu dirprwyo i ysgolion.”¹⁰⁸

148. Yn eu tystiolaeth lafar, pwysleisiodd y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol fod perthynas Llywodraeth Cymru â'r awdurdodau lleol yn un o ymddiriedaeth broffesiynol yn hytrach na monitro'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud yn ormodol.¹⁰⁹ Dywedodd y Gweinidog Addysg:

“We are trying to build strong relationships with partners in local government. If we're to say all of the time, 'We're going to stand over your shoulder and watch all the time everything that you do and second-guess your actions', I think that makes it more difficult to have that relationship of trust. But it is also an issue of capacity—capacity for Welsh Government and officials in the education department. Also a capacity issue for local government.”¹¹⁰

149. Yn ogystal â bod yn fater o egwyddor, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd at faterion ymarferol o ran gallu a chymhlethdod. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Cyfarwyddiaeth Addysg at raddfa'r dasg pe bai swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro'r trefniadau sydd gan bob awdurdod lleol i bennu cyllidebau ysgolion (mae cymhlethdod goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o awdurdodau lleol hefyd yn cael sylw yn adran 6 o'r adroddiad hwn, yng nghyd-destun blaenoriaethu gwariant ar addysg).

Ein barn ni

150. Mae'r dystiolaeth a gafodd yr ymchwiliad yn awgrymu y gall cael 22 o fformiwlâu cyllido ar draws Cymru arwain at anghysondeb a diffyg tryloywder o ran sut y caiff cyllid ei ddyrannu i'r ysgolion. Rydym yn arbennig o bryderus am ddwy elfen yn y dystiolaeth a ddaeth i law:

¹⁰⁸ Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg: 18 Rhagfyr 2018

¹⁰⁹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 3 Ebrill 2019

¹¹⁰ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 3 Ebrill 2019

- bod gwybodaeth a gafwyd drwy gyfrwng rhyddid gwybodaeth gan yr NAHT yn dangos gwahaniaethau sylweddol yn y gwerthoedd AWPU a ddefnyddir gan yr awdurdodau lleol, a
- bod amrywiad o gymaint â mil o bunnoedd y flwyddyn yn y cyllid fesul disgybl i ysgolion sydd â nodweddion tebyg mewn gwahanol awdurdodau lleol.

151. Er ein bod yn derbyn yn llawn bod rhaid disgwyl rhywfaint o amrywiad yn null yr awdurdodau lleol o gyllido ysgolion, rydym yn credu y dylai fod mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol sydd â nodweddion tebyg. Dylai fod mwy o gysondeb hefyd o ran sut y caiff gwerthoedd AWPU eu cymhwyso ar draws yr awdurdodau lleol.

152. Rydym yn cydnabod bod yr awdurdodau lleol yn rhannu eu Cyllideb Ysgolion Unigol rhwng ysgolion yn ôl eu fformiwlâu eu hunain o fewn ffiniau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch cael perthynas â'r awdurdodau lleol sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth broffesiynol yn hytrach na monitro'u penderfyniadau'n ormodol.

153. Fel y nodir yn Adran 6 o'r adroddiad hwn, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i addysg yn y dyraniadau cyllideb cyffredinol yn fanylach. Er hynny, rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru mai'r awdurdodau lleol, ar lefel fwy lleol – ac o fewn y strwythur presennol – sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau ar ddyrannu'r Gyllideb Ysgolion Unigol rhwng ysgolion. Er hyn, fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i weithio gyda'r awdurdodau lleol i gynnal egwyddorion gwneud penderfyniadau lleol ac atebolrwydd democrataidd tra'n sicrhau mwy o gysondeb a thegwch i'r ysgolion rhwng y prosesau lleol hynny.

Argymhelliad 8. Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol i gydbwysu sut y gall yr egwyddorion ynglŷn â gwneud penderfyniadau'n lleol ac atebolrwydd democrataidd gael eu cynnal gan sicrhau ar yr un pryd fwy o dryloywder, cysondeb a thegwch yn y ffordd y mae ysgolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn cael eu cyllido.

154. Rydym yn pryderu nad yw proses y datganiad cyllideb o dan Adran 52 yn gweithio'n effeithiol. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys tystiolaeth gan CLILC ac ADEW, yn awgrymu'n glir nad oes modd i'r wybodaeth y mae Lywodraeth Cymru'n gofyn amdani gael ei chodi'n hawdd o'r ffurflenni blynyddol hyn. Mae cysondeb a chymaroldeb y data a gyflwynir gan yr awdurdodau lleol hefyd yn bryder. Rydym yn credu felly y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae

datganiadau cyllideb Adran 52 yn gweithio, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch ac effeithiol.

Argymhelliad 9. Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae datganiadau cyllideb Adran 52 yn gweithio, er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir gan yr awdurdodau lleol yn debyg ac yn gyson. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod datganiadau cyllideb Adran 52 yn fwy hygyrch.

155. Rydym wedi ystyried y galwadau yn y dystiolaeth am fformiwla gyllido genedlaethol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. O dan fformiwla o'r fath gallai ysgolion gael eu cyllido'n uniongyrchol naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan yr awdurdodau lleol, y byddai'n ofynnol iddynt ddyrannu swm rhagnodedig i bob ysgol.

156. Byddai hyn yn gofyn dealltwriaeth glir iawn o'r hyn y mae angen i'r swm rhagnodedig ar gyfer pob ysgol fod, ond nid yw'r ffigur hwnnw'n glir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cysylltu ag argymhelliad 1 o'r adroddiad, sy'n galw am bennu ffigur sylfaenol ar gyfer rhedeg ysgol ac addysgu plentyn. Cyhyd ag y caiff argymhelliad 1 ei roi ar waith, ac y caiff y ffigur sylfaenol ei bennu, rydym yn credu y gallai'r ffigur sylfaenol hwn gael ei ddefnyddio i nodi swm rhagnodedig i bob ysgol, ar lefel genedlaethol. Byddai angen defnyddio ffactorau megis amddifadedd, teneurwydd poblogaeth, cyflwr adeiladau etc ar ben y ffigur sylfaenol hwnnw.

157. Mae defnyddio ffigur sylfaenol o'r fath hefyd wrth wraidd argymhelliad 4 ynghylch sut y gall dyraniad adnoddau ar gyfer yr awdurdodau lleol gael ei bennu. Yn ein barn ni, byddai cael y ffigur sylfaenol hwnnw ar draws y gwahanol fecanweithiau cyllido mewn addysg yn helpu i fynd i'r afael ag annhegwch yng nghyllidebau ysgolion ar draws y gwahanol awdurdodau lleol.

8. Cyllid heb ei neilltuo a chyllid wedi'i dargedu

Fel y nodwyd yn adran 2 o'r adroddiad hwn, daw'r rhan fwyaf o lawer o wariant addysg ar ffurf cyllid heb ei neilltuo a ddarperir i lywodraeth leol drwy setliad llywodraeth leol. Mae llywodraeth leol wedi bod yn galw am arian heb ei neilltuo ers nifer o flynyddoedd. Mae'r adran hon yn ymdrin â rhagoriaethau defnyddio arian neilltuedig (wedi'i dargedu), ac a yw hyn yn cael ei wneud yn y ffordd orau.

158. O'r £2.566 biliwn a gyllidebwyd i'w gwario ar ysgolion yn 2018-19:

- Daeth £2.347 biliwn o'r cyllid heb ei neilltuo sydd ar gael i lywodraeth leol, y dirprwywyd £1.940 biliwn ohono i ysgolion, a chafodd £406 miliwn ei weinyddu'n ganolog gan yr awdurdodau lleol.
- Daeth £219 miliwn o gyllideb addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i targedwyd ar flaenoriaethau a mentrau penodol. Cafodd rhyw £87 miliwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r ysgolion ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r gweddill ar ffurf Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG).¹¹¹

159. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wario £100 miliwn yn ychwanegol ar godi safonau ysgolion yn ystod y Cynulliad hwn, sef arian y mae wedi penderfynu ei sianelu drwy grantiau a ffrydiau cyllido eraill sy'n cyd-fynd â'i chynllun gweithredu, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.¹¹² Roedd hyn yn newid o'r ffordd yr oedd yn blaenoriaethu tua £100 miliwn, hefyd ar gyfer cyllidebau ysgolion, yn y Cynulliad blaenorol pan gâi'r rhan fwyaf o'r arian hwn ei darparu drwy setliad llywodraeth leol heb gael ei neilltuo drwy amddiffyn cyllidebau ysgolion ar lefel o un pwynt canran uwchlaw'r newid ym mloc Cymru.

160. O ganlyniad, er bod ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi bod £219 miliwn o gyllid wedi'i ddatganoli i'r ysgolion y tu allan i gyllidebau craidd yr ysgolion, mae

¹¹¹ Manylion yn Nhabl 3 yn yr adroddiad hwn

¹¹² [Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl - Cynllun gweithredu 2017-21](#)

hyn mewn gwirionedd oddeutu £240 miliwn pan gyfrifir yr holl arian at godi safonau ysgolion. Heblaw'r £87 miliwn o PDG ar gyfer disgyblion eFSM sy'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ysgolion, mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan y consortia rhanbarthol. Rhoddodd llythyr y Gweinidog Addysg ar 5 Rhagfyr 2018 ddadansoddiad o'r £150 miliwn o RCSIG yn 2018-19, wedi'i alinio â'r pedwar amcan yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.¹¹³

161. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o gyllid wedi'i dargedu yn yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2018.¹¹⁴ Yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad, felly, cefnogodd y Pwyllgor elfen o gyllid ysgol wedi'i thargedu at flaenoriaethau a mentrau penodol, ond argymhellwyd y dylai mwy gael ei wneud i sicrhau ei werth am arian a'i effaith gadarnhaol. Gwnaethom hefyd godi mater y cydbwysedd y mae angen i Lywodraeth Cymru ei daro rhwng cyllid heb ei neilltuo a chyllid wedi'i dargedu yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2019-20.¹¹⁵

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

162. Gan gynrychioli barn llywodraeth leol ers tro byd, dywedodd CLILC ac ADEW wrthon ni "Mae CLILC wedi llobio yn gyson ar ran llywodraeth leol i'r holl gyllid ar gyfer addysg gael ei drosglwyddo i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw".¹¹⁶ Aethant ymlaen i ddweud ei bod yn ymddangos "bod amharodrwydd cynyddol i ariannu ysgolion trwy'r Grant Cynnal Refeniw a bod "y dull yma yn annealladwy".¹¹⁷ Dyma bwynt sydd hefyd wedi'i wneud yn gyffredinol yn holl gyflwyniadau'r awdurdodau lleol i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig.

163. Yn ogystal â llywodraeth leol, roedd llawer o ymatebwyr eraill i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn pryderu am luosogrwydd y math o gyllid grant. Pwyntiau penodol a wnaed oedd eu bod: yn amrywio bob blwyddyn, yn creu ansicrwydd, yn arwain at ddull "tameidiog", nad ydynt bob amser yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol, eu bod yn faich biwrocraataidd. Awgrymwyd hefyd fod canran rhy uchel o'r grantiau eu hunain yn cael ei defnyddio ar gyfer tracio a monitro, yn hytrach na chael ei defnyddio at y diben y bwriadwyd y grantiau ar ei gyfer.

164. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y Grant Gwella Addysg a'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael eu defnyddio i ychwanegu at gyllid craidd yn hytrach nag at y

¹¹³ [Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg: 5 Rhagfyr 2018](#)

¹¹⁴ [Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol](#)

¹¹⁵ [Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20](#)

¹¹⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.36.CLILC.ac.ADEW](#)

¹¹⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.36.CLILC.ac.ADEW](#)

diben y bwriadwyd nhw ar ei gyfer. Roedd hyn hefyd yn thema yn y dystiolaeth yn ein hymchwiliad ni ar gyllid wedi'i dargedu.¹¹⁸

165. Roedd yna bryderon cryf am faint o gyllid sy'n cael ei gadw a'i wario gan yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Cyfeiriodd yr ASCL at eu llythyr agored a roddwyd i'r Gweinidog Addysg, gan nodi nad yw £450 miliwn o'r cyfanswm o £2.6 biliwn ar gyfer addysg byth yn cyrraedd yr ysgolion.¹¹⁹

166. Cydnabu'r ASCL fod peth o'r cyllid sy'n cael ei sianelu drwy'r consortia yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol ond dadleuodd y dylid blaenoriaethu adnoddau o'r fath ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion:

“The money is pushed to the consortia who then take the decisions on our behalf. From a school’s perspective, we don’t feel, (a) they’re necessarily taking the right decisions all the time, and (b) we feel that that money should come to us—in other words, to the school—so that the school can take those decisions.”¹²⁰

167. Pan gawsant eu holi, derbyniodd yr undebau i raddau yr angen am grantiau wedi'u targedu, wedi'u neilltuo sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ond roedden nhw'n dadlau bod angen i gyllidebau craidd ysgolion fod yn ddigonol yn y lle cyntaf. Crynhodd yr NAHT:

“Of course we welcome the money that comes from grants—some of them are really valid and targeted, like the pupil development grant—however, fund our schools at the core budget first, and let’s have the amount of money that we need to deliver our core, basic direction, and all of this can come on top.”¹²¹

168. Pwysleisiodd y consortia fanteision gweithio'n rhanbarthol a nodi'r achos dros rywfaint o neilltuo er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr hyn a fwriedir. Dywedodd rheolwr gyfarwyddwr dros dro Consortiwm Canolbarth y De (CSC):

¹¹⁸ Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol

¹¹⁹ Llythyr gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru): 12 Chwefror 2019

¹²⁰ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 21 Chwefror 2019

¹²¹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 21 Chwefror 2019

“I think there’s a risk, if it was included and it went directly to schools, then you would not have that collaborative working that we’ve built up over a number of years (...)

If it went into schools directly, then the sum of money that each school would get would be quite small, and there wouldn’t be that quality assurance that it would be spent on the priorities as whatever grant we’re talking about would actually be saying. So, there would be risks attached to it.”¹²²

169. Dadleuai consortiwm y Gogledd, GwE, fod gan y cyllid grant a sianelir drwy’r consortia rhanbarthol ffocws clir:

“Mae yna argraff allan, o bosibl, fod y grantiau yma yn ein cyrraedd ni a’n bod ni’n cael gwneud fel dŷn ni’n dymuno efo nhw, ond mae yna amodau tyn iawn efo’r grantiau. Dŷn ni hefyd yn gorfod rhoi ein cynlluniau busnes i fynd efo’r grantiau i’r Llywodraeth, a dŷn ni’n cael ein dal yn atebol i wneud yn siŵr bod y gwariant yn cyrraedd lle y dylai fo i wneud beth bynnag ydy’r amodau sy’n mynd efo’r llinell benodol yn y grant.”¹²³

170. O’r £150 miliwn o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, mae GwE, CSC ac EAS (y De-dddwyrain) yn dirprwyo ychydig dros 90% o’u cyfran nhw i’r ysgolion, tra mae ERW (y De-orllewin a’r Canolbarth) yn dirprwyo rhyw 84%. Mae’r gwahanol lefelau o gyllid dirprwyedig gan ERW yn adlewyrchu’r ffaith eu bod yn gweithredu o dan fodel gwahanol, gan eu bod yn cael llai o gyllid gwella ysgolion gan yr awdurdodau lleol.

171. Cafodd y ffaith bod arian yn dod i law yn hwyr o’r grantiau neilltuedig ei chodi gan y rhai a oedd yn gweithio ar y rheng flaen fel pryder. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion fel rhan o’r ymchwiliad hwn, bu’r staff yn tanlinellu bod arian grant yn aml yn dod i’r ysgolion yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Yn ystod y digwyddiad i’r rhanddeiliaid ym mis Ionawr, clywsom y gall fod yn anodd (ac weithiau’n amhosibl) ei wario o fewn yr amserlenni gofynnol ac yn unol â’i ddiben arfaethedig pan fydd y cyllid hwn yn dod i law yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Awgrymwyd y gallai’r arian gael ei wario’n fwy strategol petai’n cael ei ryddhau yn gynharach, ac y byddai hynny’n helpu i gynllunio cyllidebau’r ysgolion. Dywedwyd wrthon ni fod derbyn cyllid yn hwyr a’r anallu wedyn i’w wario hefyd yn arwain at

¹²² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 334\], 20 Mawrth 2019](#)

¹²³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 338\], 20 Mawrth 2019](#)

chwyddo lefel cronfeydd wrth gefn yr ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Trafodir hyn ymhellach yn adran 9 o'r adroddiad hwn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

172. Gwrthododd y Gweinidog Addysg yr argymhelliad yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2019-20 y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi meini prawf yn egluro'r sail ar gyfer dyrannu cyllid i'r ysgolion naill ai drwy'r setliad lleol neu drwy grantiau wedi'u targedu.¹²⁴ Roeddem yn pryderu bod y dull wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd yn ymddangos bod rhesymeg strategol glir ynghylch pa lwybr a gymerai Llywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn.

173. Wrth sôn am yr egwyddor mai mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut i gyllido'r ysgolion, disgrifiodd y Gweinidog Addysg y cydbwysedd rhwng parchu democratiaeth leol a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sydd hithau â mandad democrataidd:

"I stood on a manifesto commitment about pupil development grant, and so just like they are democratically elected to deliver on their communities, Governments are also democratically elected to deliver on their commitments and their promises that they've made. (...)

So, there's that balance."¹²⁵

174. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni mai'r prif ffactor wrth benderfynu a ddylai elfen o gyllid addysg gael ei neilltuo oedd ai dyna'r "most appropriate mechanism for the delivery of the policy outcomes that we're trying to achieve":

"... we gave the regional school improvement grants to consortia to work on a regional basis, because that work is about school-to-school improvement and, actually, you may find that the school that you need to work with, to raise their standards, doesn't happen to be in the same local authority. It crosses boundaries. We need greater collaboration. So, in that case, it's appropriate that that goes to a regional body, because that's the most appropriate delivery mechanism to achieve the policy outcomes that we want to achieve."¹²⁶

¹²⁴ [Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20](#)

¹²⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 88\], 3 Ebrill 2019](#)

¹²⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 155\], 3 Ebrill 2019](#)

175. Aeth y Gweinidog Addysg ymlaen i ddweud bod hyn yn ymwneud â “blaenoriaethau cenedlaethol”:

“So, PDG, closing the attainment gap is a national priority for me and for this Government. Therefore, that goes, as a national grant, out to achieve that.”¹²⁷

176. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio grantiau neilltuedig lle mae elfen o risg a bod angen rhywfaint o arloesi:

“So, for instance, if we look at the supply teaching pilot, we know that issues around supply are highly controversial and we’re looking at new ways of doing that. It’s quite difficult to dictate to a local authority to take the risk and to innovate. So, actually, Welsh Government provides that money as a pilot so that we can take the risk, we can look to innovate, and we can see if there’s a better way of doing something.”¹²⁸

177. Yn olaf, dywedodd y Gweinidog Addysg fod hyn yn dibynnu hefyd ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni’r gweithgaredd. Er enghraifft, dirprwyodd Llywodraeth Cymru yr arian ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon yn uniongyrchol i’r ysgolion oherwydd:

“... the people who are best placed to be able to decide what professional learning is needed are actually at a school level. It is the headteacher knowing their individual professionals.”¹²⁹

Ein barn ni

178. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol yn edrych ar y modd y mae cyllid wedi’i dargedu yn cael ei ddefnyddio, yn fwyaf diweddar yn yr ymchwiliad i ddefnyddio cyllid wedi’i dargedu i wella canlyniadau addysgol. O ganlyniad i’n hymchwiliadau blaenorol, rydym yn credu y gall defnyddio cyllid wedi’i dargedu fod â manteision clir.

179. Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi egwyddor a realiti ymarferol darparu cyfran o gyllid i’r ysgolion drwy grantiau sydd wedi’u neilltuo ac sydd wedi’u halinio ag amcanion strategol. Enghreifftiau clir o’r ffordd briodol i ddefnyddio arian sydd wedi’i neilltuo yw’r Grant Datblygu Disgyblion a’r arian grant ychwanegol a ddarperir ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon. Wrth symud ymlaen, rydym yn

¹²⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 156\], 3 Ebrill 2019](#)

¹²⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 156\], 3 Ebrill 2019](#)

¹²⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 157\], 3 Ebrill 2019](#)

credu bod achos cryf dros ddefnyddio cyllid wedi'i dargedu i ateb heriau'r agenda ddiwygio, gan gynnwys (er enghraifft) gweithredu'r cwricwlwm newydd, diwygio ADY a'r ymagwedd ysgol-gyfan at iechyd emosiynol a meddyliol.

180. Er hynny, er mwyn i gyllid wedi'i dargedu weithio'n effeithiol, rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod cyllidebau craidd yr ysgolion yn ddigonol yn y lle cyntaf. Ni ddylai unrhyw arian wedi'i dargedu gael ei ddefnyddio i ychwanegu at yr arian craidd a ddarperir neu i ateb diffygion ynddo.

181. Rydym yn cytuno ei bod yn briodol parhau i ddyrannu cyllid neilltuedig ar gyfer amcanion penodol, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r cydbwysedd y mae'n ei wynebu rhwng hyn a'r cyllid y mae'n ei ddarparu i lywodraeth leol gyllido cyllidebau craidd yr ysgolion. Wrth ddarparu cyllid neilltuedig, dylai Llywodraeth Cymru hefyd asesu'n rheolaidd y gwerth am arian sy'n cael ei sicrhau o'r dyraniad hwnnw.

Argymhelliad 10. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r cydbwysedd y mae'n ei wynebu rhwng darparu cyllid neilltuedig ar gyfer amcanion penodol, a'r cyllid y mae'n ei ddarparu i lywodraeth leol i gyllido cyllidebau craidd yr ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rheolaidd hefyd i asesu'r gwerth am arian sy'n dod yn sgil dyrannu cyllid o'r fath.

182. Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru weithiau wedi darparu rhywfaint o arian grant yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, sydd mewn rhai achosion wedi golygu nad oes modd defnyddio'r arian a ddarperir yn effeithiol nac at y diben a fwriadwyd. Er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol ar gyllid grant, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru roi'r cyllid hwn i'r ysgolion cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn helpu i gynllunio cyllidebau ac yn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario mewn modd mor strategol â phosibl. Dylai'r un egwyddorion fod yn gymwys i gyllid grant sy'n cael ei ddyrannu drwy'r consortia.

183. Er hynny, rydym yn cydnabod na fydd yn bosibl darparu cyllid o'r fath yn gynharach bob amser. O dan yr amgylchiadau hynny, rydym yn credu y dylid cynnig mwy o hyblygrwydd i'r ysgolion o ran sut a phryd i'w wario.

Argymhelliad 11. Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod arian grant yn cael ei roi i'r ysgolion cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol. Os na all y cyllid hwn gael ei roi yn gynharach yn y flwyddyn ariannol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys mwy o hyblygrwydd yn yr amodau grant perthnasol ynghylch sut a/neu pryd y caiff yr ysgolion ei wario.

9. Cronfeydd wrth gefn a diffygion yng nghyllidebau'r ysgolion

Mae cwestiwn cronfeydd wrth gefn yr ysgolion wedi'i ystyried yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb flynyddol. Yn fwyaf diweddar, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy ym mlwyddyn ariannol 2019-20 i fonitro lefelau'r cronfeydd wrth gefn a sicrhau nad ydynt yn ormodol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r adran hon yn edrych ar sut mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yng nghyllidebau'r ysgolion yng nghyd-destun cyllido ysgolion yn fwy cyffredinol.

184. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data yn flynyddol ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan ysgolion.¹³⁰ Yn ystod y broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni ei bod wedi synnu'n fawr o weld lefelau uchel iawn o gronfeydd wrth gefn mewn rhai ysgolion unigol.¹³¹ Mae Tabl 4 isod yn rhoi manylion lefelau'r cronfeydd wrth gefn ers 2016. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad D i'r adroddiad hwn.

Tabl 4: Cronfeydd wrth gefn ysgolion fesul blwyddyn ariannol

Blwyddyn ariannol	Lefel net cronfeydd wrth gefn yr ysgolion	Lefel cronfeydd wrth gefn yr ysgolion fesul disgybl	% newid o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol
2015-16 ar 31 Mawrth 2018	£64 miliwn	£142	+0.9
2016-17 ar 31 Mawrth 2018	£46 miliwn	£102	-28
2017-18 ar 31 Mawrth 2018	£50 miliwn	£111	10

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, Cronfeydd wrth gefn ysgolion: 31 Mawrth 2018, Hydref 2018

185. Ar ben lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn, cafwyd cynnydd hefyd yn nifer yr ysgolion a oedd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol lle caiff yr awdurdodau lleol ymyrryd. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan 501 o ysgolion

¹³⁰ Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru: Cronfeydd wrth gefn ysgolion

¹³¹ Cofnod y Trafodion.10.Tachwedd.2015

gronfeydd uwchlaw'r trothwyon hyn, sef cynnydd o'r ffigur o 395 flwyddyn yn gynharach.¹³²

186. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, pan fo gan ysgol gynradd gronfeydd wrth gefn dros £50,000 neu pan fo gan ysgol uwchradd gronfeydd dros £100,000, caiff yr awdurdodau lleol naill ai gyfarwyddo'r ysgol i wario'r balans neu gallant adennill yr arian. Does dim tystiolaeth bod yr awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pwerau statudol o dan y Rheoliadau Cyllido Ysgolion erioed. Ychydig yn unig o dystiolaeth a geir hefyd fod Llywodraeth Cymru yn monitro'r sefyllfa.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

187. Yn y digwyddiad i'r rhanddeiliaid ar 16 Ionawr 2019, awgrymodd rhai cyfranogwyr fod y data sy'n cael ei gasglu ynghylch lefelau cronfeydd wrth gefn yn fesur eithaf mympwyol.¹³³ Roeddent yn dadlau nad yw un pwynt yn ystod y flwyddyn yn rhoi disgrifiad o sut y gallai'r ysgolion fod yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol ar adegau eraill yn y flwyddyn, gan esbonio bod cronfeydd wrth gefn yn aml yn cael eu clustnodi at ddibenion penodol.

188. Fel y nodwyd yn adran 8 o'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn aml yn rhyddhau cyllid i'r awdurdodau lleol sy'n cael ei drosglwyddo wedyn i'r ysgolion yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod cyllid o'r fath bron yn amhosibl i'w wario o dan yr amgylchiadau hyn, felly mae'n anochel ei fod yn syrthio i gronfeydd wrth gefn. Cyfeiriodd ADEW at yr enghraifft o arian ychwanegol at gynnal a chadw ysgolion sydd, er ei fod yn cael ei groesawu, wedi'i ddyrannu'n hwyr ym mlwyddyn ariannol 2017-18 gan chwyddo balansau ysgolion mewn modd artiffisial ar y dyddiad cofnodi, sef 31 Mawrth.¹³⁴

189. Nododd yr NAHT yn eu tystiolaeth lafar mai ffigur Mawrth 2017 oedd y lefel isaf o gronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion ers 2001 ac felly y dylai'r cynnydd ym mis Mawrth 2018 gael ei weld yn y cyd-destun hwnnw.¹³⁵ Dywedodd yr NAHT mai ffigur Mawrth 2018 oedd yr ail isaf o hyd mewn bron i ugain mlynedd a bod cronfeydd yr ysgolion yn dal yn isel o safbwynt hanesyddol. Cymharodd yr NASUWT y sefyllfa â Lloegr, gan gyferbynnu'r ffigur o £102 y disgybl ym mis Mawrth 2017 yng Nghymru â £355 y disgybl ar draws y ffin yn yr un flwyddyn.

¹³² Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, StatsCymru **Gwariant Alldro Ysgol Ddirprwyedig, yn ôl ysgol (£ mil)**

¹³³ **Nodyn cryno o'r Digwyddiad i'r Rhanddeiliaid: 16 Ionawr 2019**

¹³⁴ Tystiolaeth lafar. **Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 20 Mawrth 2019**

¹³⁵ Tystiolaeth lafar. **Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 21 Chwefror 2019**

190. Dywedodd yr awdurdodau lleol ei bod yn anodd barnu pryd roedd ysgol yn dal gafael ar ormod o gronfeydd wrth gefn ac felly pryd y dylent ymyrryd. Disgrifiodd ADEW y pwerau o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 fel rhai “anhyblyg”, gan nodi:

“I’m not aware of any instances where school balances have been clawed back in Wales. What we are required to do is to instruct a school to spend in those circumstances, and if a school then fails to spend its balances, then we can claw it back, but it has to be redistributed to schools using an agreed formula within a certain timescale, and the timescale is very tight. So, what happens usually on the ground is we would have an informal discussion with the school before we have to move to statutory powers.”¹³⁶

191. Ychwanegodd CLILC fod y pwerau statudol yn ddefnyddiol fel mesur wrth gefn ac mai eu prif ddiben oedd atal yr ysgolion rhag cadw balansau gormodol. Dywedodd y Gymdeithas “The fact that it’s there means that, very often, you don’t actually have to use it”.¹³⁷

192. Aeth ADEW ymlaen i ddweud “there needs to be far more focus on school deficits than balances (cronfeydd wrth gefn)”.¹³⁸

Mae’r ystadegau’n dangos bod 79 (39%) o’r ysgolion uwchradd a 146 (11%) o’r ysgolion cynradd mewn diffyg, ar 31 Mawrth 2018. Mae cyfran yr ysgolion uwchradd sydd mewn diffyg yn amrywio o ddim ym Mro Morgannwg a Merthyr Tudful i 86% yn Sir Ddinbych a 75% yn Sir Fynwy [gweler Atodiad D].

193. Wrth roi tystiolaeth ym mis Mawrth, amcangyfrifodd yr ASCL fod cyfran yr ysgolion uwchradd a oedd mewn diffyg oddeutu 50%, gan rag-weld y byddai hynny’n codi i rhwng 75% ac 80% ar 31 Mawrth 2019.¹³⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

194. Pan gododd y Pwyllgor gwestiwn cronfeydd wrth gefn ysgolion gyda’r Gweinidog Addysg am y tro cyntaf, ym mis Tachwedd 2016, dywedodd y Gweinidog:

¹³⁶ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 118], 20 Mawrth 2019

¹³⁷ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 20 Mawrth 2019

¹³⁸ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 137], 20 Mawrth 2019

¹³⁹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 21 Chwefror 2019

“My message is, if people [schools] are hanging on to that money for a rainy day, well it’s raining and we need that money being used to its best effect—that is, delivering for school pupils.”¹⁴⁰

195. Er bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn lefel cronfeydd wrth gefn yr ysgolion ym mis Mawrth 2017, wrth graffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru 2019-20, gofynnodd y Pwyllgor i’r Gweinidog Addysg roi sylwadau ar y cynnydd yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion y flwyddyn wedyn:

“...that’s an increase from where we were on the previous year, which I guess would be counterintuitive, wouldn’t it, for parents looking at the situation, where they see people saying, ‘Actually, school budgets are really, really difficult’ but we see reserves going up? (...)

Now, there may be very legitimate reasons why a school is holding a certain level of reserves—they may be working towards a specific spend for that—but I am concerned. (...)

...for some schools we can see that these reserves have been held over a long period of time, and that is particularly worrying to me. ...).”¹⁴¹

196. Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru:

- gweithio’n fwy rhagweithiol gyda llywodraeth leol i leihau nifer yr ysgolion sy’n dal cronfeydd wrth gefn sy’n uwch na’r trothwy statudol;
- rhoi sicrwydd, yn dilyn trafodaeth gyda llywodraeth leol, fod pob ysgol sy’n dal cronfeydd uwchlaw’r trothwy statudol yn gwneud hynny am reswm dilys a bod ganddynt gynllun clir i wario’r arian mewn modd priodol.¹⁴²

197. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd fod swyddogion “yn gweithio’n agos gyda swyddogion Llywodraeth Leol a CLILC a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau mai Llywodraeth Leol sy’n

¹⁴⁰ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 32]. 10 Tachwedd 2016

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion. 8 Tachwedd 2018

¹⁴² Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar graffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19: Argymhelliad 5

gallu cyflawni orau o ran ein blaenoriaethau ar y cyd, gan gynnwys sicrhau bod pob ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi".¹⁴³

198. Yn ei thystiolaeth lafar i'r ymchwiliad hwn, ailadroddodd y Gweinidog Addysg fod nifer yr ysgolion sy'n dal cronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol yn ymddangos yn "counterintuitive". Dywedodd:

"... we were in touch with all local authorities in October around these issues and we continue, at official level, to work with local authorities to challenge them on whether they are adequately working with their local schools to understand what the reasons are for those high levels of reserves, and whether those have been adequately tested, and what action they will take if they feel that those schools do not have a sound reason for having levels of reserves."¹⁴⁴

199. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru fod y swyddogion yn cymharu'r hyn a ragwelwyd ym mis Hydref 2018 â'r hyn a fyddai'n cael ei wario o'r cronfeydd wrth gefn ac y bydden nhw'n adolygu'r data hwnnw gyda phob awdurdod lleol ym mis Ebrill 2019.¹⁴⁵

Ein barn ni

200. Mae'n fater o bryder sylweddol i ni fod lefel y cronfeydd wrth gefn ledled y wlad, a nifer yr ysgolion sy'n dal cronfeydd, wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn cydnabod bod y ffigurau presennol yn is nag yn 2016, ond ar adeg lle mae cyllidebau'n fwyfwy tynn, mae'n ymddangos yn amhriodol i rai ysgolion gadw lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, yn enwedig y rhai y mae eu cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r trothwyon a bennir yn y rheoliadau perthnasol.

201. Rydym yn arbennig o bryderus nad yw'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau statudol sydd ar gael iddynt i ymyrryd mewn achosion o'r fath ac nad oedd Llywodraeth Cymru'n monitro'r sefyllfa tan yn ddiweddar, o ganlyniad i anogaeth y Pwyllgor.

202. Nodwn fod y dystiolaeth a roddwyd yn awgrymu bod y data sy'n cael ei gasglu ynghylch lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn fesur mympwyol, ac rydym yn

¹⁴³ [Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19](#)

¹⁴⁴ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 65\], 3 Ebrill 2019](#)

¹⁴⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 66\], 3 Ebrill 2019](#)

cytuno nad yw hyn yn rhoi disgrifiad o sut y gallai'r ysgolion fod yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn.

203. Nodwn hefyd y mater a godwyd bod Llywodraeth Cymru yn aml yn rhyddhau rhywfaint o gyllid grant yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, sef cyllid y mae'r ysgolion yn ei chael yn anodd ei wario yn aml. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n anochel y gall cyllid hwyr ddisgyn i gronfeydd wrth gefn. Dyma fater yr ymdrinnir ag ef adran 8, ac rydym wedi gwneud argymhelliad penodol y dylai'r ysgolion gael mwy o hyblygrwydd o ran pryd a sut i wario arian sy'n cyrraedd yn hwyr mewn blwyddyn ariannol.

204. Rydym yn derbyn y bydd yna amgylchiadau lle mae'n briodol, ac efallai'n anochel, i'r ysgolion gael cronfeydd wrth gefn. Er hynny, mae nifer cynyddol o achosion lle mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r trothwyon, ac mae angen rheoli hyn yn llawer mwy cadarn.

205. Yn ôl y data a welsom, mae tua 500 o ysgolion ar hyn o bryd sy'n dal cronfeydd wrth gefn sydd uwchlaw'r trothwyon statudol lle caiff yr awdurdodau lleol ymyrryd. Er ein bod yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r awdurdodau lleol i ymchwilio i'r rhesymau dros y lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn (ac a yw'r rheiny wedi eu profi'n ddigonol ai peidio), fe ddylai manylion y gwaith hwn, ac unrhyw ganfyddiadau, gael eu cyhoeddi.

Argymhelliad 12. Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda'r awdurdodau lleol i ymchwilio i'r rhesymau dros y lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, ac a yw'r rheiny wedi'u profi'n ddigonol ai peidio, a chyhoeddi unrhyw ganfyddiadau o'i ymchwiliadau. Yn benodol, dylai'r diweddariad amlygu unrhyw waith a wnaed mewn perthynas â'r 501 o ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol, gan gynnwys unrhyw ymyrraeth posibl gan yr awdurdodau lleol.

206. O ran nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn sydd uwchlaw'r trothwyon statudol, rydym hefyd yn pryderu bod yr awdurdodau lleol fel pe baent heb weithredu i adfachu arian o dan Reoliadau 2010. Fel yr amlygwyd yn y dystiolaeth, mae'n ymddangos nad oes achosion lle mae balansau ysgolion wedi cael eu hadfachu yng Nghymru.

207. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CLILC ac ADEW yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw'r pwerau o dan Reoliadau 2010 yn addas at eu diben. Yn hytrach na diffyg gweithredu o du'r awdurdodau lleol, awgrymodd CLILC fod y diffyg adfachu i'w briodoli i'r graddfeydd amser, a bod gofynion y Rheoliadau ar lywodraeth leol yn afrealistig ac yn amhosibl eu cyflawni. Yn ein barn ni, cyfyngedig yw

defnyddioldeb y pwerau statudol fel rhwystr i atal yr ysgolion rhag cadw balansau gormodol os yw'r awdurdodau lleol yn methu arfer (neu'n amharod i arfer) eu pwerau adfachu mewn modd effeithiol.

208. Rydym yn credu, felly, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol ac a ydyn nhw'n addas at eu diben. Er enghraifft, ydyn nhw'n galluogi'r awdurdodau lleol i ailddyrrannu unrhyw arian y maen nhw'n ei adennill yn effeithiol? Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried y cwestiwn a ddylai'r trothwyon yn y Rheoliadau fod yn ganran gymharol o gyllideb yr ysgol yn hytrach na ffigur absoliwt, er mwyn ymdrin ag ysgolion o wahanol feintiau.

Argymhelliad 13. Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 er mwyn canfod a ydyn nhw'n addas at eu diben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n benodol i ystyried a yw'r pwerau'n rhoi digon o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol ailddyrrannu unrhyw arian y maent yn ei adennill mewn modd effeithiol. Dylai unrhyw adolygiad a wneir hefyd ystyried a ddylai trothwyon cronfeydd wrth gefn fod yn ganran gymharol o gyllideb yr ysgol yn hytrach na ffigur absoliwt, i ymdrin ag ysgolion o feintiau gwahanol.

209. Er bod cwestiwn cronfeydd wrth gefn gormodol yn un pwysig, rydym yn cytuno â'r pryderon a fynegwyd gan ADEW bod angen canolbwyntio'n fwy ar ddiffygion ysgolion yn hytrach na'u cronfeydd wrth gefn. Roedd y gyfran o ysgolion sydd â diffyg yn y data diweddaraf sydd ar gael yn destun pryder mawr. Mae'r rhybudd gan ASCL, eu bod yn rhag-weld y gallai hyn godi i dros 75% pan fydd ffigurau 2018-19 yn cael eu rhyddhau, hyd yn oed yn fwy o bryder. Mae'r dystiolaeth a gafwyd trwy gydol yr ymchwiliad hwn yn awgrymu'n gryf y bydd darparu cyllidebau digonol i'r ysgolion yn dod yn fwyfwy anodd os na chaiff camau eu cymryd. Os felly, mae mwy a mwy o ysgolion yn debygol o wynebu diffyg, a hynny ar lefel uwch (ac fe allai rhai ysgolion wynebu sefyllfa lle na fyddan nhw byth mewn sefyllfa i symud allan o'r diffyg).

Argymhelliad 14. Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag achosion lle mae gan ysgolion gyllidebau diffygiol, yn enwedig lle nad oes cynllun adfer ar waith.

10. Cyllidebau tair blynedd i'r ysgolion

Mae symud i gyllidebau tair blynedd i'r ysgolion wedi bod yn amcan polisi ers tro byd, er ei bod wedi bod yn anodd ei roi ar waith yn ymarferol. Mae'r adran hon yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ac yn ystyried y potensial ar gyfer symud i gyllidebau ysgol tair blynedd.

210. Yn 2006, argymhellodd Pwyllgor Ariannu Ysgolion y Cynulliad y dylai cyllidebau tair blynedd gael eu cyflwyno ar gyfer ysgolion fel blaenoriaeth. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

“Credwn fod consensws eang bellach y byddai cyllidebau tair blynedd yn gwella'r broses gynllunio ac yn gyfle i ysgolion ddefnyddio eu harian yn greadigol a chyflawn gyda llai o angen i gynnal gweddillion mawr oherwydd ofnau am brinder arian yn y dyfodol.”¹⁴⁶

211. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad gan ddweud y câi ei ddatblygu yng nghyd-destun setliadau cyllido tair-blynedd i'r awdurdodau lleol.¹⁴⁷ Hyd yn hyn, nid yw'r argymhelliad a dderbyniwyd wedi cael ei roi ar waith.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

212. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn yn awgrymu y byddai mwy o sicrwydd ynglŷn a'r gyllideb y gall ysgol ddisgwyl ei chael y tu hwnt i un flwyddyn yn cael ei groesawu'n gyffredinol.

213. Amlygodd ein hymweliadau ag ysgolion yr ansicrwydd y mae'r ysgolion yn ei wynebu wrth osod eu cyllidebau o'r naill flwyddyn i'r llall, gydag unrhyw newidiadau o bwys yn niferoedd y disgyblion yn effeithio'n sylweddol ar y gyllideb y maent yn ei chael gan yr awdurdod lleol. Dywedwyd wrthon ni yn ystod yr ymweliadau y gall hyn ei gwneud yn anodd cynllunio'r ddarpariaeth a gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch cyflogi staff addysgu ychwanegol neu fforddiadwyedd cadw'r staff presennol.

214. Yn ystod y digwyddiad i'r rhanddeiliaid ar 16 Ionawr 2019, soniodd cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol fod rhagamcanion o gyllidebau ysgolion yn

¹⁴⁶ [Adroddiad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion - Mehefin 2006](#)

¹⁴⁷ [Datganiadau Ysgrifenedig y Gweinidog 11 Gorffennaf, 19 Medi a 26 Medi 2006](#).

aml yn anghywir, gan weithredu'n syml fel "llinell yn y tywod".¹⁴⁸ Awgrymodd y rhanddeiliaid nad yw cael cylch cyllideb o un flwyddyn yn helpu yn hyn o beth, a byddai'n well gan rai awdurdodau lleol gael dyraniadau cyllideb tymor canolig, gyda chyllidebau tair blynedd fel y dewis gorau.¹⁴⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

215. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod wedi ceisio rhoi mwy o sicrwydd i'r ysgolion o ran yr adnoddau a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol. Dyma un o'r rhesymau a roddwyd dros bennu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer 2018-19 a 2019-20 ar sail ffigurau cyfrifiad ysgolion Ionawr 2016.¹⁵⁰

216. Er hynny, yn ein hadroddiad "Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella adroddiad canlyniadau addysgol", rhybuddiodd y Pwyllgor y gallai hyn beri anfantais i ysgolion y mae eu niferoedd eFSM yn codi wedyn.¹⁵¹

217. Mae darparu rhagolygon hirach i'r ysgolion o ran eu cyllidebau craidd wedi bod yn fwy anodd i Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni.

"I would love to be in a position, and I'm sure Julie [y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol] would love to be in a position, where we can give longer term outlooks for services that we fund. The reality is Welsh Government does not know with any level of certainty regarding funding beyond 2020."¹⁵²

218. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wrthon ni nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod beth yw'r trefniadau ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd i fod i ddigwydd yn 2019. Dywedodd:

"... I have a constant conversation with the WLGA and local authorities, actually through the WLGA, about the trade-off, if you like, between being able to give some kind of long-term indication and then how accurate that is. (...)

¹⁴⁸ Digwyddiad Rhanddeiliaid - 16 Ionawr 2019: Crynodeb o'r trafodaethau

¹⁴⁹ Digwyddiad Rhanddeiliaid - 16 Ionawr 2019: Crynodeb o'r trafodaethau

¹⁵⁰ Datganiad Llafar: Diweddariad a'r camau nesaf ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - 17 Ebrill 2018

¹⁵¹ Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol

¹⁵² Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 129], 3 Ebrill 2019

“The earlier we give them the certainty, the more pessimistic the forecast, and then the more likely it is that they will end up with differential amounts of money afterwards. (...)”

So, it’s a constant trade-off, which we constantly discuss with them, about at what point in the year we can give them the best trade-off between certainty and longer term planning.”¹⁵³

Ein barn ni

219. Mae’r alwad am symud i gyllidebau tair blynedd i’r ysgolion yn bodoli ers tro. Rydym yn nodi, ac yn dal i gytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion yn 2006, y dylai cyllidebau tair blynedd i’r ysgolion gael eu cyflwyno fel blaenoriaeth.

220. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gan Bwyllgor 2006 yn glir bod consensws eang y byddai cyllidebau tair blynedd yn gwella’r gwaith cynllunio ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i’r ysgolion ddefnyddio’u cyllid yn greadigol. Nid yw’r dystiolaeth a gyflwynwyd i’r ymchwiliad hwn yn awgrymu unrhyw wyriad oddi wrth y consensws hwnnw.

221. Er bod yr argymhelliad ynglŷn â chyllid tair blynedd wedi’i dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn 2006, mae’n siomedig nad yw hyn wedi cael ei ddatblygu yng nghyd-destun setliadau cyllido tair blynedd i’r awdurdodau lleol.

222. Rydym yn derbyn safbwynt Llywodraeth Cymru bod ei chyllid ei hun yn dibynnu ar gyllid oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a bod y trefniadau ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn anhysbys. Gan hynny all Llywodraeth Cymru ddim gwybod, gydag unrhyw sicrwydd, beth fydd ei chyllid hi y tu hwnt i 2020.

223. Serch hynny, dydyn ni ddim yn credu bod hyn ynddo’i hun yn atal Llywodraeth Cymru rhag darparu setliadau cyllid tair blynedd i’r awdurdodau lleol, ac o fewn hynny caniatáu cylchoedd cyllidebu tair blynedd i’r ysgolion. Rydym yn credu bod modd cyflawni hyn o hyd, er ein bod yn cydnabod bod yna gyfaddawd rhwng manteision rhagamcanion hirdymor a chywirdeb a sicrwydd y dyraniadau cyllideb hirdymor hynny.

Argymhelliad 15. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall fwrw ymlaen â’r nod sy’n bodoli ers tro byd o ddarparu cyllidebau tair blynedd i’r ysgolion, yng nghyd-destun setliadau cyllido tair blynedd i’r awdurdodau lleol, er mwyn galluogi’r ysgolion i gynllunio’n fwy effeithiol at y tymor hir. Wrth wneud hyn,

¹⁵³ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 3 Ebrill 2019

dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfaddawd rhwng manteision rhagamcanion hirdymor a chywirdeb a sicrwydd y dyraniadau cyllideb hirdymor hynny.

11. Rôl yr “haen ganol”

Mae'r term “haen ganol” yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at sefydliadau sydd â swyddogaethau addysg sy'n eistedd rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion y rheng flaen. Y ddau brif fath o sefydliad haen ganol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn yw'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Mae'r adran hon yn edrych ar rôl yr haen ganol wrth ddarparu gwasanaethau i ysgolion.

224. Cafodd y consortia addysg rhanbarthol eu creu yn 2012 ar draws pedwar rhanbarth yng Nghymru. Drwy'r consortia, mae'r awdurdodau lleol yn cyfuno'u gwasanaethau gwella ysgolion, er mai nhw sy'n gyfrifol yn statudol am y gwasanaethau hyn o hyd. Mae'r awdurdodau lleol hefyd yn cadw'r cyfrifoldeb gweithredol dros wasanaethau addysg eraill, gan gynnwys cyllido ysgolion.

225. Felly, gwella ysgolion yw rôl y consortia ac mae hyn wedi'i nodi yn y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol (2015).¹⁵⁴ Mae Llywodraeth Cymru yn eu gweld fel rhan annatod o'i hagenda ar gyfer codi safonau addysg.

226. Ar ben eu swyddogaethau gwella ysgolion o ddydd i ddydd sy'n cael eu cyllido gan yr awdurdodau lleol (rhyw £11 miliwn y flwyddyn), mae'r consortia rhanbarthol yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu grantiau addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r grantiau hyn wedi'u pecynnu ar ffurf Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG) a oedd, yn 2018-19, oddeutu £150 miliwn.¹⁵⁵ Gan hynny, mae dosbarthu grantiau yn ffurfio rhan lawer mwy o'u rôl mewn termau ariannol.

227. Trafodwyd cwestiwn yr arian neilltuedig y mae Llywodraeth Cymru yn ei sianelu drwy'r consortia rhanbarthol yn hytrach na thrwy ddarpariaeth llywodraeth leol ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion yn adran 8 o'r adroddiad. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eglurder pwrpas swyddogaeth y consortia, o'u cyferbynnu â'r awdurdodau lleol.

¹⁵⁴ Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol

¹⁵⁵ Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg: 5 Rhagfyr 2018

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

228. Mynegodd y prif undebau athrawon bryderon cryf ynghylch tryloywder a gwerth am arian y system grantiau sy'n cael ei gweinyddu gan y consortia rhanbarthol. Fel y trafodwyd yn adran 8 o'r adroddiad hwn, mae'r ASCL a'r NAHT yn pryderu nad oes digon o'r arian hwn yn cyrraedd rheng flaen yr ysgolion a byddai'n well ganddynt weld yr arian yn cael ei roi i gyllidebau craidd ysgolion.

229. Wrth ysgrifennu am "haen ychwanegol" y consortia, dywedodd yr NAHT:

"Currently, school leaders are expressing an increasing lack of belief in the benefits of the middle tier, in general, questioning whether it can drive genuine improvements at school-level and, as a result, confidence in the middle tier is at an all-time low.

The perception of school leaders is that the middle tier lacks the same levels of accountability, particularly in terms of delivery (value for money), that is expected of schools."¹⁵⁶

230. Dadleuai'r undebau athrawon fod angen adolygu sut mae'r consortia'n gweithio a'u rôl benodol yn yr haen ganol. Dywedodd yr NASUWT fod cael rhyw fath o haen ganol yn gwbl hanfodol ond roedd yn amau a oedd yr haen honno wedi'i hadeiladu yn y ffordd iawn.¹⁵⁷ Dywedodd yr NEU wrthon ni:

"We've had problems with the consortia ever since they were established, and the issues go back to the way in which they were established. We are not against support being provided for the schools; support is clearly needed. One has to question whether or not the consortia are the right way of actually doing this. There are some excellent people working for the consortia, and we need to retain their skills, but whether or not the way in which it's been established is the right way, I would question that."¹⁵⁸

231. Tanlinellodd yr NASUWT y dryswch ynghylch y berthynas rhwng y consortia a'r awdurdodau lleol:

"The thing I can't understand is that the consortia are a consortia of local authorities. The local authorities are on their management committees; they actually run them. They're not separate entities. So,

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 31 - NAHT \(Cymru\)](#)

¹⁵⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 311\], 21 Chwefror 2019](#)

¹⁵⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 304\], 21 Chwefror 2019](#)

you've got the directors of education in each of the authorities on the management committee. So, why aren't they doing what the local authorities want them to do, because they're managing them? And yet, the local authorities are complaining, in some cases, that the regional consortia aren't working properly. Well, they're the ones who are running them. So, it must be their fault then that they're not working properly. I can't get my head around it. I really can't get my head around it."¹⁵⁹

232. Pan ofynnwyd a ddylai Llywodraeth Cymru gychwyn adolygiad o waith gwirioneddol y consortia rhanbarthol er mwyn dod â rhywfaint o gysondeb, mwy o atebolrwydd a gwaith craffu, a gwell gwerth am arian, dywedodd yr NEU mai dyna oedd safbwynt eu polisi drwyddi draw.¹⁶⁰

233. Dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLILC ac Arweinydd Cyngor Tor-faen, fod awdurdodau lleol y De-ddwyrain yn gweithio'n dda iawn gyda chonsortium EAS,¹⁶¹ a dywedodd Paula Ham, arweinydd ADEW ar gyllid a Chyfarwyddwr Addysg Bro Morgannwg, fod y canlyniadau wedi gwella'n sylweddol ers sefydlu CSC yn 2012¹⁶². Er hynny, ychwanegodd Ms Ham ei bod yn anodd canfod a oedd hynny o ganlyniad uniongyrchol i rôl y consortium:

“...there will be a number of supporting mechanisms for schools in place, and not just those delivered by the consortia, but a number of support services that go in from local authorities as well. So, it's difficult to isolate consortia and establish whether they are the cause for the improvement in outcomes.”¹⁶³

234. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, cydnabu'r consortia i ryw raddau y gallai fod angen gwella dealltwriaeth o'u rôl a'u diben o'u cyferbynnu â'r gwasanaethau addysg eraill a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Dywedodd EAS “there seems to be a perception that there are not clear roles and responsibilities” ond eto i gyd “there is not duplication at local authority level”.¹⁶⁴ Dywedodd ERW fod hyn yn flaenoriaeth arbennig iddynt:

¹⁵⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 304\], 21 Chwefror 2019](#)

¹⁶⁰ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 318\], 21 Chwefror 2019](#)

¹⁶¹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 183\], 20 Mawrth 2019](#)

¹⁶² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 185\], 20 Mawrth 2019](#)

¹⁶³ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 185\], 20 Mawrth 2019](#)

¹⁶⁴ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 360\], 20 Mawrth 2019](#)

“... it’s part of what we’re trying to do to develop a business plan that is absolutely clear about what the region does, what the local authority does, and what schools will do. Because, ultimately, it’s not two lots—there are three bits.”¹⁶⁵

235. Tynnodd GwE wahaniaeth rhwng yr arian craidd oddi wrth yr awdurdodau lleol (y dywedodd eu cynrychiolydd ei fod wedi’i fwriadu ar gyfer “here and now” a helpu’r ysgolion i wneud gwelliannau yn y fan a’r lle) a’r arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru (a fwriedir ar gyfer y “daith ddiwygio” ac er mwyn galluogi’r ysgolion i adeiladu capasiti ychwanegol i baratoi ar gyfer y diwygiadau).¹⁶⁶

Dywedodd:

“I think one of the key areas for us is to facilitate, and we are quite clear that not one individual school can move the reform journey on its own—it’s got to be a collective; we’ve got to work together. We’ve got a key role, then, in helping schools to collaborate, work together, helping schools to find where the best practice is, to be clear then to maximise the money that comes from Welsh Government...”¹⁶⁷

236. Dywedodd ERW “essentially, schools have both a day job and the reform job” ac “ultimately, it needs to become the same thing”.¹⁶⁸

Safbwynt Llywodraeth Cymru

237. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod consortia rhanbarthol yn hanfodol i gefnogi a hwyluso gwelliant ysgolion nawr ac yn y dyfodol. Rhwng 2014 a 2017, darparodd Her Ysgolion Cymru gyfuniad o gyllid, cymorth, her a chyngor i ysgolion penodol a oedd yn tanberfformio. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni yn ystod ein hymchwiliad yn 2018 ynglŷn â chyllid wedi’i dargedu i wella canlyniadau addysgol fod Her Ysgolion Cymru yn “ateb ei diben” tra oedd gallu’r consortia rhanbarthol yn cynyddu ar adeg pan oedden nhw’n gymharol newydd.¹⁶⁹

238. Mewn tystiolaeth i’n hymchwiliad ar gyllid wedi’i dargedu, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y consortia mewn sefyllfa dda i ymgymryd â’r gwaith gwella ysgolion.¹⁷⁰ Yn ein hadroddiad ar yr ymchwiliad i gyllid wedi’i dargedu,

¹⁶⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 379\]](#), 20 Mawrth 2019

¹⁶⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 242\]](#), 20 Mawrth 2019

¹⁶⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 243\]](#), 20 Mawrth 2019

¹⁶⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 318\]](#), 20 Mawrth 2019

¹⁶⁹ [Cyrraedd y nod? Cyllid wedi’i dargedu i wella canlyniadau addysgol](#)

¹⁷⁰ [Cyrraedd y nod? Cyllid wedi’i dargedu i wella canlyniadau addysgol](#)

argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'n agos pa mor effeithiol oedd y consortia rhanbarthol o ran cyflawni eu rôl gwella ysgolion.¹⁷¹

239. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni ei bod wedi sefydlu “grŵp haen ganol”, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Dylan Jones. Mae'r Athro Jones yn gynbennaeth ysgol uwchradd ac ar hyn o bryd yn Ddeon Addysg ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac yn Bennaeth Athrofa Addysg ac Arweinyddiaeth Ysgolion Cymru. Dywedodd y Gweinidog Addysg:

“...the group is there to establish very clearly a greater coherence across the middle tier, not just in terms of financial resources, but, actually, their role in the national mission and delivering higher standards in our schools.”¹⁷²

Ein barn ni

240. Rydym yn pryderu am rai o'r safbwyntiau a fynegwyd bod diffyg cred cynyddol yng ngwerthoedd yr haen ganol. Un pryder arbennig yw'r ffaith bod y farn hon wedi'i mynegi'n gryf gan arweinwyr ysgolion. Yn ein barn ni, swyddogaeth allweddol y consortia yw ysgogi gwelliannau ar lefel yr ysgol. Mae diffyg hyder neu ddiffyg cred yn eu rôl ymysg arweinwyr ysgolion yn bwrw amheuaeth ar allu'r consortia i gyflawni'r rôl allweddol hon.

241. Rydym hefyd yn pryderu ei bod yn ymddangos bod yn argraff bod yr haen ganol – sef yr awdurdodau lleol a'r consortia – heb yr un lefel o atebolrwydd sy'n wynebu'r ysgolion, yn enwedig o ran darparu gwerth am arian.

242. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan lywodraeth leol a chan y consortia yn awgrymu bod y ddau yn glir ynghylch y rolau y maent yn eu chwarae wrth ysgogi gwelliant mewn ysgolion. Awgrymwyd hefyd nad oes yna ddyblygu ymdrech ar draws y ddau. Nodwn hefyd y sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y consortia mewn meysydd penodol, a bod gwelliannau wedi bod ers eu sefydlu.

243. Er hynny, mae pwysau'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth yn fwy cyffredinol ynghylch rolau priodol llywodraeth leol a'r consortia rhanbarthol, yn enwedig ym maes gwella ysgolion. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu ac esbonio rolau priodol yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau addysg.

¹⁷¹ [Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol](#)

¹⁷² Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 181\]. 3 Ebrill 2019](#)

244. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog Addysg wedi sefydlu grŵp haen ganol, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Dylan Jones. Nodwn mai nod y grŵp yw sefydlu mwy o gydlyniad ar draws yr haen ganol, o ran adnoddau ariannol, a'i rôl wrth gyflawni safonau uwch yn ein hysgolion. Rydym yn bwriadu monitro gwaith y grŵp yn agos.

Argymhelliad 16. Y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith i gyfathrebu ac egluro'n glir rolau priodol yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau addysg, ac yn benodol gwasanaethau i ysgolion. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn o fewn gwaith grŵp yr haen ganol o dan arweiniad yr Athro Dylan Jones.

12. Gwariant ar “wella ysgolion”

Mae gwella ysgolion yn rhan hanfodol o'r system addysg. Dyma ddiben creiddiol y consortia rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau a rennir i'r awdurdodau lleol. Er hynny, mae'r awdurdodau lleol hefyd yn cadw elfen o gyllid ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r adran hon yn edrych ar y cwestiwn a oes unrhyw ddyblygu gwariant ar draws llywodraeth leol a'r consortia.

245. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar StatsCymru sy'n dadansoddi'r £2.566 biliwn y mae'r awdurdodau lleol wedi'i gyllidebu ar gyfer ysgolion yn 2018-19.¹⁷³ Mae hyn yn dangos bod £22.4 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer “gwella ysgolion” yn 2018-19.

246. Mae'r wybodaeth ariannol a ddarperir gan y consortia rhanbarthol yn dangos bod yr awdurdodau lleol wedi gwario cyfanswm o £11.0 miliwn yn 2018-19 ar brynu gwasanaethau gwella ysgolion oddi wrth y consortia.¹⁷⁴

247. Mae gwybodaeth a gafodd yr ASCL oddi wrth yr awdurdodau lleol trwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn dangos bod yr awdurdodau lleol eu hunain yn gwario £10.9 miliwn yn flynyddol ar wella ysgolion, ar ben yr arian y maen nhw'n ei wario ar brynu gwasanaethau gwella ysgolion oddi wrth y consortia.¹⁷⁵

248. Yn fras mae hyn yn cyfateb i'r £22.4 miliwn a nodwyd ar StatsCymru. Er hynny, mae'n golygu bod yr awdurdodau lleol yn gwario tua'r un faint o arian ar eu gwasanaethau gwella ysgolion eu hunain ag ar wasanaethau'r consortia, sy'n codi'r cwestiwn a oes unrhyw ddyblygu.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

249. Roedd yr ASCL yn arbennig o bryderus am y posibilrwydd bod yna ddyblygu gwariant ar wella ysgolion, ar sail yr wybodaeth a gafwyd drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth.¹⁷⁶ Roedd yr ASCL wedi cael yr wybodaeth y gofynnwyd amdani gan

¹⁷³ StatsCymru: Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.FI.03 - Consortia Rhanbarthol

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.FI.02 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig. SF.FI.02 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)

18 o'r 22 o awdurdodau lleol, ac roedd y data'n dangos bod pob un o'r rhai a ymatebodd wedi cadw cyllid ar gyfer eu gwaith gwella ysgolion eu hunain. Mewn rhai achosion roedd yr awdurdod lleol wedi cadw mwy o arian nag yr oedd wedi'i ddirprwyo i'r consortia.

250. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw ddyblygu, awgrymodd CLILC ei bod yn debygol y byddai'r argraff bod yna ddyblygu yn deillio o ddiffiniad eang o wella ysgolion yn y ffordd y cyfrifir gwariant a bod y consortia rhanbarthol yn "un mecanwaith" ar gyfer cyflawni hyn. Dywedodd y gymdeithas fod gwella ysgolion yn dal yn rhan o weithgareddau beunyddiol yr awdurdodau lleol.¹⁷⁷

251. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro CSC:

"I think school improvement, defining what school improvement is, sits much wider than us as consortia, because it's not just about what goes on in schools, it's what goes on outside schools—as I mentioned some of the services earlier that contribute to that. So, I think it's a partnership. It has to be a partnership. As a director, I would not see it as duplication of work."¹⁷⁸

252. Roedd GwE yn cytuno, er eu bod yn cydnabod y gall fod angen egluro'n well pa elfennau o waith gwella ysgolion sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau lleol a pha elfennau sy'n gyfrifoldeb i'r consortia.¹⁷⁹ Dywedodd CSC hefyd:

"If you look at purely school improvement services, they have to work in partnership with other local authority services, because children and young people don't exist in a vacuum. There's children's services, for example, you've got attendance and well-being, ALN services—they all contribute to the school improvement agenda, so that relationship with local authorities is crucial."¹⁸⁰

Safbwynt Llywodraeth Cymru

253. Pan ofynnwyd iddynt esbonio pam mae'r awdurdodau lleol yn gwario tua £11 miliwn ar wella ysgolion pan fyddan nhw hefyd yn rhoi £11 miliwn i'r consortia i wneud gwaith gwella ysgolion ar eu rhan, dywedodd y Gweinidog Addysg:

¹⁷⁷ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 191]. 20 Mawrth 2019

¹⁷⁸ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 373]. 20 Mawrth 2019

¹⁷⁹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraffau 374 a 376]. 20 Mawrth 2019

¹⁸⁰ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 342]. 20 Mawrth 2019

“Well, I’m very concerned, and officials are very concerned, about issues around duplication, because we are in such a tight financial system, we cannot afford and schools cannot afford to have duplication. So, I would be very, very concerned around that. I note that the Welsh Local Government Association say that, sometimes, what they badge as ‘school improvement services’ doesn’t necessarily mean that that is duplicating what their regional consortia are doing, so there could be a wider definition and there’s not a huge amount of clarity around that. (...)

... it would be very curious indeed, given the fact that we all acknowledge that these are tough, tough times and getting money to the front line is a priority, why you would end up in a situation where a local authority that is part of running a regional consortia would choose to duplicate their spending to the detriment, potentially, of individual school budgets.”¹⁸¹

Ein barn ni

254. Mae’n glir o’r data a gyhoeddir ar StatsCymru, ac o’r wybodaeth a sicrhaodd yr ASCL, fod yr awdurdodau lleol ledled y wlad yn darparu cyllid i’r consortia at ddibenion gwella ysgolion, ac yn cadw cyllid eu hunain i wella ysgolion ar yr un lefel yn fras.

255. Rydym yn pryderu y gallai cael dwy gronfa ar wahân o arian ar gyfer gwella ysgolion arwain at ddyblygu gwariant, a dyblygu adnoddau yn fwy cyffredinol. Mae’n amlwg bod rhywfaint o ddryswch ymhlith arweinwyr ysgolion ynglŷn â sut mae’r arian hwn yn cael ei wario, ac mae hyn yn arwain at yr argraff bod yn rhaid bod yna rywfaint o ddyblygu.

256. Mae hefyd yn peri pryder nad yw’n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sut mae’r arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni pethau ar draws y consortia neu lywodraeth leol ac a oes unrhyw ddyblygu. Felly, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i’r hyn y mae’r £11 miliwn a gyllidebwyd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei wario arno, o’i gymharu â’r £11 miliwn y mae’r awdurdodau lleol yn ei dalu i’r consortia rhanbarthol am eu gwasanaethau gwella ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd weithio gyda’r awdurdodau lleol a’r consortia i sicrhau nad oes dyblygu na defnydd aneffeithlon ar adnoddau ar gyfer gwella ysgolion.

¹⁸¹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 175\], 3 Ebrill 2019](#)

Argymhelliad 17. Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r hyn y caiff yr £11 miliwn a gyllidebwyd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gwella ysgolion ei wario arno, o'i gymharu â'r £11 miliwn y mae'r awdurdodau lleol yn ei dalu i'r consortia rhanbarthol am eu gwasanaethau gwella ysgolion.

Argymhelliad 18. Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r consortia i sicrhau nad oes dyblygu na defnydd aneffeithlon ar adnoddau pan ddyrennir cyllid ar gyfer gwella ysgolion.

13. Dirprwyo: cyfran y cyllid addysg sy'n cyrraedd y talcen

Mae sawl cam yn y broses o ddyrannu cyllid i'r ysgolion. I ddechrau, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol. Wedyn mae'r awdurdodau lleol yn dyrannu i addysg yn gyffredinol, ac yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'w hysgolion, gan ddyrannu cyllid yn eu Cyllideb Ysgolion Unigol rhwng yr ysgolion yn eu priod awdurdodau. Mae'r adran hon yn edrych yn benodol ar y gyfran o'r arian sy'n cael ei dirprwyo ac sy'n cyrraedd y rheng flaen yn yr ysgolion.

257. O'r gwariant gros o £2.566 biliwn a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion, bernir bod 84.2% "wedi'i ddirprwyo" yn ystadegau Llywodraeth Cymru (2018-19). Mae hyn yn cynnwys £1.941 biliwn, sef cyfanswm Cyllidebau Ysgolion Unigol (ISB) yr awdurdodau lleol, a'r £219 miliwn o grantiau addysg neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru.

258. Felly, mae'r awdurdodau lleol yn dirprwyo'r rhan fwyaf o'r gwariant ar ysgolion i'r ysgolion eu hunain. Mae cyfanswm o £407 miliwn yn cael ei gadw gan yr awdurdodau lleol fel y nodir yn Nhabl 3 yn adran 3. Mae hyn yn cael ei rannu rhwng yr elfen ysgolion yng nghyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol a'r gyllideb Ysgolion sydd, ochr yn ochr â'r ISB, yn ffurfio'r tair haen o gyllideb y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddynodi gwariant iddyn nhw.

259. Y rheswm pam nad yw'r holl wariant ar ysgolion yn cael ei ddirprwyo yw bod awdurdodau lleol yn penderfynu ei bod yn well i rai gwasanaethau, er enghraifft cludiant o'r cartref i'r ysgol a rhywfaint o ddarpariaeth ADY, gael eu darparu a'u cyllido yn ganolog ganddyn nhw eu hunain a hynny am resymau effeithlonrwydd, arbedion maint neu am eu bod yn wasanaethau arbenigol neu ganolog yn y bôn.

260. Fel y dangosir yn Nhabl 2 yn adran 3, gwelwyd y gyfran o'r gwariant sy'n cael ei dirprwyo gan yr awdurdodau lleol i'r ysgolion yn codi o 75.0% yn 2010-11 i 84.2% yn 2018-19. Yn 2012, ymrwymodd llywodraeth leol i darged a osodwyd gan

Lywodraeth Cymru, sef dirprwyo 85% o'r holl gyllid ysgolion yn uniongyrchol i'r ysgolion erbyn 2014-15.

261. Mae'r cyllid y mae'r consortia rhanbarthol yn ei gael gan yr awdurdodau lleol at eu gwasanaethau gwella ysgolion o ddydd i ddydd wedi'i gynnwys yn y categori "Gwella Ysgolion" o fewn Cyllideb Addysg yr Awdurdodau Lleol sydd heb ei ddirprwyo (rhan o'r £22 miliwn fel y trafodir yn adran 12 a'u cofnodi yn Nhabl 3 yn adran 3).

262. Ystyrir bod y rhan fwyaf o lawer o'r arian grant y mae'r consortia yn ei ddsbarthu ar ran Llywodraeth Cymru yn gyllid wedi'i ddirprwyo. Cyfanswm yr arian grant a sianelwyd drwy'r consortia yn 2018-19 oedd £243 miliwn. Mae hyn yn cynnwys.

- **Grant Datblygu Disgyblion:** Mae'r consortia yn trosglwyddo'r rhan fwyaf o lawer o hyn (yr elfen eFSM o £87 miliwn) yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion ac yn rheoli'r gweddill (£4.6 miliwn ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal a phlant a fabwysiadwyd) eu hunain.
- **Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):** O 2018-19 ymlaen, cafodd casgliad o grantiau addysg eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, yr oedd rhai ohonynt eisoes yn cael eu dosbarthu drwy'r consortia, eu symleiddio a'u pecynnu mewn un RCSIG. Cyfanswm yr RCSIG yn 2018-19 oedd £152 miliwn, ac o hynny Grant Cynnal Addysg (IEG) oedd £118 miliwn.¹⁸²

263. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod amod bod rhaid i'r consortia ddirprwyo o leiaf 80% o'r Grant Gwella Addysg i'r ysgolion.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

264. Galwodd yr undebau athrawon am ddirprwyo cymaint â phosibl o arian i'r rheng flaen (i'r ysgolion eu hunain). Dyna brif fyrddwn llythyr agored yr ASCL at y Gweinidog Addysg ym mis Chwefror 2019, lle honnai'r ASCL hyn: "at least £450 million [o'r £2.6 biliwn sy'n cael ei ddyrannu i'r ysgolion] never gets to schools because it is retained by the local authorities or regional consortia".¹⁸³

265. Eglurodd yr ASCL yn eu dystiolaeth lafar fod y £450 miliwn yn cynnwys y £407 miliwn yng nghyllideb addysg yr awdurdodau lleol a gadwyd a'r gyllideb ysgolion, ynghyd â "a further £40-plus million that goes into the consortia and does not

¹⁸² Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg: 5 Rhagfyr 2018

¹⁸³ Llythyr gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru): 12 Chwefror 2019

come out to schools, either in terms of contributions from local authorities or grant funding”.¹⁸⁴

266. Mae'r cyfraddau dirprwyo wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Felly, mae'r £407 miliwn (2018-19) y mae'r ASCL yn dweud nad yw'n cyrraedd yr ysgolion yn gyfran is o gyfanswm yr arian ar gyfer ysgolion nag yn y gorffennol. At hynny, doedd y rhanddeiliaid eraill ddim o reidrwydd yn cytuno â'r ASCL y dylai'r arian hwn gael ei ystyried fel arian sydd heb gael ei wario ar ysgolion gan gydnabod bod angen i ryw elfen o wariant gael ei rheoli gan yr awdurdod lleol. Dywedodd yr NASUWT wrthon ni:

“... remembering that there are lots of small, rural primary schools—some have got two or three teachers in them, who, otherwise, without the support of the local authority, just would not be able to manage. So, on the one hand, when you've got—I'm going to say this—big secondary schools saying, 'Give us all the money, we can make the right decisions', yes, maybe they can, but that doesn't take into account those small schools who would not be able to manage if there weren't central services to help them run their schools. And that's all sorts of things, from HR and financial management to behaviour support.”¹⁸⁵

267. Ychwanegodd yr NASUWT ei bod yn gwneud synnwyr i'r awdurdodau lleol ddarparu rhai gwasanaethau oherwydd arbedion maint:

“When a primary school gets £9 a year to deal with legal matters, and you think, well, you can't even get a lawyer for 20 minutes for that. It's complete nonsense that you would delegate out, whereas, every now and then, they would need some support on a legal matter—it might be three or four, five years—but holding that money centrally then makes absolute sense. But also, it's things like support for the pupils, where those things are not evenly spread. So, delegating it out on an even basis across all schools is complete nonsense, frankly.”¹⁸⁶

268. Clywsom yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion y bydd yr awdurdodau lleol yn aml yn dirprwyo cyllid i'r ysgolion ac wedyn yn cynnig cyfle iddyn nhw brynu gwasanaethau yn ôl sy'n gallu cael eu darparu'n fwy effeithlon yn ganolog. Roedd yr ysgolion yn cydnabod bod hyn yn gweithio'n gymharol dda gan ei fod yn rhoi

¹⁸⁴ Ein dealltwriaeth ni yw bod y cyfraniad o £11 miliwn i'r consortia gan yr awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn y £407 miliwn a bod y rhan fwyaf o'r cyllid grant i'r consortia yn cael ei thrin fel pe bai wedi'i dirprwyo i'r ysgolion (y £219 miliwn y cyfeirir ato yn Nhabl 3 yn adran 3).

¹⁸⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 296\], 21 Chwefror 2019](#)

¹⁸⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 296\], 21 Chwefror 2019](#)

dewis iddynt ynghylch a ddylid ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r awdurdodau lleol ai peidio. Er hynny, dywedodd yr ASCL fod hyn yn chwyddo'r lefelau dirprwyo sy'n cael eu cofnodi ac yn gamarweiniol.¹⁸⁷

269. Dywedodd Llefarydd Cyllid CLILC:

“Obviously, there’s a decision to make whether a function is better co-ordinated at a local level or a school level, and a number of different considerations will come into that, and a number of different approaches that may make delegation rates seem higher or lower in some authorities, but it doesn’t necessarily mean that they’re doing it right or wrong.”¹⁸⁸

270. Ychwanegodd Prif Weithredwr CLILC:

“I think there’s an underlying principle there that decisions about how funding is allocated are best taken as close to the point of delivery as possible, which is why there is this drive to increase delegation rates, and there has been an increase over time. (...)

... there are some authorities—Gwynedd might be one, Ceredigion, Powys—where, because transport costs are disproportionately high, there are other elements of retained funding where authorities have statutory responsibilities to retain that funding. So, I can’t remember the figure, but I think it’s around 5 per cent that legally can’t be delegated. There are other areas where, for insurance and other issues, operating at scale and doing it centrally adds more value than delegating it to schools, and then, more locally, authorities will work with their schools and get some kind of agreement about what’s retained and what’s delegated to the schools. (...)

But I think it would be misleading to simplify the debate as being that delegating everything to the schools is a good thing, and retaining some element of funding is a bad thing.”¹⁸⁹

271. Rhoddodd y consortia rhanbarthol wybodaeth am eu hincwm a faint o’r grantiau y maent yn eu dosbarthu ar ran Llywodraeth Cymru sy’n cael ei ddirprwyo i’r ysgolion. Fel y soniwyd yn Adran 11 o’r adroddiad, mae nifer o ffrydiau

¹⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF 26 - ASCL \(Cymru\)](#)

¹⁸⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 92\], 20 Mawrth 2019](#)

¹⁸⁹ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 92\], 20 Mawrth 2019](#)

grant yn ffurfio'r RCSIG, nad yw'r rhanddeiliaid yn eu deall yn dda ar y cyfan ac mae yna bryderon ynghylch diffyg tryloywder.

272. Er hynny, mae pob un o'r consortia yn bodloni'r amod bod o leiaf 80% o'r EIG, sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r RCSIG, yn gorfod cael ei ddirprwyo i'r ysgolion. Mae Tabl 5 isod yn dangos faint sy'n cael ei ddirprwyo gan bob consortiwm:

Tabl 5: Grantiau addysg Llywodraeth Cymru a ddsberthir gan y consortia rhanbarthol

	Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG)		Grant Datblygu Disgyblion (PDG)		
	£ Cyfanswm	Y ganran a ddirprwywyd i'r ysgolion	£ Cyfanswm	Y ganran a ddirprwywyd i'r ysgolion	£ Incwm RCSIG/PDG heb ei ddirprwyo i'r ysgolion
GWE (Gogledd)	38,330,308	91%	17,868,550	99%	3,533,746
ERW (Y De-orllewin a'r Canolbarth)	47,645,467	84%	24,392,333	97%	8,574,860
CSC (Consortiwm Canol y De)	46,280,755	94%	31,501,321	99%	3,101,750
EAS (Y De-ddwyrain)	32,232,991	91%	19,523,375	99%	2,993,762

Ffynhonnell: Gwybodaeth a ddarparwyd gan y consortia rhanbarthol, Mawrth 2019¹⁹⁰

Nodiadau:

i) Mae'n ofynnol i'r consortia drosglwyddo'r elfen eFSM o'r PDG i'r ysgolion yn ei chyfanrwydd. Dyma'r rhan fwyaf o lawer o'r PDG. Yr elfen ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant a fabwysiadwyd yw'r gweddill.

ii) Mae'n ofynnol i'r consortia ddirprwyo o leiaf 80% o'r Grant Gwella Addysg i'r ysgolion. Yr EIG sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r RCSIG.

iii) Mae pob consortiwm hefyd yn cael £100,000 o gyllid PDG i cyllido eu swydd i Gynghorydd PDG Arweiniol. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y ffigurau yn y tabl hwn.

273. Pan ofynnwyd pam mae ERW yn dirprwyo cyfran is o'r arian grant y mae'n ei reoli i ysgolion na'r consortia eraill, nododd eu Rheolwr Gyfarwyddwr gyd-destun lle mae'r aelod-awdurdodau yn cyfrannu'n sylweddol is at ei gostau rhedeg nag yn y tri rhanbarth arall:

“In ERW, we notionally would have a £250,000 local authority contribution, which is a few million less than some other regions, because of the way the model developed in ERW. What then happens,

¹⁹⁰ [Tystiolaeth ysgrifenedig, SF.FI.03.-Y Consortia Rhanbarthol](#)

for example, is that there is funding for leadership programmes. ERW, from the grant, has to fund somebody to lead on leadership, professional learning and other aspects. So, many of what would be considered core functions of the other three regions are actually funded through grant in ERW because of the legacy of where we are.”¹⁹¹

274. Pan ofynnwyd pa bryd y byddai ERW yn gweithredu mewn cyd-destun tebyg i'r rhanbarthau eraill, dywedodd eu Rheolwr Gyfarwyddwr:

“That’s part of the ongoing reform journey that ERW is committed to, so that we get to a point where there is a better balance between core funding and grant funding, so that schools receive more of the delegated funding. (...)

...The funding as well is distributed via the local authorities, and there’s differentiated delegation there. So, the two things in combination create the sort of variance you’re referring to.”¹⁹²

275. Fel y nodwyd yn adran 11 o'r adroddiad hwn, barn gyffredinol y consortia yw bod yr arian grant y maent yn gyfrifol am ei ddosbarthu yn helpu'r ysgolion i gyflawni diwygiadau addysg Llywodraeth Cymru. Dywedodd EAS fod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl¹⁹³ wedi “helpu'n aruthrol” o ran nodi'n glir yr amcanion y mae gwaith y consortia wedi'i anelu atynt¹⁹⁴. Mae dyraniad RCSIG pob consortiwm oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cael ei ddadansoddi yn erbyn y pedwar amcan yn Cenhadaeth ein Cenedl. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr EAS wrthon ni:

“if the systems and structures are very clear, if the governance arrangements are very clear at regional level, if all partners, including school leaders and governors have a transparent view of what the funding is for, where it’s going, what the delegation rate is, and, most importantly, what the outcomes are going to be, what the impact of that is going to be, I think that funding methodology works well. Where it doesn’t work so well is where it lacks clarity of what the outcomes and impact need to be. And, over time, that has decreased because our

¹⁹¹ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 292], 20 Mawrth 2019

¹⁹² Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 292], 20 Mawrth 2019

¹⁹³ Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl

¹⁹⁴ Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 246], 20 Mawrth 2019

business plans go through quite hefty scrutiny at local level and national level.”¹⁹⁵

Safbwynt Llywodraeth Cymru

276. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthon ni fod ei swydd hi a'i blaenoriaeth hi, yn ychwanegol at bwysu am adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg, yn golygu “ensuring that as much money of that as possible finds its way to the front line”. Dywedodd hefyd mai un cwestiwn allweddol iddi oedd “are we maximising the resources that are finding their way into individual school budgets to allow headteachers to do what they need to do on the ground?”¹⁹⁶

277. Er hynny, tanlinellodd y Gweinidog Addysg hefyd y ffaith ei bod yn debygol mai cyllido gwasanaethau ar lefel yr awdurdod lleol yn hytrach na lefel yr ysgol oedd yn debyg o roi'r gwerth gorau am arian mewn rhai gwasanaethau:

“... that’s always one of the challenges, isn’t it? What provides greater efficiency, value for money, and issues around workload? (...)

... there are some voices that say all the money should go to schools—everything. But, actually, do we want schools being responsible for commissioning and purchasing and buying in or providing every single service that that school would need? That’s a huge workload issue, potentially, for headteachers. But, actually, if we have a very specialist service, is that more efficient, more cost effective, and presumably service effectiveness, is that better delivered at a regional level or at an LEA level? So, there’s always that conflict, isn’t there, about what is the right service to deliver in the right place in terms of making it a great service for the recipient and good value for money?”¹⁹⁷

278. Ychwanegodd y Gweinidog Addysg ei bod yn arbennig o awyddus i fonitro faint o arian grant addysg Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddirprwyo gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i'r ysgolion:

“I think I want bigger scrutiny on the delegation rates, especially for the grants that I’m responsible for, because I think there is a piece of work to be done there to clarify and to satisfy ourselves, on Welsh Government grants, how they are finding their way out of local education authorities and into individual schools and how they’re

¹⁹⁵ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 270\], 20 Mawrth 2019](#)

¹⁹⁶ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 5\], 3 Ebrill 2019](#)

¹⁹⁷ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 166\], 3 Ebrill 2019](#)

finding their way out of regional consortia and into individual schools. It might be something that the committee might want to recommend, but I personally am very keen on this issue. I'm very keen on establishing greater levels of transparency for that delegation rate, certainly for central Government grants that we are giving to both regional consortia and schools."¹⁹⁸

Ein barn ni

279. Fel y nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod yr hoffai'r undebau athrawon i gymaint â phosibl o arian gael ei ddirprwyo i'r ysgolion er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen. Er ein bod yn deall galwadau'r undebau yn hyn o beth, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ganolog.

280. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ASCL ynghylch y £407m nad yw yn eu barn nhw byth yn cyrraedd yr ysgolion am fod yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol yn ei gadw. Pe bai hyn yn wir, byddem yn bryderus iawn na fyddai cyfran mor fawr o gyllid yn cyrraedd yr ysgolion. Ond, fel y nodwyd eisoes, mae'n briodol i elfen o wariant gael ei rheoli ar sail ganolog, ac rydym yn derbyn y dystiolaeth a gyflwynwyd bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar ysgolion hyd yn oed os nad yw'n cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol iddyn nhw.

281. Er hynny, mae yna gwestiwn mawr ynglŷn â thryloywder y gwariant. Rydym yn credu felly y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n llawer fanylach i ba raddau mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion. Wrth wneud hyn, dylid cydnabod bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ganolog.

Argymhelliad 19. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro i ba raddau mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion. Wrth wneud hyn, dylid cydnabod bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ganolog.

282. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion yn ymwneud â'r modd y mae'r awdurdodau lleol yn dirprwyo cyllid i'r ysgolion ac wedyn yn cynnig cyfle iddyn nhw brynu gwasanaethau yn ôl. Mewn rhai achosion, mae hyn yn gweithio'n dda gan ei fod yn rhoi dewis i'r ysgol ynghylch prynu gwasanaeth gan yr awdurdod lleol, ei redeg ei hun neu ei sicrhau oddi wrth

¹⁹⁸ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 127\], 3 Ebrill 2019](#)

drydydd parti. Er hynny, mae'n bosibl y gallai hyn chwyddo'r cyfraddau dirprwyo trwy beri eu bod yn ymddangos yn uwch nag ydyn nhw. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod y cyfraddau dirprwyo sy'n cael eu cyhoeddi yn adlewyrchu'n gywir lefel yr arian sy'n cael ei ddirprwyo mewn gwirionedd ar gyfer gweithgareddau craidd yr ysgolion.

Argymhelliad 20. Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i effaith y broses lle mae ysgolion yn prynu gwasanaethau yn ôl oddi wrth yr awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau dirprwyo sy'n cael eu cyhoeddi yn adlewyrchu'n gywir lefel yr arian sy'n cael ei ddirprwyo mewn gwirionedd ar gyfer gweithgareddau craidd yr ysgolion.

283. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog Addysg yn arbennig o awyddus i fonitro faint o arian grant addysg Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddirprwyo i'r ysgolion gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r cyfraddau dirprwyo ar gyfer ei grantiau addysg neilltuedig bob amser er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen, a hynny at y dibenion a fwriadwyd.

Argymhelliad 21. Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro cyfraddau dirprwyo yn ofalus ar gyfer ei grantiau addysg neilltuedig ei hun er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen, a hynny at y dibenion a fwriadwyd.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
21 Chwefror 2019	<p>Tim Pratt, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL)</p> <p>Lee Cummins, Ysgol Emrys ap Iwan a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL)</p> <p>Rob Williams, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)</p> <p>Dean Taylor, Ysgol Gynradd Pentrepoeth a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon</p> <p>Tim Newbould, Ysgol Gynradd Gymunedol Penycae a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon</p> <p>Tim Cox, NASUWT</p> <p>David Evans, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)</p> <p>Dilwyn Roberts-Young, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)</p>
20 Mawrth 2019	<p>Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)</p> <p>Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)</p> <p>Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd</p> <p>Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen</p> <p>Paula Ham, Cyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru</p> <p>Debbie Hartevelde, Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De-ddwyrain Cymru</p> <p>Arwyn Thomas, GwE</p> <p>Geraint Rees, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)</p> <p>Esther Thomas, Consortiwm Canolbarth y De (CSC)</p>
3 Ebrill 2019	<p>Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg</p> <p>Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol</p> <p>Judith Cole, Llywodraeth Cymru</p> <p>Steve Davies, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad	Cyfeirnod
Unigolyn	SF 01
Unigolyn a Phennaeth	SF 02
Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Sir Benfro	SF 03
Unigolyn a Phennaeth	SF 04
Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg	SF 05
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	SF 06
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu Cyngor Sir Benfro	SF 07
Cyngor Gwynedd	SF 08
Comisiynydd Plant Cymru	SF 09
Cyngor Abertawe	SF 10
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	SF 11
Cyngor Sir Powys	SF 12
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru	SF 13
Unigolyn a Phennaeth	SF 14
Unigolyn a Phennaeth	SF 15
Unigolyn a Phennaeth	SF 16
Cyngor Caerdydd	SF 17
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Conwy Llanrwst	SF 18
Ysgol Gynradd Waun Wen	SF 19
Ysgol Gynradd Edwardsville a Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Merthyr Tudful	SF 20
Unigolyn	SF 21
Cyngor y Gweithlu Addysg	SF 22
Comisiynydd y Gymraeg	SF 23

Cyngor Bro Morgannwg	SF 24
Cadeirydd Fforwm Cyllideb Bro Morgannwg	SF 25
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)	SF 26
Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru	SF 27
Cyngor Sir Ceredigion	SF 28
Ysgol Penglais	SF 29
Y Mudiad Meithrin	SF 30
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon	SF 31
Unigolyn	SF 32
Ysgol Uwchradd Fitzalan	SF 33
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru	SF 34
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	SF 35
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	SF 36
NASUWT	SF 37

Gwybodaeth ychwanegol a gafwyd

Sefydliad	Cyfeirnod
Comisiynydd y Gymraeg	SF FI 01
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau	SF FI 02
Consortia Rhanbarthol	SF FI 03
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	SF FI 04
Llywodraeth Cymru	SF FI 05

Atodiad C: Dadansoddiad o'r Aseiad wedi'i seilio ar Ddangosyddion (IBA) i'r awdurdodau lleol, dyraniadau'r gyllideb addysg, gwariant fesul disgybl a safonau ysgol

Mae'r atodiad hwn yn rhoi rhywfaint o ddadansoddiad o'r canlynol:

- Y swm o arian y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo bod ar bob awdurdod lleol ei angen er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth addysg, fel y'i mesurir gan yr Aseiad tybiannol wedi'i seilio ar Ddangosyddion (IBA) i bob awdurdod lleol yn y Setliad Llywodraeth Leol sydd heb ei neilltuo (sylwch nad oes bwriad i'r rhain fod yn dargedau gwario);
- Y swm y mae pob awdurdod lleol yn ei ddyrannu i addysg mewn gwirionedd, heb gynnwys grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- Y swm y mae pob awdurdod lleol yn ei ddyrannu i addysg fesul disgybl;
- Y swm a ddarperir yn benodol ar gyfer ysgolion ym mhob ardal awdurdod lleol fesul disgybl, gan gynnwys grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- Arwydd o'r safonau ysgol ym mhob awdurdod lleol, fel y'u mesurir yn ôl y gyfran o ysgolion sy'n cael eu categoreiddio fel naill ai Gwyrdd neu Felyn (y ddau gategori uchaf o gategoriâu ysgolion cenedlaethol Llywodraeth Cymru); a
- Dadansoddiad o'r gwariant ar ysgolion o'i gymharu â safonau ysgolion pob awdurdod lleol.

Gwariant net ar addysg (yn ymwneud â Thabl A1)

Er bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio nad targedau gwario mo'r IBAs, mae hi'n cyflwyno data yn ei datganiad ystadegol blynyddol ar wariant yr awdurdodau lleol ar addysg, ochr yn ochr â'u IBA addysg yn setliad llywodraeth leol. Gan hynny, mae gwariant o'i gymharu â'r IBA yn cael ei ystyried ar sail y gwariant ar addysg yn gyffredinol yn hytrach na'r gwariant ar ysgolion yn benodol. Nid yw'r ystyriaeth yn cynnwys grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru ychwaith, gan fod yr arian hwnnw'n cael ei ddsbarthu y tu allan i setliad llywodraeth leol.

Cyflwynir yr wybodaeth hon yn Nhabl A1, sydd â chodau lliw i ddangos:

- A yw IBA yr awdurdod lleol fesul disgybl (ac felly lefel y cyllid a gânt gan Lywodraeth Cymru) yn uwch ynteu'n is na chyfartaledd Cymru;
- a yw'r cyllid y mae awdurdod lleol yn ei ddyrannu i addysg yn uwch ynteu'n is na'i IBA;
- a yw'r gwariant addysg net sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdod lleol i bob disgybl yn uwch ynteu'n is na chyfartaledd Cymru.

Tabl A1: Gwariant refeniw net yr awdurdodau lleol ar addysg o'i gymharu â'u Hasesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA)

2018-19	Nifer y disgyblion (FTE) (i)	Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion		Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion Addysg (IBA) £000 (ii)	Gwariant refeniw net a gyllidebwyd ar gyfer addysg £000 (iii)	Gwariant addysg refeniw net a gyllidebwyd uwchlaw'r IBA £ (iv)	Gwariant addysg refeniw net a gyllidebwyd uwchlaw'r IBA (iv)	Safle yn y gwariant addysg refeniw net a gyllidebwyd uwchlaw'r IBA (iv)	Gwariant addysg refeniw net a gyllidebwyd, £	Safle yn y gwariant refeniw net a gyllidebwyd, fesu disgybl	2018-19
		Safle yn yr IBA Addysg fesul disgybl (ii)	Safle yn yr IBA Addysg fesul disgybl (ii)								
Ynys Môn	9,409	5,541	2	52,138	48,493	-3,645	-7.0%	22	5,154	10	Ynys Môn
Gwynedd	16,509	5,466	4	90,231	91,164	932	1.0%	12	5,522	4	Gwynedd
Conwy	15,346	5,083	11	77,997	80,894	2,897	3.7%	8	5,271	7	Conwy
Sir Ddinbych	15,105	5,020	13	75,831	82,410	6,579	8.7%	3	5,456	5	Sir Ddinbych
Sir y Fflint	22,539	4,972	14	112,060	108,242	-3,818	-3.4%	21	4,802	19	Sir y Fflint
Wrecsam	18,810	5,063	12	95,230	95,277	47	0.0%	14	5,065	14	Wrecsam
Powys	16,600	5,755	1	95,529	95,918	389	0.4%	13	5,778	2	Powys
Ceredigion	9,405	5,538	3	52,087	52,761	674	1.3%	11	5,610	3	Ceredigion
Sir Benfro	16,896	5,265	6	88,963	87,276	-1,687	-1.9%	18	5,165	9	Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin	27,029	5,112	10	138,167	134,069	-4,098	-3.0%	20	4,960	17	Sir Gaerfyrddin
Abertawe	34,274	4,854	16	166,370	169,363	2,993	1.8%	10	4,941	18	Abertawe
Castell-nedd Port Talbot	19,905	5,214	7	103,794	103,481	-313	-0.3%	16	5,199	8	Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr	22,920	4,502	21	103,180	108,208	5,027	4.9%	7	4,721	20	Pen-y-bont ar Ogwr
Bro Morgannwg	21,862	4,432	22	96,899	99,990	3,091	3.2%	9	4,574	21	Bro Morgannwg
Caerdydd	52,437	4,610	19	241,750	262,409	20,659	8.5%	4	5,004	15	Caerdydd
Rhondda Cynon Taf	38,215	4,761	18	181,942	194,529	12,586	6.9%	5	5,090	13	Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful	8,736	4,908	15	42,875	47,478	4,603	10.7%	1	5,435	6	Merthyr Tudful
Caerffili	26,922	5,134	9	138,218	137,991	-227	-0.2%	15	5,126	12	Caerffili
Blaenau Gwent	8,736	5,398	5	47,159	51,274	4,115	8.7%	2	5,869	1	Blaenau Gwent
Torfaen	14,313	4,838	17	69,251	73,714	4,463	6.4%	6	5,150	11	Torfaen
Sir Fynwy	11,440	5,140	8	58,806	57,150	-1,656	-2.8%	19	4,996	16	Sir Fynwy
Casnewydd	24,817	4,578	20	113,606	111,937	-1,669	-1.5%	17	4,510	22	Casnewydd
Cymru	452,220	4,958		2,242,085	2,294,026	51,941	2.3%		5,073		Cymru

Ffynhonnell: Niferoedd disgyblion o StatsCymru, [Cyllidebau ysgol dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl awdurdod](#); IBA a gwariant net a gyllidebwyd o ddatganiad ystadegol Llywodraeth Cymru, [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion](#); cyfrifiadau gan y Gwasanaeth Ymchwil yw'r lleill.

Nodiadau ar Dabl A1:

i) Mae niferoedd disgyblion yn rhifau cyfwerth ag amser llawn (CALI), fel y'u defnyddir i bennu cyllideb pob ysgol trwy fformiwla cyllideb ysgolion yr awdurdod perthnasol. Maent yn wahanol i niferoedd disgyblion eraill yn y cyfrifiad ysgol blynyddol sy'n cofnodi nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad ym mis Ionawr bob blwyddyn.

ii) Dyma swm y ddau sector IBA Addysg – “Gwasanaethau Ysgo” ac “Addysg Arall”, yn Setliad Llywodraeth Leol.

iii) Mae hyn yn net o grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru fel y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r Grant Gwella Addysg (EIG).

iv) Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio mai mater i'r awdurdodau lleol, fel cyrff etholedig sy'n atebol yn ddemocrataidd, yw penderfynu sut i wario'u cyllid heb ei neilltuo ac nad yw Aseidiadau Gwariant Safonol (SSAs) ac Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) yn dargedau ac na ddylid eu trin felly.

v) Mae lliw gwyrdd wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae lliw coch wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn is na chyfartaledd Cymru.

Gwariant gros ar ysgolion (yn ymwneud â Thabl A2)

Er bod datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwariant addysg net pob awdurdod lleol o'i gymharu â'i IBA, y gwariant gros ar ysgolion yw prif ffocws y datganiad. Mae'r ffigurau gros yn cynnwys cyllid o grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru, a'r mwyaf o'r rhain yw'r Grant Gwella Addysg (EIG) a'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG). Mae'r EIG ei hun yn rhan o'r grant wedi'i becynnu sy'n mynd drwy'r consortia rhanbarthol, Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG).

Mae Tabl A2 isod yn rhoi'r gwariant gros a gyllidebwyd gan bob awdurdod lleol fesul disgybl gan osod y rhain yn eu trefn. Mae'r Tabl wedi'i liwio i ddangos a yw gwariant gros yr awdurdod lleol ar ysgolion yn uwch ynteu'n is na chyfartaledd Cymru gyfan. Sylwch fod hyn yn cael ei ddylanwadu gan sut mae IBA pob awdurdod lleol fesul disgybl yn cymharu ag awdurdodau eraill ac i ba raddau y maent yn gwario mwy neu lai na'r IBA ar addysg (mae penderfyniadau ar flaenoriaethu gwasanaethau a lefel y dreth gyngor y maen nhw'n ei gosod yn effeithio ar yr olaf).

Tabl A2: Gwariant gros awdurdodau lleol ar ysgolion

2018-19	Nifer y disgyblion (FTE) (i)	Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion £000 (ii)	Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion, fesul disgybl £ (ii)	Safle yn y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion, fesul disgybl (ii)
Ynys Môn	9,409	54,581	5,801	8
Gwynedd	16,509	100,390	6,081	4
Conwy	15,346	91,399	5,956	6
Sir Ddinbych	15,105	91,239	6,041	5
Sir y Fflint	22,539	121,732	5,401	19
Wrecsam	18,810	103,424	5,499	18
Powys	16,600	107,162	6,456	1
Ceredigion	9,405	58,773	6,249	3
Sir Benfro	16,896	97,453	5,768	10
Sir Gaerfyrddin	27,029	150,638	5,573	15
Abertawe	34,274	188,729	5,506	17
Castell-nedd Port Talbot	19,905	114,787	5,772	9
Pen-y-bont ar Ogwr	22,920	121,624	5,306	20
Bro Morgannwg	21,862	111,643	5,107	22
Caerdydd	52,437	300,156	5,724	12
Rhondda Cynon Taf	38,215	219,018	5,731	11
Merthyr Tudful	8,736	50,934	5,830	7
Caerffili	26,922	152,384	5,660	14
Blaenau Gwent	8,736	55,522	6,355	2
Torfaen	14,313	81,404	5,687	13
Sir Fynwy	11,440	63,512	5,552	16
Casnewydd	24,817	129,845	5,232	21
Cymru	452,220	2,566,450	5,675	

Ffynhonnell: Niferoedd disgyblion o StatsCymru, [Cyllidebau ysgol dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl awdurdod](#); gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion o ddatganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion](#).

Nodiadau:

i) Mae niferoedd disgyblion yn rhifau cyfwerth ag amser llawn (CALI), fel y'u defnyddir i bennu cyllideb pob ysgol trwy fformiwla cyllideb ysgolion yr awdurdod perthnasol. Maent yn wahanol i niferoedd disgyblion eraill yn y cyfrifiad ysgol blynyddol sy'n cofnodi nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad ym mis Ionawr bob blwyddyn.

ii) Mae'r ffigurau gros hyn yn cynnwys grantiau neilltuedig oddi wrth Lywodraeth Cymru fel y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r Grant Gwella Addysg (EIG).

iii) Mae lliw gwyrdd wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae lliw coch wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn is na chyfartaledd Cymru.

Dadansoddiad cryno (yn ymwneud â Thabl A3)

Mae Tabl A3 yn cyfuno'r wybodaeth a gyflwynir yn Nhablau A1 ac A2 yn un tabl. Wrth wneud hyn, mae'n ceisio crynhoi sefyllfa gymharol yr awdurdodau lleol yng Nghymru o ran y canlynol:

- A ydyn nhw'n cael cyllid uwch na'r cyfartaledd fesul disgybl oddi wrth Llywodraeth Cymru (drwy'r IBA);
- A ydyn nhw'n dyrannu mwy na'u cyfrifiad IBA tybiannol i addysg;
- A ydyn nhw'n gwario mwy ynteu llai na chyfartaledd Cymru fesul disgybl ar addysg, ac eithrio grantiau Llywodraeth Cymru.
- A ydyn nhw'n gwario mwy ynteu llai na chyfartaledd Cymru fesul disgybl ar ysgolion, gan gynnwys grantiau Llywodraeth Cymru.

(Defnyddir "cyfartaledd" yma i olygu ffigur Cymru gyfan.)

Safonau ysgol (yn ymwneud â Thablau A4-A6)

Mae Tabl A4 yn rhoi data ar y gyfran o ysgolion cynradd, y gyfran o ysgolion uwchradd a'r gyfran o ysgolion cynradd ac uwchradd ar y cyd sydd yn y categori Gwyrdd neu Felyn. Mae [System Genedlaethol Categori Ysgolion](#) Llywodraeth Cymru yn categoreiddio pob ysgol mewn un o bedwar categori lliw: Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch. Nod y system yw nid labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair ond nodi lefel yr her a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn gwella. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei chanllawiau fod y system yn ceisio dangos pa mor dda y mae ysgol yn perfformio.

Mae Tabl A5 yn cyflwyno data categori safonau ysgolion pob awdurdod lleol o'i gymharu â threfn y gwariant. Mae Tabl A6 yn dangos yr un data ond yn y cyfeiriad arall.

Tabl A3: Dadansoddiad cryno o Asesiad wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBA) yr awdurdodau lleol, dyraniadau'r gyllideb ar gyfer addysg, a gwariant fesul disgybl

2018-19		Yn derbyn IBA fesul disgybl uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru	Yn dyrannu mwy na'u IBA	Yn gwario mwy fesul disgybl na'r cyfartaledd yng Nghymru (NET ADDYSG)	Yn gwario mwy fesul disgybl na'r cyfartaledd yng Nghymru (GROS ADDYSG)
Mae'r IBA o Lywodraeth Cymru yn llai na'r cyfartaledd ond dyrennir mwy na'r IBA ac mae'r gwariant yn uwch na'r cyfartaledd fesul disgybl.	Rhondda Cynon Taf	NAC YDYW	YES	YES	YES
	Merthyr Tudful	NAC YDYW	YES	YES	YES
	Torfaen	NAC YDYW	YES	YES	YES
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn llai na'r cyfartaledd ond dyrennir mwy na'r IBA. Mae gwariant net ar addysg fesul disgybl ychydig yn llai na'r cyfartaledd, ond mae gwariant gros ar ysgolion fesul disgybl ychydig yn fwy na'r cyfartaledd.	Caerdydd	NAC YDYW	YDYW	NAC YDYW	YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, dyrennir mwy na'r IBA, ac mae gwariant fesul disgybl yn fwy na'r cyfartaledd.	Gwynedd	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW
	Conwy	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW
	Sir Ddinbych	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW
	Powys	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW
	Ceredigion	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW
Blaenau Gwent	YDYW	YDYW	YDYW	YDYW	
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, dyrennir llai na'r IBA, ac mae gwariant fesul disgybl yn fwy na'r cyfartaledd.	Ynys Môn	YDYW	NAC YDYW	YDYW	YDYW
	Sir Benfro	YDYW	NAC YDYW	YDYW	YDYW
	Castell-nedd Port Talbot	YDYW	NAC YDYW	YDYW	YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, dyrennir ychydig yn llai na'r IBA, ond mae'r gwariant fesul disgybl ar gyfer addysg net o grant iau yn fwy na'r cyfartaledd, ond yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion gros yn cynnwys grant iau.	Caerffili	YDYW	NAC YDYW	YDYW	NAC YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn is na'r cyfartaledd, dyrennir mwy na'r IBA ond mae'r gwariant yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd fesul disgybl.	Abertawe	NAC YDYW	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
	Pen-y-bont ar Ogwr	NAC YDYW	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd, dyrennir mwmryn yn fwy na'r IBA ond mae'r gwariant fesul disgybl yn is na'r cyfartaledd.	Bro Morgannwg	NAC YDYW	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
	Wrecsam	YDYW	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn is na'r cyfartaledd, mae gwariant yn llai na'r IBA ac mae'r gwariant fesul disgybl yn is na'r cyfartaledd.	Casnewydd	NAC YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
Mae'r IBA gan Lywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd ond dyrennir llai na'r IBA ac mae gwariant fesul disgybl yn is na'r cyfartaledd.	Sir Gaerfyrddin	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
	Sir y Fflint	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW
	Sir Ffnwy	YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW	NAC YDYW

Ffynonellau a Nodiadau: Gweler Tablau A1 ac A2. (Defnyddir y term "cyfartaledd" i olygu ffigur Cymru gyfan.)

Tabl A4: Y gyfran o ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gwyrdd neu Felyn ym mhob awdurdod lleol

2018-19	Cyfran yr ysgolion cynradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Safle yng nghyfran yr ysgolion cynradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Cyfran yr ysgolion uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Safle yng nghyfran yr ysgolion uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Safle yng nghyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	2018-19
Ynys Môn	88.1%	12	100.0%	1	89.4%	8	Ynys Môn
Gwynedd	95.3%	5	71.4%	10	92.0%	6	Gwynedd
Conwy	90.6%	9	71.4%	10	88.3%	9	Conwy
Sir Ddinbych	97.8%	3	75.0%	9	94.4%	4	Sir Ddinbych
Sir y Fflint	95.3%	6	81.8%	7	93.3%	5	Sir y Fflint
Wrecsam	91.4%	8	55.6%	13	86.6%	13	Wrecsam
Powys	78.8%	18	45.5%	19	74.7%	18	Powys
Ceredigion	78.6%	19	42.9%	20	73.5%	21	Ceredigion
Sir Benfro	71.4%	22	50.0%	15	68.8%	22	Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin	78.1%	20	100.0%	1	80.6%	15	Sir Gaerfyrddin
Abertawe	95.0%	7	100.0%	1	95.7%	3	Abertawe
Castell-nedd Port Talbot	98.2%	2	100.0%	1	98.4%	1	Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr	89.6%	11	77.8%	8	87.7%	10	Pen-y-bont ar Ogwr
Bro Morgannwg	100.0%	1	87.5%	5	98.1%	2	Bro Morgannwg
Caerdydd	87.8%	14	83.3%	6	87.1%	11	Caerdydd
Rhondda Cynon Taf	89.7%	10	70.6%	12	86.8%	12	Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful	86.4%	15	50.0%	15	80.8%	14	Merthyr Tudful
Caerffili	85.1%	17	25.0%	21	76.7%	17	Caerffili
Blaenau Gwent	85.7%	16	50.0%	15	80.0%	16	Blaenau Gwent
Torfaen	88.0%	13	16.7%	22	74.2%	19	Torfaen
Sir Fynwy	76.7%	21	50.0%	15	73.5%	20	Sir Fynwy
Casnewydd	97.6%	4	55.6%	13	90.2%	7	Casnewydd
Cymru	88.4%		69.4%		85.7%		Cymru

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [System genedlaethol ar gyfer categorio ysgolion: categorïau cefnogaeth, Ionawr 2019](#). Nodiadau: Gweler Tablau A5 ac A6

Tabl A5: Gwariant yr awdurdodau lleol ar ysgolion o'i gymharu â safonau ysgolion (yn nhrefn gwariant)

2018-19	Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion, fesul disgybl £	Safle yng ngwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion, fesul disgybl	Cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Safle yng nghyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	2018-19
Powys	6,456	1	74.7%	18	Powys
Blaenau Gwent	6,355	2	80.0%	16	Blaenau Gwent
Ceredigion	6,249	3	73.5%	21	Ceredigion
Gwynedd	6,081	4	92.0%	6	Gwynedd
Sir Ddinbych	6,041	5	94.4%	4	Sir Ddinbych
Conwy	5,956	6	88.3%	9	Conwy
Merthyr Tudful	5,830	7	80.8%	14	Merthyr Tudful
Ynys Môn	5,801	8	89.4%	8	Ynys Môn
Castell-nedd Port Talbot	5,772	9	98.4%	1	Castell-nedd Port Talbot
Sir Benfro	5,768	10	68.8%	22	Sir Benfro
Rhondda Cynon Taf	5,731	11	86.8%	12	Rhondda Cynon Taf
Caerdydd	5,724	12	87.1%	11	Caerdydd
Torfaen	5,687	13	74.2%	19	Torfaen
Caerffili	5,660	14	76.7%	17	Caerffili
Sir Gaerfyrddin	5,573	15	80.6%	15	Sir Gaerfyrddin
Sir Fynwy	5,552	16	73.5%	20	Sir Fynwy
Abertawe	5,506	17	95.7%	3	Abertawe
Wrecsam	5,499	18	86.6%	13	Wrecsam
Sir y Fflint	5,401	19	93.3%	5	Sir y Fflint
Pen-y-bont ar Ogwr	5,306	20	87.7%	10	Pen-y-bont ar Ogwr
Casnewydd	5,232	21	90.2%	7	Casnewydd
Bro Morgannwg	5,107	22	98.1%	2	Bro Morgannwg
Cymru	5,675		85.7%		Cymru

Ffynhonnell: Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion o ddatganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar ysgolion](#). Data categoreiddio o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, [System genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion: categorïau cefnogaeth](#), Ionawr 2019

Nodiadau:

i) O dan system Llywodraeth Cymru [System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion](#), mae ysgolion yn cael eu categoreiddio mewn un o bedwar categori lliw: Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai nod categoreiddio yw rhoi strwythur clir ar gyfer adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n cymryd i ystyriaeth pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her y mae arni eu hangen i wneud yn well. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw'r system yn ymwneud â labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair.

ii) Mae'r ffigurau ar gyfer y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn cyfeirio at yr holl ysgolion, sy'n cynnwys ysgolion canol ac ysgolion arbennig yn ogystal â'r ysgolion cynradd ac uwchradd y mae'r data ar categoreiddio yn ymwneud â nhw.

iii) Mae lliw gwyrdd wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae lliw coch wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn is na chyfartaledd Cymru.

Tabl A6: Gwariant yr awdurdodau lleol ar ysgolion o'i gymharu â safonau ysgolion (yn nhrefn safonau'r ysgolion)

2018-19	Cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Safle yng nghyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghategori Gwyrdd neu Felyn	Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion, fesul disgybl £	Safle yng ngwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion, fesul disgybl	2018-19
Castell-nedd Port Talbot	98.4%	1	5,772	9	Castell-nedd Port Talbot
Bro Morgannwg	98.1%	2	5,107	22	Bro Morgannwg
Abertawe	95.7%	3	5,506	17	Abertawe
Sir Ddinbych	94.4%	4	6,041	5	Sir Ddinbych
Sir y Fflint	93.3%	5	5,401	19	Sir y Fflint
Gwynedd	92.0%	6	6,081	4	Gwynedd
Casnewydd	90.2%	7	5,232	21	Casnewydd
Ynys Môn	89.4%	8	5,801	8	Ynys Môn
Conwy	88.3%	9	5,956	6	Conwy
Pen-y-bont ar Ogwr	87.7%	10	5,306	20	Pen-y-bont ar Ogwr
Caerdydd	87.1%	11	5,724	12	Caerdydd
Rhondda Cynon Taf	86.8%	12	5,731	11	Rhondda Cynon Taf
Wrecsam	86.6%	13	5,499	18	Wrecsam
Merthyr Tudful	80.8%	14	5,830	7	Merthyr Tudful
Sir Gaerfyrddin	80.6%	15	5,573	15	Sir Gaerfyrddin
Blaenau Gwent	80.0%	16	6,355	2	Blaenau Gwent
Caerffili	76.7%	17	5,660	14	Caerffili
Powys	74.7%	18	6,456	1	Powys
Torfaen	74.2%	19	5,687	13	Torfaen
Sir Fynwy	73.5%	20	5,552	16	Sir Fynwy
Ceredigion	73.5%	21	6,249	3	Ceredigion
Sir Benfro	68.8%	22	5,768	10	Sir Benfro
Cymru	85.7%		5,675		Cymru

Ffynhonnell: Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion o ddatganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar ysgolion](#). Data categoreiddio o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, [System genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion: categorïau cefnogaeth](#), Ionawr 2019

Nodiadau:

i) O dan system Llywodraeth Cymru [System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion](#), mae ysgolion yn cael eu categoreiddio mewn un o bedwar categori lliw: Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai nod categoreiddio yw rhoi strwythur clir ar gyfer adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n cymryd i ystyriaeth pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her y mae arni eu hangen i wneud yn well. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw'r system yn ymwneud â labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair.

ii) Mae'r ffigurau ar gyfer y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn cyfeirio at yr holl ysgolion, sy'n cynnwys ysgolion canol ac ysgolion arbennig yn ogystal â'r ysgolion cynradd ac uwchradd y mae'r data ar gategoreiddio yn ymwneud â nhw.

iii) Mae lliw gwyrdd wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae lliw coch wedi'i ddefnyddio i ddangos ble mae'r gwerthoedd yn is na chyfartaledd Cymru.

Atodiad D: Data ar gronfeydd wrth gefn yr ysgolion

Mae'r tablau yn yr atodiad hwn yn darparu gwybodaeth atodol i Adran 9 yn adroddiad y Pwyllgor.

Mae tabl A7 yn dangos y canlynol ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer pob ardal awdurdod lleol:

- Nifer yr ysgolion yn dal cronfeydd wrth gefn cadarnhaol;
- Nifer yr ysgolion yn dal cronfeydd wrth gefn negyddol;
- Nifer yr ysgolion yn dal trothwyon cadarnhaol uwchlaw'r trothwyon statudol lle caiff yr awdurdod lleol ymyrryd
- Nifer yr ysgolion yn dal cronfeydd wrth gefn cadarnhaol ar lefel 10 y cant uwchlaw'r gyllideb y mae'r awdurdod lleol wedi'i rhoi iddynt.

Mae tabl A8 yn dangos yr un wybodaeth â [chyfran yr ysgolion yn yr ardal awdurdod lleol](#).

Nodiadau ar gyfer tablau A7 ac A8:

Y trothwyon statudol y cyfeirir atynt yw'r trothwyon a nodir yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 lle gall awdurdodau lleol ymyrryd, naill ai drwy roi cyfarwyddid i ysgol wario'r balans uwchlaw'r trothwy neu fel arall adennill yr arian. Mae hyn yn £50,000 i ysgolion cynradd a £100,000 i ysgolion uwchradd.

Mae cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd sy'n cadw cronfeydd uwchlaw'r trothwy statudol 4 yn uwch na'r hyn a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn "[Reserves held by schools at 31 March 2018](#)", gan fod y data ar StatsCymru wedi ei ddiwygio yn dilyn cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwnnw. Gan hynny, mae'r 497 a ddyfynnwyd gan y Gweinidog Addysg mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Tachwedd 2018 yn wahanol i'r ffigur a gynhwysir yn y tabl hwn (501). Nid yw'n glir a yw hwn yn achos o dalgrynnu ynteu a yw hyn yn ymwneud â'r newidiadau i'r set ddata ar StatsCymru ar ôl cyhoeddi'r datganiad ystadegol.

Mae'r cyfrifiadau o gronfeydd wrth gefn cadarnhaol uwchlaw 10% yn cael eu rhoi fel cyfran o'r dyraniad cyllideb y mae ysgol wedi ei dderbyn gan yr awdurdod lleol yn hytrach na gwariant gwirioneddol yr ysgol.

Tabl A7: Nifer yr ysgolion sy'n dal cronfeydd wrth gefn cadarnhaol a negyddol, yn ôl awdurdod lleol, ar 31 Mawrth 2018

Nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd:

ar 31 Mawrth 2018	Cronfeydd Positif uwchlaw'r trothwy statudol				Cronfeydd Negyddol ²				Cronfeydd Positif				Cronfeydd Positif uwchlaw 10% (AALI)			
	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total
Ynys Môn	11	2	0	13	2	1	0	3	41	4	0	45	8	0	0	8
Gwynedd	15	4	1	20	5	4	0	9	88	10	1	99	21	1	1	23
Conwy	21	4	0	25	3	1	0	4	50	6	0	56	2	0	0	2
Sir Ddinbych	8	1	0	9	14	6	1	21	32	1	0	33	9	0	0	9
Sir y Fflint	20	0	0	20	3	6	0	9	61	5	0	66	6	0	0	6
Wrecsam	17	2	0	19	4	5	0	9	54	4	0	58	1	0	0	1
Powys	20	2	0	22	14	7	1	22	65	4	0	69	15	1	0	16
Ceredigion	9	2	2	13	1	1	1	3	38	3	2	43	15	0	0	15
Sir Benfro	9	2	0	11	5	4	0	9	53	4	0	57	11	0	0	11
Sir Gaerfyrddin	18	6	0	24	28	5	0	33	69	7	0	76	10	1	0	11
Abertawe	50	9	0	59	2	4	0	6	77	10	0	87	11	0	0	11
Castell-nedd Port Talbot	24	3	0	27	11	2	1	14	44	5	1	50	13	0	0	13
Pen-y-bont ar Ogwr	7	1	0	8	17	4	0	21	31	5	0	36	1	0	0	1
Bro Morgannwg	21	2	0	23	2	0	1	3	41	7	0	48	1	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	33	5	1	39	4	9	0	13	98	7	1	106	10	0	1	11
Merthyr Tudful	14	3	0	17	0	0	0	0	22	4	0	26	0	0	0	0
Caerffili	24	5	1	30	13	6	0	19	60	6	1	67	4	0	1	5
Blaenau Gwent	9	1	0	10	4	1	2	7	15	1	0	16	1	0	0	1
Torfaen	15	1	0	16	2	3	0	5	24	3	0	27	2	0	0	2
Sir Fynwy	10	1	0	11	8	3	0	11	22	1	0	23	3	0	0	3
Casnewydd	19	5	0	24	0	2	0	2	42	7	0	49	5	1	0	6
Caerdydd	57	4	0	61	4	5	0	9	94	13	0	107	4	0	0	4
Cyfanswm	431	65	5	501	146	79	7	232	1121	117	6	1244	153	4	3	160

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o [Wariant Alldro Ysgol Ddirprwyedig, yn ôl ysgol \(Emil\)](#), StatsCymru Llywodraeth Cymru

Tabl A8: Cyfran yr ysgolion sy'n dal cronfeydd wrth gefn cadarnhaol a negyddol, yn ôl awdurdod lleol, ar 31 Mawrth 2018

Cyfran yr ysgolion sydd â chronfeydd:

ar 31 Mawrth 2018	Cronfeydd Positif uwchlaw'r trothwy statudol				Cronfeydd Negyddol ²				Cronfeydd Positif				Cronfeydd Positif uwchlaw 10% (AAL)			
	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total	Primary	Secondary	Middle	Total
Ynys Môn	22.4	40.0	0.0	24.1	4.1	20.0	0.0	5.6	83.7	80.0	0.0	83.3	16.3	0.0	0.0	14.8
Gwynedd	16.0	28.6	100.0	18.3	5.3	28.6	0.0	8.3	93.6	71.4	100.0	90.8	22.3	7.1	100.0	21.1
Conwy	37.5	57.1	0.0	39.7	5.4	14.3	0.0	6.3	89.3	85.7	0.0	88.9	3.6	0.0	0.0	3.2
Sir Ddinbych	17.4	14.3	0.0	16.7	30.4	85.7	100.0	38.9	69.6	14.3	0.0	61.1	19.6	0.0	0.0	16.7
Sir y Fflint	31.3	0.0	0.0	26.3	4.7	50.0	0.0	11.8	95.3	41.7	0.0	86.8	9.4	0.0	0.0	7.9
Wrecsam	29.3	22.2	0.0	28.4	6.9	55.6	0.0	13.4	93.1	44.4	0.0	86.6	1.7	0.0	0.0	1.5
Powys	23.5	18.2	0.0	22.7	16.5	63.6	100.0	22.7	76.5	36.4	0.0	71.1	17.6	9.1	0.0	16.5
Ceredigion	21.4	50.0	66.7	26.5	2.4	25.0	33.3	6.1	90.5	75.0	66.7	87.8	35.7	0.0	0.0	30.6
Sir Benfro	14.3	25.0	0.0	15.5	7.9	50.0	0.0	12.7	84.1	50.0	0.0	80.3	17.5	0.0	0.0	15.5
Sir Gaerfyrddin	17.8	50.0	0.0	21.2	27.7	41.7	0.0	29.2	68.3	58.3	0.0	67.3	9.9	8.3	0.0	9.7
Abertawe	63.3	64.3	0.0	63.4	2.5	28.6	0.0	6.5	97.5	71.4	0.0	93.5	13.9	0.0	0.0	11.8
Castell-nedd Port Talbot	42.9	37.5	0.0	40.9	19.6	25.0	50.0	21.2	78.6	62.5	50.0	75.8	23.2	0.0	0.0	19.7
Pen-y-bont ar Ogwr	14.6	11.1	0.0	14.0	35.4	44.4	0.0	36.8	64.6	55.6	0.0	63.2	2.1	0.0	0.0	1.8
Bro Morgannwg	45.7	28.6	0.0	42.6	4.3	0.0	100.0	5.6	89.1	100.0	0.0	88.9	2.2	0.0	0.0	1.9
Rhondda Cynon Taf	32.4	31.3	100.0	32.8	3.9	56.3	0.0	10.9	96.1	43.8	100.0	89.1	9.8	0.0	100.0	9.2
Merthyr Tudful	63.6	75.0	0.0	65.4	0.0	0.0	0.0	0.0	100.0	100.0	0.0	100.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Caerffili	32.0	38.5	100.0	33.7	17.3	46.2	0.0	21.3	80.0	46.2	100.0	75.3	5.3	0.0	100.0	5.6
Blaenau Gwent	47.4	50.0	0.0	43.5	21.1	50.0	100.0	30.4	78.9	50.0	0.0	69.6	5.3	0.0	0.0	4.3
Torfaen	57.7	16.7	0.0	50.0	7.7	50.0	0.0	15.6	92.3	50.0	0.0	84.4	7.7	0.0	0.0	6.3
Sir Fynwy	33.3	25.0	0.0	32.4	26.7	75.0	0.0	32.4	73.3	25.0	0.0	67.6	10.0	0.0	0.0	8.8
Casnewydd	39.6	55.6	0.0	42.1	0.0	22.2	0.0	3.5	87.5	77.8	0.0	86.0	10.4	11.1	0.0	10.5
Caerdydd	58.2	20.0	0.0	51.7	4.1	25.0	0.0	7.6	95.9	65.0	0.0	90.7	4.1	0.0	0.0	3.4
Cyfartaledd	33.0	32.3	38.5	32.9	11.2	39.3	53.8	15.3	85.8	58.2	46.2	81.8	11.7	2.0	23.1	10.5
	= uwchlaw cyfartaledd Cymru															

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o [Wariant Alldro Ysgol Ddirprwyedig, yn ôl ysgol \(£mil\)](#), StatsCymru Llywodraeth Cymru

Atodiad E: Crynodeb o ymchwiliadau ac adolygiadau blaenorol

Cafwyd sawl ymchwiliad ar gyllid ysgolion gan Bwyllgorau'r Cynulliad yn yr Ail Gynulliad a'r Trydydd Cynulliad. Cafodd adolygiad ei gomisiynu hefyd gan Lywodraeth Cymru, a adroddodd yn 2007 ('Adolygiad Bramley'). Ni chafodd prif argymhellion Adolygiad Bramley eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, a hynny, mae'n ymddangos am fod y dull amgen o ddyrannu adnoddau a nodwyd ganddo yn cael ei ystyried yn ddull rhy gymhleth ac yn achosi gormod o aflonyddwch.

Penderfynodd y Pwyllgor gynnwys cynnydd ers yr adolygiadau blaenorol hyn fel rhan o'i Gylch Gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn, gan gydnabod yn bennaf fod rhai o'r materion perthnasol wedi'u hystyried o'r blaen ac oherwydd awydd i osgoi "ailddyfeisio'r olwyn".

Y Pwyllgor Ariannu Ysgolion (2006)

Cafwyd adroddiad gan Bwyllgor Ariannu Ysgolion a ffurfiwyd yn unswydd yn 2006,¹⁹⁹ ac a wnaeth 27 o argymhellion gan gynnwys:

- y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ar adolygiad o fformiwla dosbarthu cyllid llywodraeth leol fel bod yr elfen addysg yn cael ei seilio ar gostau darparu gwasanaethau addysg yn y presennol a'r dyfodol yn hytrach nag ar gostau hanesyddol;
- y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ar adolygiad o'r pwyslais a roddir ar ffactorau teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd wrth ddyrannu adnoddau i ateb y galw am wasanaethau addysg o fewn setliad llywodraeth leol;
- y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyfrifiadau'r IBA fel targed ar gyfer gwariant yr awdurdodau lleol ar addysg hyd nes bod modd sefydlu gofyniad cyffredin ynglŷn â chyllid;
- cyflwyno cyllidebau tair-blynedd i'r ysgolion.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru mewn cyfres o Ddatganiadau Ysgrifenedig.²⁰⁰ Roedd hyn yn cynnwys comisiynu adolygiad gan yr Athro Glen Bramley o Brifysgol Heriot-Watt i ymchwilio i ddulliau amgen o ddyrannu adnoddau, gan gynnwys

¹⁹⁹ Adroddiad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion - Mehefin 2006

²⁰⁰ Datganiadau Ysgrifenedig gan y Gweinidog 11 Gorffennaf, 19 Medi a 26 Medi 2006.

rhai wedi'u seilio ar anghenion y presennol a'r dyfodol yn hytrach na chostau hanesyddol.

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru yr IBA hefyd fel targed gwario lleol fel mesur dros dro. Er hynny, yn ddiweddarach symudodd i ffwrdd o drin yr IBA fel targed gwario, ac mae bellach yn ei gwneud yn glir nad yw'n darged o'r fath. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd, Jane Davidson:

“Hyd nes inni gwblhau ein hadolygiad o fformiwla'r asesiad o wariant safonol a bod modd defnyddio ei ganlyniadau yn y setliad i lywodraeth leol—disgwylir y daw hyn erbyn 2008-09—bydd yr asesiad seiliedig ar ddangosyddion i bob awdurdod yn cael ei ddefnyddio fel targed i'r gwariant ar addysg yn lleol, fel mesur dros dro. Nid yw hyn yn golygu ffrwyno rhyddid yr awdurdodau i osod eu cyllidebau addysg yn unol â'r blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, lle y mae awdurdodau lleol yn gosod cyllideb sy'n wahanol i'w hasesiad seiliedig ar ddangosyddion o ran addysg, gofynnir iddynt adrodd am y rhesymau am hynny i'w fforwm cyllideb ysgolion, eu cyngor llawn a Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn hybu tryloywder ac atebolrwydd lleol.”

Nododd y Gweinidog ar y pryd hefyd yr anawsterau wrth sefydlu gofyniad cyllido cyffredin i'r ysgolion:

“Mae gennyf gydymdeimlad â'r amcan y tu ôl i argymhelliad y pwyllgor y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu lleiafswm y gofynion ariannu sylfaenol cyffredin ar gyfer staffio ysgolion, adeiladau ac offer. Fodd bynnag, ni ddylem dwyllo ein hunain y bydd cyflawni hynny'n beth hawdd. Byddai angen inni bwysu a mesur, yn gyntaf, sut y gellid gwneud hyn, beth fyddai'r canlyniadau posibl o safbwynt effeithio ar gyllidebau ysgolion unigol, ac, o ystyried y gwaith helaeth a fyddai'n ofynnol, a fyddai'r canlyniad yn werth chweil.”

Adolygiad Bramley (2007)

Cyflwynodd yr adolygiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan yr Athro Glen Bramley o Brifysgol Heriot-Watt, ei adroddiad ym mis Medi 2007.²⁰¹ Dyma'i gylch gwaith:

²⁰¹ Methwyd dod o hyd i adroddiad yr Athro Glen Bramley a David Watkins, *Alternative resource allocation models for local services in Wales (2007)*, ar-lein, er bod copi caled yn cael ei gadw yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

- a) Ymchwilio i fethodolegau amgen a allai gael eu defnyddio i ragfynegi'r galw/angen cymharol am wasanaethau llywodraeth leol o fewn ffiniau'r data cyfredol sydd ar gael.
- b) Gwneud argymhellion ar gyfer casglu data yn y dyfodol lle mae bylchau.
- c) Rhoi pwyslais penodol ar y fformiwla addysg mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor Ariannu Ysgolion [2006].
- d) Helpu swyddogion Cyllid Llywodraeth Leol i enghreifftio effeithiau unrhyw fodel newydd arfaethedig.
- e) Asesu pa mor gymwys yn gyffredinol fyddai'r casgliadau ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill.

Cynigiodd adolygiad Bramley ddull cymharol gymhleth a soffistigedig o ddyrannu cyllid addysg. Roedd hwn wedi'i seilio ar y cysyniad o ddyrannu gwariant er mwyn cyflawni bwriadau polisi penodol, er enghraifft lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng awdurdodau a gwrthbwyso effaith amddifadedd.

Mae'r system cyllido ysgolion bresennol wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r gwariant hanesyddol ar ysgolion. Mae dadansoddiad atchweliad yn cael ei ddefnyddio i bennu pa ffactorau sy'n achosi gwahaniaethau mewn gwariant: er enghraifft niferoedd disgyblion ac amddifadedd. Wedyn gall fformiwla gael ei llunio sy'n rhoi hyn a hyn am ddisgybl, hyn a hyn am ddisgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim, ac yn y blaen.

Cymerodd adolygiad Bramley ymagwedd wahanol at fesur angen, gan edrych ar ganlyniadau ar ffurf cyrhaeddiad disgyblion. Archwiliodd yr ymchwiler a oedd yna gysylltiad rhwng cyrhaeddiad a chostau disgyblion ac ystyriodd ystod o ffactorau megis Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), tlodi a maint yr ysgol. Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- bod y dylanwad unigol mwyaf ar gyrhaeddiad addysgol yn gysylltiedig ag amgylchiadau'r disgyblion unigol;
- o'r rhain, AAA a thlodi oedd yn cael yr effaith fwyaf;
- prydau ysgol am ddim yw'r dangosydd gorau o dlodi;
- mae cyrhaeddiad blaenorol yn arwyddocaol i ysgolion uwchradd;
- mae disgyblion yn cyflawni'n well mewn ysgolion mwy.

Ar sail y canfyddiadau hyn, datblygodd adroddiad yr Athro Bramley dri model cyllido bras. Lluniodd y rhain “sefyllfa sylfaenol” a chymhwyso tri maen prawf gwahanol, bob un â'i fwriad polisi ei hun mewn perthynas â chyrhaeddiad disgyblion, gan gymryd i ystyriaeth y gwariant y mae ei angen er mwyn cyflawni'r bwriad polisi hwnnw. Byddai pob un o'r modelau, i wahanol raddau, yn darparu mwy o arian i'r awdurdodau lleol sydd â lefelau cyrhaeddiad is ac amddifadedd uwch.

Dyma'r tri maen prawf:

Maen Prawf A: Safonau cyrhaeddiad gofynnol: set o safonau gofynnol ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion, gan roi cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol sydd â'r ysgolion gwaethaf eu perfformiad, fel bod gan bob un y cyllid angenrheidiol i gyrraedd lefel benodol. Effaith hyn (ar sail y data a oedd ar gael yn 2007) fyddai rhoi mwy o arian i awdurdodau'r cymoedd a llai i ardaloedd uchel eu cyrhaeddiad ac ardaloedd cyfoethog. Byddai pob ardal wledig yn gweld gostyngiad.

Maen Prawf B: Cydgyfeirio Cyrhaeddiad: “dull cydgyfeirio” a fyddai'n ceisio cau'r bwlch rhwng brig a gwaelod y tabl cyrhaeddiad. Mae hyn yn debyg i Faen Prawf A, ond yn symlach, gan ei fod yn trin cyrhaeddwy'r uchel ac isel yn gymesur (yn gyferbyniol wahanol i'w gilydd). Byddai hyn hefyd yn golygu rhoi mwy o arian i awdurdodau'r cymoedd, yn enwedig Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, a llai i awdurdodau uchel eu cyrhaeddiad, cyfoethog a gwledig. Er hynny, ychydig yn unig o awdurdodau sy'n ennill mwy o dan faen prawf B na maen prawf A ond mae llawer yn colli llai.

Maen Prawf C: lawndal am anfantais gymdeithasol: dull anfantais gymdeithasol, sy'n cymryd i ystyriaeth dlodi ac efallai AAA. Mae hyn yn debyg i faen prawf B o ran ailddyrrannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol ar lefel yr ysgol gynradd ond mae'n arwain at fwy o wasgaru ac ailddosbarthu ar lefel yr ysgol uwchradd. Mae fersiwn gyntaf maen prawf C yn canolbwyntio ar dlodi ac mae'r ail fersiwn yn ychwanegu nifer yr achosion o AAA.

Roedd gan adroddiad Bramley ddau dabl (Tabl 6.3 ar dudalen 71 a Thabl 6.4 ar dudalen 74) yn dangos yr effaith a gâi pob un o'r modelau ar ddyraniadau cyllid ysgolion i'r awdurdodau lleol, o'i gymharu â lefel 2005/06. Mae'r rhain wedi'u hatgynhyrchu isod i roi syniad o lefel y newid y byddai wedi'i olygu (mae adroddiad adolygiad Bramley ar gael yn Saesneg yn unig).

Table 6.3: Exemplification of Four Alternative Formulae for Primary Schools

(net school delegated expenditure per pupil 2005/06; minimum school spend £1650)

LEA Name	Actual Expend	Base Expend	Exp Need Crit A	Exp Need Crit B	Exp Need Crit Ci	Exp Need Crit Cii
Anglesey	2822	2660	2823	2777	2652	2664
Gwynedd	2875	2852	2537	2619	2747	2717
Conwy	2781	2597	2490	2548	2480	2432
Denbigh	2744	2730	2506	2660	2612	2563
Flint	2531	2673	2342	2528	2460	2367
Wrexham	2678	2704	2874	2801	2696	2696
Powys	2924	3105	2634	2918	2884	2813
Ceredigion	3785	3153	2657	2801	2909	2838
Pembroke	2941	2917	1971	2175	2845	2849
Carmarthen	3181	3064	2801	2928	3008	2989
Swansea	2693	2752	2916	2814	2782	2856
Neath PT	3026	2995	3244	3170	3160	3209
Bridgend	2578	2672	2773	2791	2737	2716
Vale of Glam	2719	2742	2307	2480	2450	2350
Rhondda CT	2654	2734	3170	3050	2994	3023
Merthyr Tydfil	2857	2726	3549	3221	3129	3277
Caerphilly	2581	2708	2946	2911	2891	2917
Blaenau Gwent	2913	2947	3561	3360	3339	3472
Torfaen	2752	2746	3063	2982	2894	2928
Monmouth	2572	2815	2301	2548	2503	2441
Newport	2790	2733	3248	2907	2835	2876
Cardiff	2857	2881	2905	2841	2844	2852
Wales Ave	2801	2811	2812	2811	2812	2812
Min	2531	2597	1971	2175	2450	2350
Max	3785	3153	3561	3360	3339	3472
Std Dev	266	155	407	26.9	234	287
CV	9.5	5.5	14.5	9.6	8.3	10.2
Ratio	1.50	1.21	1.81	1.54	1.36	1.48

Table 6.4: Exemplification of Four Alternative Formulae for Secondary Schools

(net school delegated expenditure per pupil; minimum school spend £2750 /pupil)

LEA Name	Actual Expend	Base Expend	Exp Need Crit A	Exp Need Crit B	Exp Need Crit Ci	Exp Need Crit Cii
Anglesey	3526	3389	3394	3367	3372	3362
Gwynedd	3584	3582	3227	3330	3450	3433
Conwy	3456	3367	3193	3255	3267	3254
Denbigh	3123	3371	3265	3303	3215	3206
Flint	3296	3437	3079	3333	3178	3157
Wrexham	3590	3386	3482	3529	3479	3479
Powys	3475	3544	3073	3269	3208	3185
Ceredigion	4199	3813	3192	3401	3484	3457
Pembroke	3603	3623	3160	3443	3473	3460
Carmarthen	3669	3535	3620	3464	3573	3558
Swansea	3532	3532	3599	3547	3547	3550
Neath PT	3513	3615	3709	3723	3792	3800
Bridgend	3483	3367	3388	3446	3357	3350
Vale of Glam	3239	3424	3066	3220	3145	3136
Rhondda CT	3539	3540	3882	3754	3808	3825
Merthyr Tydfil	3486	3462	4112	3855	3881	3905
Caerphilly	3455	3482	3743	3744	3695	3711
Blaenau Gwent	3580	3705	4135	3966	3996	4013
Torfaen	3271	3517	3358	3581	3527	3524
Monmouth	3463	3576	2921	3275	3129	3096
Newport	3530	3515	3940	3636	3613	3635
Cardiff	3600	3516	3788	3535	3617	3630
Wales Ave	3509	3508	3508	3508	3509	3507
Min	3123	3367	2921	3220	3129	3096
Max	4199	3813	4135	3966	3996	4013
Std Dev	204	114	357	209	246	260
CV	5.8	3.2	10.2	6.0	7.0	7.4
Ratio	1.34	1.13	1.42	1.23	1.28	1.30

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Bramley ac ymchwiliadau pellach gan y Pwyllgor Menter a Dysgu (2007-2009)

Rhoddodd Llywodraeth Cymru groeso i adroddiad Bramley, pan gafodd ei gyhoeddi, a chafodd ei ddisgrifio gan y Gweinidog ar y pryd dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Hutt, fel “darn arloesol o waith”. Dywedodd y byddai hi a’r Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd, Brian Gibbons, yn ystyried sut i’w symud ymlaen. Cyfeiriodd Brian Gibbons at rôl yr Is-grŵp Dosbarthu a’r Fforwm Cyllid Ymgynghorol wrth ystyried y camau nesaf.

Er hynny, adroddodd papur CLILC i’w Bwyllgor Cydlynu ym mis Hydref 2007:

“Frankly if Bramley’s report had been based on a methodology which was understandable, subject to detailed consultation, peer review and scrutiny and written in a style that was slightly more readable we may have had the opportunity to have a debate on it (albeit a very difficult debate). However because it was penned in relative isolation the report sits as a complex and flawed piece of work which started to ask the right questions but whose answers could not be properly explained. Our members in particular have argued that because of the lack of confidence in the report it should now effectively be consigned to a high shelf in the assembly.”

Cynhaliodd Pwyllgor Menter a Dysgu’r Trydydd Cynulliad ddau ymchwiliad arall ar gyllido ysgolion. Yn ei ymchwiliad yn 2008, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynlluniau ar ba newidiadau y byddai’n eu gwneud yng ngoleuni Adolygiad Bramley.²⁰² Wedyn, yn ystod ei ymchwiliad dilynol yn 2009,²⁰³ adroddodd y Gweinidog ar y pryd, Jane Hutt, wrth y Pwyllgor:

“Mae adroddiad Bramley wedi bod yn sail werthfawr ar gyfer bwrw ymlaen â’r gwaith meddwl a’r camau ar gyfer newid fformiwla’r setliad refeniw i ddarparu elfen o ariannu yn seiliedig ar ganlyniadau.

Nid yw’n fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad i roi’r sefyllfaoedd ariannu a nodwyd yn Adroddiad Bramley ar waith. Byddai gwneud hynny yn creu trafferthion mawr o ran y dyraniadau ariannu a byddai hynny yn ei dro yn ansefydlogi’r broses o ariannu llywodraeth leol ac ysgolion. Yn ei dro, byddai hynny’n taseilio’r ymgais i wella cyflawniad y dysgwyr. Wedi dweud hynny, mae Adroddiad Bramley wedi tanlinellu pwysigrwydd

²⁰² Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau ar gyfer cyllido ysgolion yng Nghymru

²⁰³ Y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau Cyllido Ysgolion - Ymchwiliad Dilynol

canolbwyntio ar wella canlyniadau ac wedi pennu'r ffactorau allweddol ar gyfer sicrhau hynny. Mae'r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'n helpu i ddeall sut i ddatblygu'r gwaith o ddsbarthu'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn adlewyrchu'n agenda canlyniadau strategol yn fwy effeithiol. Felly, ers cyhoeddi'r Adroddiad, mae swyddogion wedi ystyried sut i wneud newidiadau a fydd yn sicrhau bod ariannu yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a hynny mewn ffordd na fydd yn ansefydlogi'r broses o ariannu'r awdurdodau lleol.

Pan wasgodd Huw Lewis AC am wybod pam roedd Llywodraeth Cymru yn "parcio" Adolygiad Bramley, dywedodd Jane Hutt wrth y Pwyllgor Menter a Dysgu:

"As I have said, work has started on how we can allocate money to improve outcomes and that is a demonstration of the fact that the Bramley recommendations have not been parked and that we are making progress in that direction. We need to get to the point at which we can demonstrate what this all means in terms of allocations. The crunch always comes when you get to the questions of, 'What does this mean? Are there going to be winners and losers?'"²⁰⁴

Yn yr adroddiad a ddeilliodd o'i ymchwiliad dilynol yn 2009, argymhellodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y dylai Llywodraeth Cymru adolygu dulliau cyllido ysgolion er mwyn lleihau aneglurder, cymhlethdod a gwahaniaeth yn y system bresennol, er mwyn gwella ei hymatebolrwydd i'r angen yn y presennol a'r dyfodol, ac i ganolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir.²⁰⁵ Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd "yn barod i gynnal adolygiad sylfaenol o'r peirianweithiau ariannu oherwydd bod hyn yn ddiangen".²⁰⁶ Pwysleisiodd y Gweinidog ar y pryd, Jane Hutt, mai cyfrifoldeb llywodraeth leol yw rheoli a cyllido ysgolion, gan honni na all cyllid ysgolion a chyllid llywodraeth leol gael eu trin fel endidau ar wahân.

Ysgrifennodd Jane Hutt hefyd:

"... yn y pendraw mater i awdurdodau unigol yw'r penderfyniadau yng ngoleuni'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ar draws pob gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdano.

²⁰⁴ [Y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 9 Gorffennaf 2009](#)

²⁰⁵ [Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau ar gyfer Cyllido Ysgolion- Ymchwiliad Dilynol](#)

²⁰⁶ [Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau ar gyfer Cyllido Ysgolion Dilyniant](#)

Mae i'r trefniadau hyn gymhlethdodau ond dim ond y cyfryw rai sy'n angenrheidiol i fodloni'r anghenion gwahanol yn y gymuned addysg yng Nghymru ac i ganiatáu disgresiwn digonol er mwyn i awdurdodau lleol ariannu, trefnu a chefnogi ysgolion yn y modd gorau, ym marn y penderfynwyr lleol. Mae'n anochel bod gwneud penderfyniadau'n lleol yn esgor ar raddau o anghyfartalwch; y dewisiadau amgen, y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu gwrthod, yw ariannu ysgolion yn uniongyrchol neu sefydlu fformiwla ariannu genedlaethol fanwl y mae'n rhaid i bob awdurdod ei defnyddio. Ni ddylid drysu cymhlethdod gyda hyblygrwydd a disgresiwn lleol i wneud penderfyniadau."²⁰⁷

Argymhellodd y Pwyllgor Menter a Dysgu hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o anghenion refeniw ysgolion a fyddai'n ffurfio sail ar gyfer cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol ar y gofyniad cyllido a gâi ei argymhell o ran "gwariant addysg" yr awdurdodau lleol. Dywedodd Jane Hutt:

"Mae angen i Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn i wasanaethau addysg, ysgolion yn benodol, gael eu cynnal yn dda a gwella. Ni allaf er hynny gytuno â'r angen am adolygiad annibynnol nac â nod benodol yr adolygiad hwnnw sef cytuno ar bennu isafswm y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ei wario ar addysg. Gwnaed argymhelliad tebyg gan y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion a byddai bwrw argymhelliad o'r fath yn ei flaen yn torri ar draws y rhaglenni gwelliant sylweddol a ddefnyddir i drawsnewid ein system ysgolion a byddai'n anwybyddu'r ffaith bwysig iawn ei bod yn gwbl briodol cael gwahaniaethau.

Nid yw'n bosibl bod o blaid democratiaeth leol ac yn gefnogol i rôl awdurdodau lleol yn cyflenwi gwasanaethau ac yna disgwyl gweld dim gwahaniaethau mewn lefelau gwariant na threfniadau dirprwyo ar gyfer gwasanaeth unigol megis addysg. Ceir bob amser wahaniaethau. Mae'n briodol wrth gwrs i gyrrff megis y rheini y dyfynnir eu tystiolaeth yn yr adroddiad godi cwestiynau ynghylch a yw awdurdodau'n neilltuo

²⁰⁷ Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau ar gyfer Cyllido Ysgolion Dilysiant

cyfran deg o'r hyn a dderbyniant ar gyfer addysg ond rhaid cyfeirio'r cwestiynau hynny at bob awdurdod lleol yn unigol.”²⁰⁸

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i grantiau addysg penodol (2009)

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad i grantiau addysg penodol yn 2009, gan wneud saith argymhellid.²⁰⁹ Roedd darpar Weinidogion Addysg, Huw Lewis a Kirsty Williams, yn aelodau o'r Pwyllgor ar y pryd. Nid oedd ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys ystyried priod ragoriaethau neu ddiffygion y grantiau penodol eu hunain, gan ganolbwyntio yn hytrach ar y weinyddiaeth a'r prosesau.

Sylwadau rhanddeiliaid yn yr ymchwiliad hwn (2018/19)

Mae tystiolaeth ysgrifenedig yr NAHT yn dweud bod y diffyg cynnydd ers adolygiadau blaenorol Pwyllgorau'r Cynulliad yn “annerbyniol”, yn enwedig felly y diffyg awydd yn y llywodraeth i ddiwygio a gwella'r mecanweithiau sy'n sail i gyllid ysgolion.

Nododd yr NASUWT hefyd y diffyg datblygiadau ers yr adolygiadau blaenorol gan gyfeirio at adroddiad a gyflwynwyd gan yr undeb, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, i'r Gweinidogion yng nghyfnod cynnar datganoli. Dywedodd yr NASUWT fod deunaw mlynedd wedi mynd heibio a'u bod yn siomedig nad oedd fawr ddim cynnydd wedi'i wneud.

Dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor mewn tystiolaeth lafar ar 20 Mawrth:

“The last time this Assembly committee looked at this issue, at the same time, an academic, Professor Bramley was asked to look at this issue—I don't know if any of you have looked at the report that he produced—but we discussed the work at length with Professor Bramley at the time. Eventually, I think that work was abandoned as well, because the consequences of getting it wrong are disastrous.”²¹⁰

Nododd CLILC mewn tystiolaeth ychwanegol yn dilyn ei ymddangosiad:

“The funding formula has remained largely unchanged since the time of the original review. There have been attempts to update the underlying analyses and the data used but these proposals have been

²⁰⁸ [Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Trefniadau ar gyfer Cyllido Ysgolion Dilyniant](#)

²⁰⁹ [Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Grantiau Addysg Penodol - Cwblhawyd ym mis Awst 2009](#)

²¹⁰ Tystiolaeth lafar. [Cofnod y Trafodion \[paragraff 60\], 20 Mawrth 2019](#)

rejected at a political level. The reasons for this have mostly been because of the resultant financial turbulence and the difficulties associated with the sparsity measures.

The only attempt to fundamentally review the education formula was the study authored by Prof Glen Bramley of Heriot-Watt University. It was more of an outcomes-based approach and was commissioned in response to the NAFWs School Funding Committee in 2006. However, it was too complex and redistributed an enormous amount of resource.

Currently the Distribution Sub Group is proposing to test out a bottom-up approach using data with greater granularity to understand the cost structure of running a school and educating the pupils within it.²¹¹

²¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig. [SF.FI.04.Cymdeithas.Llywodraeth.Leol.Cymru](#)